Rhif ymchwil gymdeithasol: 36/2026

Dyddiad cyhoeddi: 12/03/2026

# Asesiad gwerthusadwyedd ar gyfer Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-065-7

# Asesiad gwerthusadwyedd ar gyfer Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Awduron: Findlay, S. a Curless, G.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Findlay, S. a Curless, G. (2026). Asesiad gwerthusadwyedd ar gyfer Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 36/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/asesiad-gwerthusadwyedd-ar-gyfer-deddf-partneriaeth-gymdeithasol-chaffael-cyhoeddus-cymru

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Rhaglen Ymchwil Fewnol

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

RhYF.IRP@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o ffigurau ..... 2

Geirfa ..... 3

1. Cyflwyniad a chefndir ..... 4
   - 1.1. Gwybodaeth am y Ddeddf ..... 4
   - 1.2. Cyd-destun ymchwil ..... 11
   - 1.3. Nodau'r ymchwil ..... 12
2. Methodoleg ..... 14
   - 2.1. Cam 1, adolygu'r modelau rhesymeg a'r Theori Newid ..... 14
   - 2.2. Cam 2, deall y data ac ymarferoldeb y gwerthusiad ..... 16
   - 2.3 Cam 3, ystyried opsiynau gwerthuso ..... 18
   - 2.4 Ystyriaethau methodoleg ..... 18
3. Theori newid ..... 19
   - 3.1. Cyd-destun ..... 20
   - 3.2. Model rhesymeg a chadwyni'r DPG ..... 22
   - 3.3. Model rhesymeg a chadwyni'r CPG ..... 30
   - 3.4. Model rhesymeg a chadwyni gwaith teg ..... 37
   - 3.5. Cysylltiadau rhwng modelau rhesymeg ..... 45
4. Diffinio a mesur canlyniadau ..... 48
   - 4.1. Canlyniadau'r DPG ..... 48
   - 4.2. Canlyniadau'r CPG ..... 58
   - 4.3. Canlyniadau'r DPG a'r CPG ..... 62
   - 4.4. Canlyniadau gwaith teg ..... 64
   - 4.5. Crynodeb ar draws canlyniadau model rhesymeg ..... 71
5. Ymarferoldeb a gofynion gwerthuso ..... 74
   - 5.1. Gofynion gwerthuso ..... 74
   - 5.2. Ymarferoldeb gwerthuso ..... 76
   - 5.3. Heriau a risgiau sy'n berthnasol i'r gwerthusiad ..... 77
6. Cynnig gwerthuso ..... 81
   - 6.1. Gwerthusiad proses ..... 82
   - 6.2. Gwerthusiad effaith ..... 84
   - 6.3. Amseriad gwerthusiad ..... 92
   - 6.4. Opsiwn amgen ..... 94
   - 6.5. Argymhellion i gefnogi gwerthusiad yn y dyfodol ..... 95

# Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Model rhesymeg y DPG .......... 22
Ffigur 2: Model rhesymeg y CPG .......... 30
Ffigur 3: Model rhesymeg gwaith teg .......... 37

# Geirfa

**AI**

Deallusrwydd Artiffisial

**RhYF**

Rhaglen Ymchwil Fewnol

**CPG**

Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

**DPG**

Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

**PGCGT**

Yr Is-adran Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg

**Y Ddeddf**

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

**ToC**

Theori Newid

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Ym mis Mawrth 2025, comisiynodd yr Is-adran Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg (PGCGT, Llywodraeth Cymru) y Rhaglen Ymchwil Fewnol (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru) i gynnal asesiad gwerthusadwyedd o elfennau partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (y Ddeddf).

Mae'r asesiad gwerthusadwyedd yn cynnwys elfennau Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol (DPG), Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG) a gwaith teg y Ddeddf. Nid yw'r elfen caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol wedi'i chynnwys.

## 1.1. Gwybodaeth am y Ddeddf

Mae'r Ddeddf yn cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu (2021 i 2026) i osod partneriaethau cymdeithasol ar sail statudol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith sy'n ceisio gwella llesiant pobl yng Nghymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg, a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

Mae partneriaeth gymdeithasol yn cael ei disgrifio fel 'ffordd Gymreig' o weithio, gyda Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo partneriaeth a chydweithio ers datganoli (Partneriaeth Gymdeithasol: llawlyfr 2025).

Mae'r Ddeddf wedi'i chynllunio i ategu deddfwriaeth bresennol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk) a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (legislation.gov.uk).

Mae'r is-adrannau canlynol yn darparu rhagor o fanylion am brif ddarpariaethau'r Ddeddf.

### 1.1.1. Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol (DPG)

#### 1.1.1.1. Cyd-destun

Mae memorandwm esboniadol y Ddeddf yn disgrifio partneriaeth gymdeithasol fel ffordd o weithio sy'n ceisio cyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt ar y cyd, er budd pawb sy'n rhan o’r gwaith. Hefyd, mae'n tynnu sylw at bum 'egwyddor partneriaeth gymdeithasol', sy'n nodi ymddygiadau sy'n adlewyrchu gwaith partneriaeth gymdeithasol llwyddiannus. Yr egwyddorion yw cydweithredu, parch, ymddiriedaeth, llais a chyfranogiad, a buddion cyffredin.

Hefyd, mae'r memorandwm esboniadol yn tynnu sylw at y ffaith bod y Ddeddf yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy geisio gwella llesiant. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlinellu saith nod llesiant. Mae’n gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus, sy'n amlinellu'r angen i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Datblygu cynaliadwy yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan geisio cyflawni’r nodau llesiant. Rhaid i ddatblygu cynaliadwy gynnwys cyrff cyhoeddus yn gosod ac yn cyhoeddi amcanion llesiant sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf at y nodau llesiant ac yn cymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei diffinio fel gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae yna 5 ffordd o weithio (cydweithredu, integreiddio, cyfranogiad, hirdymor, ac atal).

Mae memorandwm esboniadol y Ddeddf yn amlinellu mai bwriad y Ddeddf yw ategu'r 5 ffordd o weithio drwy gyflwyno partneriaeth gymdeithasol fel elfen hanfodol o waith cyrff cyhoeddus. Nodir hefyd fod y ffordd partneriaeth gymdeithasol o weithio yn gallu gwella sut mae cyrff cyhoeddus yn gosod ac yn cyflawni eu hamcanion llesiant.

Fel y nodir yn y memorandwm esboniadol, diben y DPG yw 'gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl yng Nghymru drwy gryfhau rôl partneriaeth gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol'.

#### 1.1.1.2. Darpariaethau

Mae'r DPG wedi'i nodi yn rhan 2 o'r Ddeddf (legislation.gov.uk), ac mae'n cynnwys DPG ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru.

Daeth y DPG ar gyrff cyhoeddus i rym ar 1 Ebrill 2024. Y cyrff cyhoeddus yw'r rhai sy'n cael eu rhestru o dan adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (legislation.gov.uk). Yn hanesyddol, roedd 48 o'r cyrff cyhoeddus hyn, ond ym mis Mehefin 2024 roedd 8 corff cyhoeddus arall wedi'u rhestru, sy'n golygu (ac eithrio Llywodraeth Cymru) bod 55 o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r DPG.

Mae adran 16 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, i'r graddau y bo'n rhesymol, geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr staff eraill wrth osod amcanion llesiant o dan adran 3(2)(a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae adran 16 hefyd yn nodi, er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd, y dylid ymgynghori ag undebau llafur neu gynrychiolwyr staff eraill yn ystod y broses o osod amcanion neu wneud penderfyniadau yn y cam ffurfiannol, a thrwy ddarparu gwybodaeth ddigonol ac amser digonol drwy gydol y broses i ystyried y cynigion ac ymateb iddynt.

Mae adran 18 o'r Ddeddf yn amlinellu bod rhaid i gyrff cyhoeddus lunio adroddiad o'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r DPG ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid cytuno ar yr adroddiad hwn gydag undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr staff eraill neu gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno. Yna, rhaid cyhoeddi'r adroddiad a'i gyflwyno i'r CPG. Nid oes templed penodol ar gyfer yr adroddiad hwn, ac nid oes dyddiad cau penodol y tu hwnt i cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol (31 Mawrth).

Daeth y DPG ar Weinidogion Cymru i rym ar 1 Ebrill 2024 hefyd ac mae wedi'i nodi yn adrannau 17 ac 19 o'r Ddeddf. Mae adran 17 yn amlinellu bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r CPG wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn eu cymryd (o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) i gyflawni eu hamcanion llesiant (a bennir o dan adran 3(2)(a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Mae adran 19 yn amlinellu bod rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad o'r hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â'r DPG ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad hwn, a rhaid cytuno arno gyda'r CPG neu gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno. Rhaid gosod yr adroddiad gerbron y Senedd hefyd. Unwaith eto, nid oes unrhyw dempled na dyddiad cau penodol ar gyfer yr adroddiad.

### 1.1.2. Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG)

#### 1.1.2.1. Cyd-destun

Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi bod dau fath o drefniadau gwahanol ar gyfer partneriaethau cymdeithasol. Mae un yn ddwyochrog, sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr ac undebau llafur. Mae'r llall yn deirochrog sy'n cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr, undebau llafur a Llywodraeth Cymru. Nodir trefniadau partneriaeth gymdeithasol sy'n bodoli eisoes, megis y fforwm manwerthu a'r fforwm gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, nodir bod diffyg cydgysylltu neu fframwaith cyffredin ar gyfer y trefniadau.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys sefydlu fforwm traws-sector cenedlaethol; y CPG. Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi mai nod cyngor y CPG yw gwella "gwasanaethau cyhoeddus a llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru." (paragraff 46). Hefyd, nod elfen CPG y Ddeddf yw cryfhau rôl partneriaethau cymdeithasol ym maes cyngor strategol a dangos arferion da ac arweinyddiaeth ynglŷn â'r ffordd partneriaeth gymdeithasol o weithio.

#### 1.1.2.2. Darpariaethau

Mae'r CPG wedi'i amlinellu yn rhan 1 o'r Ddeddf (legislation.gov.uk), a daeth i rym ar 29 Gorffennaf 2023 (ac eithrio'r is-grŵp caffael). Mae'n gorff cynghori statudol teirochrog sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, gweithwyr a chyflogwyr. Mae'n cynnwys 9 cynrychiolydd gweithwyr a 9 cynrychiolydd cyflogwyr. Rhaid i gynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr gynnwys y rhai o'r sectorau canlynol: cyrff cyhoeddus, y sector preifat, y sector gwirfoddol, addysg uwch ac addysg bellach.

Hefyd, mae'r Ddeddf yn amlinellu'r broses benodi. Rhaid i aelodau gael eu penodi gan y Prif Weinidog. Ar gyfer cynrychiolwyr gweithwyr, rhaid i'r Prif Weinidog ofyn am enwebiadau gan TUC Cymru (y corff sy'n cynrychioli undebau llafur yng Nghymru). Ar gyfer cynrychiolwyr cyflogwyr, rhaid i'r Prif Weinidog ofyn am enwebiadau gan bobl neu gyrff sy'n cynrychioli'r categorïau sector. Penodir aelodau am 3 blynedd (ac eithrio mewn achosion o derfynu neu ymddiswyddo). Penodwyd yr aelodau cyntaf ym mis Rhagfyr 2023.

Mae'r cworwm a'r gweithdrefnau ar gyfer y CPG wedi'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Ddeddf. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y CPG ar 1 Chwefror 2024.

Caiff y CPG ddarparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru ynglŷn â'r canlynol:

- y DPG ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru
- cyrff cyhoeddus sy'n ceisio cyflawni'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus' wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol

Gall y CPG wneud hyn ar ei liwt ei hun, neu ar gais Gweinidogion Cymru.

Hefyd, mae'r Ddeddf yn nodi y caiff y CPG sefydlu is-grwpiau, a bod rhaid iddynt gael eu cadeirio gan aelod o'r CPG. Mae gofyniad hefyd i sefydlu is-grŵp caffael cyhoeddus, sydd â'i gworwm a'i weithdrefnau ei hun, a chanllawiau cyfansoddi, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Caiff yr is-grŵp caffael ddarparu gwybodaeth a chyngor ar elfennau caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol o'r Ddeddf (rhan 3) mewn perthynas ag awdurdodau contractio a Gweinidogion Cymru. Os yw Gweinidogion Cymru yn gofyn am yr wybodaeth hon neu'r cyngor hwn, rhaid i'r CPG ofyn i'r is-grŵp am yr wybodaeth neu'r cyngor. Gall y CPG adolygu hyn.

### 1.1.3. Gwaith teg

Mae'r egwyddor gwaith teg yn cael ei hadlewyrchu yn ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu (2021 i 2026) i "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol".

Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru'r diffiniad o waith teg sy'n cael ei amlinellu yn adroddiad Gwaith Teg Cymru (Comisiwn Gwaith Teg, 2019), sef "ystyr gwaith teg yw bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu." Mae 6 nodwedd o fewn y diffiniad hwn gyda dangosyddion arferion da cysylltiedig, sef:

- gwobrwyo teg, gan gynnwys; tâl, telerau ac amodau, pensiynau a buddion ehangach
- llais y cyflogai a chydgynrychiolaeth, gan gynnwys; gwybodaeth am hawliau, y gallu i godi pryderon, cydfargeinio
- sicrwydd a hyblygrwydd, gan gynnwys; oriau gwaith, diogelwch swyddi
- cyfle i gael mynediad at waith, i dyfu ac i gamu ymlaen, gan gynnwys; cyfleoedd cynhwysol, agored a theg i ddatblygu a chamu ymlaen, mynediad at hyfforddiant
- amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol, gan gynnwys; polisïau, yr amgylchedd gwaith, patrymau gwaith, gweithdrefnau gwrth-fwlio a gwahaniaethu
- mae hawliau cyfreithiol yn cael eu parchu a'u gweithredu, gan gynnwys; pwysigrwydd hawliau cyfreithiol a pheidio â cheisio osgoi'r rhain

Mae'r egwyddor gwaith teg yn rhychwantu materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl. Felly, ochr yn ochr â'r Ddeddf (sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru yn unig), mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ysgogiadau polisi eraill i hyrwyddo gwaith teg ar draws y sectorau yng Nghymru.

Mae gwaith teg yn y Ddeddf wedi'i gyfyngu i ddisodli 'gwaith addas' gyda 'gwaith teg' yn y disgrifiad o'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus' (o fewn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Daeth hyn (yn rhan 2 o'r Ddeddf) i rym ar 1 Ebrill 2024. Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi bod y newid hwn yn golygu y bydd angen i gyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (ac felly'r DPG, gan gynnwys Gweinidogion Cymru) ystyried 'gwaith teg' yn eu hymdrechion i gyflawni'r nod llesiant

'Cymru lewyrchus', drwy bennu eu hamcanion llesiant ac adrodd ar gynnydd. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad adroddiad Gwaith Teg Cymru (Comisiwn Gwaith Teg, 2019) i gynnwys gwaith teg yn yr amcanion llesiant a bennir gan gyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### 1.1.4. Caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol

#### 1.1.4.1. Cyd-destun

Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi bod "nifer fawr o ddisgwyliadau polisi yn gysylltiedig â gweithgareddau caffael".

Mae deddfwriaeth gaffael yn cynnwys Deddf Caffael y DU 2023 (legislation.gov.uk). Mae deddfwriaeth gysylltiedig yn cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol hefyd. Wrth wneud penderfyniadau o natur strategol, rhaid i gyrff cyhoeddus "ystyried pa mor briodol yw eu harfer mewn ffordd sydd wedi cael ei dylunio i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol" (mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: canllawiau statudol, Llywodraeth Cymru, 2025). Mae penderfyniadau strategol yn cynnwys penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio'r cod gwirfoddol hwn hefyd: 'cod ymarfer: cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi' (2017). Wrth gofrestru, mae sefydliadau yn cytuno i 12 ymrwymiad, a disgwylir i sefydliadau sy'n cael cyllid gan y sector cyhoeddus gofrestru. Hefyd, mae canllawiau ar gaffael a thelerau contract enghreifftiol wedi'u cynnwys yn y 'Cod ymarfer (dwy haen) ar faterion y gweithlu' (2014).

Yn unol â'r hyn a amlinellir yn y memorandwm esboniadol, nod y Ddeddf yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio ddangos ymrwymiad i'r agenda polisi caffael, darparu eglurder ar ddisgwyliadau polisi, cefnogi'r broses o gyflawni canlyniadau drwy reoli contractau, sicrhau bod canlyniadau yn cysylltu â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwella atebolrwydd a thryloywder.

Diben y dyletswyddau yn y Ddeddf yw rhoi "rhagor o flaenoriaeth i ganlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol ym maes caffael, a byddant yn cael eu hystyried yn ofalus fel rhan o ddiffiniad mwy cyfannol a hirdymor o werth am arian."

#### 1.1.4.2. Darpariaethau

Amlinellir caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn rhan 3 o'r Ddeddf (legislation.gov.uk). Rhaid i awdurdodau contractio a nodir yn y Ddeddf ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn ystod y broses gaffael.

Mae hyn yn cynnwys dyletswydd statudol ar awdurdodau contractio i gyflawni gwaith caffael cyhoeddus mewn ffordd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Rhaid iddynt osod a chyhoeddi amcanion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, a chamau rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn, er mwyn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rhaid cynnwys hyn mewn strategaeth gaffael.

Mae yna ddwy ddyletswydd rheoli contract hefyd. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi 'cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol enghreifftiol' ar gyfer contractau adeiladu mawr. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi 'cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a’r gweithlu' yn ymwneud â materion cyflogaeth a phensiynau sy'n gysylltiedig â chontractau allanoli gwasanaethau, a fydd yn cynnwys 'cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol enghreifftiol’. Rhaid i awdurdodau contractio gynnwys y cymalau y mae'n ystyried y dylid eu cynnwys a sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu.

Hefyd, mae'r Ddeddf yn nodi bod angen i awdurdodau contractio lunio adroddiadau caffael blynyddol sy’n gyfrifol yn gymdeithasol yn dilyn gweithgaredd. Mae adran 39 o'r Ddeddf yn amlinellu'r meysydd sydd angen eu cynnwys yn yr adroddiad, gan gynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru y mae'n rhaid eu cyhoeddi, a fydd yn manylu ar yr wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau contractio ei chasglu a'i hadrodd. Hefyd, rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad blynyddol ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru.

Mae adran 43 o'r Ddeddf yn amlinellu y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â chaffael cyhoeddus sy’n gyfrifol yn gymdeithasol.

Adeg y gwaith ymchwil hwn, disgwylir i'r darpariaethau caffael sy’n gyfrifol yn gymdeithasol ddod i rym yn llawn ym mis Ebrill 2026.

## 1.2. Cyd-destun ymchwil

Ym mhennod 11 o'r memorandwm esboniadol, nodir bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gosod gerbron y Senedd adroddiad ar effaith y Ddeddf a'r ffordd y mae wedi cael ei gweithredu. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwerthusiad ffurfiol gan ymchwilwyr a gomisiynir yn allanol.

Yn 2023, cynhyrchodd y cynhyrchodd y RhYF Theori Newid ar gyfer y Ddeddf mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mae hyn yn disgrifio pam mae'r Ddeddf yn angenrheidiol a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni, ac yn mapio mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau'r Ddeddf. Mae'r Theori Newid yn cynnwys pedwar model rhesymeg unigol sy'n cwmpasu darpariaethau'r Ddeddf: y CPG, y DPG, gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy’n gyfrifol yn gymdeithasol. Hefyd, roedd y Theori Newid yn nodi rhwystrau neu risgiau i weithredu. Hefyd, dechreuodd yr adroddiad fapio data monitro sy'n berthnasol i ganlyniadau'r model rhesymeg gwaith teg.

Gan fod y Theori Newid wedi'i datblygu pan oedd y Ddeddf yn fil, cyn i'r darpariaethau ddod i rym, mae'n darparu asesiad o amodau cyn y Ddeddf y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd neu newid.

Y Theori Newid oedd y cam cyntaf tuag at ddatblygu fframwaith ar gyfer gwaith gwerthuso yn y dyfodol. Fel y nodir ym memorandwm esboniadol y Ddeddf, awgrymwyd y canlynol: "Fel dull systematig o ddatblygu prosiectau gwerthuso, gellid cynnal asesiad gwerthusadwyedd fel cam cynnar yn y broses adolygu ôl-weithredu. Gan adeiladu ar y dadansoddiad o’r ddamcaniaeth newid, byddai asesiad gwerthusadwyedd yn pennu’r tebygolrwydd o effaith fesuradwy yn y meysydd diddordeb cyn i adnoddau gael eu hymrwymo i werthusiad ar raddfa lawn. Byddai'r asesiad yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol gychwynnol o adolygiad o ffynonellau data presennol ac argymhellion o blaid ac yn erbyn gwahanol ddulliau gwerthuso, yn seiliedig ar ofynion tystiolaeth.” (Paragraff 468).

Y diffiniad cyffredinol o asesiad gwerthusadwyedd yw "Y graddau y gellir gwerthuso gweithgaredd neu brosiect mewn modd dibynadwy a chredadwy" (yn unol â 'Better Evaluation', a ddyfynnwyd o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd - Y Pwyllgor Cymorth Datblygu).

O ran y cyd-destun polisi ar gyfer gwerthusiad, bwriad y Ddeddf yw helpu i greu cenedl gwaith teg drwy gyfuno partneriaeth gymdeithasol (cynyddu llais y gweithiwr ym maes polisi cyhoeddus) a chamau gweithredu caffael sy’n gyfrifol yn gymdeithasol (manteisio ar bŵer caffael Cymru). Am y rhesymau hyn, sail resymegol y polisi yw bod angen i werthusiad ystyried pob elfen o'r Ddeddf gyda'i gilydd.

## 1.3. Nodau'r ymchwil

Cylch gwaith yr ymchwil hon yw cynnal asesiad gwerthusadwyedd o agweddau partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg ar y Ddeddf. Nid yw gwaith caffael wedi'i gynnwys yn yr asesiad gwerthusadwyedd hwn oherwydd adnoddau mewnol, gan fod darpariaethau yn dod i rym a chanllawiau yn cael eu datblygu adeg comisiynu'r gwaith ymchwil hwn.

Y defnydd bwriedig yw llywio'r fanyleb dendro ar gyfer comisiynu gwerthusiad ffurfiol o'r Ddeddf yn allanol (yn unol â'r memorandwm esboniadol). Datblygodd y RhYF (gyda mewnbwn swyddogion PGCGT) nodau ymchwil a chwestiynau ymchwil penodol ar gyfer pob nod.

Nod 1a yw deall cynnydd agweddau partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg ar y Ddeddf. Bydd yr ymchwil yn ystyried:

- sut mae'r CPG wedi datblygu ers iddo gael ei sefydlu ym mis Chwefror 2024 a sut mae'r DPG wedi cael ei hymwreiddio ers mis Ebrill 2024; gan gynnwys y cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran mewnbynnau, gweithgareddau ac allbynnau modelau rhesymeg 2023
- a oes unrhyw waith systematig wedi cael ei wneud i fonitro cynnydd

Nod 1b yw mireinio'r modelau rhesymeg perthnasol mewn ffordd briodol. Bydd yr ymchwil yn ystyried pa agweddau ar y modelau rhesymeg perthnasol sydd wedi aros yr un fath, a pha agweddau sydd wedi newid. Mae hyn yn cynnwys mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau, a chysylltiadau rhyngddynt. Hefyd, mae hyn yn cynnwys ystyried risgiau a ffactorau cyd-destunol.

Nod 2 yw deall argaeledd ac ansawdd data sylfaenol ac eilaidd sy'n gallu darparu tystiolaeth ar gyfer elfennau a nodir yn y Theori Newid. Bydd yr ymchwil yn ystyried:

- y ffynonellau data eilaidd posibl i ddarparu tystiolaeth o weithredu gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau
- pa weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau nad oes modd defnyddio data eilaidd i ddarparu tystiolaeth ar eu cyfer, a pha ddata sylfaenol sydd ei angen o bosibl i ddarparu tystiolaeth o gyflawni ac effaith
- pa faterion y gellir eu rhagweld drwy ddangos tystiolaeth o weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau, megis: maint y priodoli (gan ystyried y system ehangach a'r ffactorau cyd-destunol), man cychwyn, ansawdd y dystiolaeth a bylchau mewn tystiolaeth
- sut y gellir lliniaru neu dderbyn materion a ragwelir mewn dull gwerthuso

Nod 3 yw amlinellu a darparu cyngor ac opsiynau ar gyfer dyluniad y gwerthusiad. Bydd yr ymchwil yn ystyried:

- beth yw'r galluogwyr a'r cyfyngiadau ar raglen werthuso, gan gynnwys y dyluniad (nod 1), asesiad data (nod 2) a ffactorau trefniadol gan gynnwys amser (sy'n cynnwys amseru'r gwerthusiad), cyllideb, arbenigedd, capasiti a moeseg
- beth yw'r opsiynau ymarferol ar gyfer rhaglen werthuso, gan gynnwys y broses a'r effaith, gan ystyried y galluogwyr a'r cyfyngiadau
- beth yw'r ystyriaethau lefel uchel ar gyfer gwerthuso effaith elfennau partneriaeth gymdeithasol y Ddeddf mewn modd cydlynol gydag effaith yr elfennau caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol

# 2. Methodoleg

Er mwyn bodloni'r nodau ymchwil, roedd y dulliau yn cynnwys adolygiadau desg o ddogfennau a gweithdai gyda rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau gwahanol yr ymchwil.

Roedd y gwaith o ddatblygu nodau a dulliau'r gwaith ymchwil wedi'i lywio gan y papur gwaith 'Planning evaluability assessments: a synthesis of the literature with recommendations' (Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, 2013).

Mae'r papur hwn yn nodi y dylai asesiadau gwerthusadwyedd ystyried gwerthusadwyedd mewn egwyddor ac yn ymarferol, ynghyd â defnyddioldeb tebygol gwerthusiad. Mae'n cynnwys rhestr wirio wedi'i rhannu'n dri maes y dylai asesiad gwerthusadwyedd eu cwmpasu, sef:

- dyluniad y rhaglen, gan gynnwys ystyried y Theori Newid ac i ba raddau y gellid gwerthuso hyn ar sail dimensiynau megis eglurder a chymhlethdod (gwerthusadwyedd 'mewn egwyddor')
- yr wybodaeth a'r data sydd ar gael, gan gynnwys deall eu hansawdd ac i ba raddau y gellir eu priodoli i'r rhaglen (gwerthusadwyedd 'ymarferol')
- cyd-destun sefydliadol, sy'n archwilio nodweddion ymarferol gan gynnwys yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwerthuso, cyfranogiad rhanddeiliaid, amseru gwerthusiad ac ystyriaethau moesegol (gwerthusadwyedd 'ymarferol', a defnyddioldeb)

## 2.1. Cam 1, adolygu'r modelau rhesymeg a'r Theori Newid

### 2.1.1. Adolygu'r ddogfen

Bu'r RhYF yn gweithio gyda swyddogion PGCGT i nodi dogfennau yn ymwneud â sefydlu a gweithredu elfennau DPG, CPG a gwaith teg y Ddeddf. Nod y gwaith hwn oedd cofnodi prosesau a chynnydd ers i'r darpariaethau ddod i rym. Mae enghreifftiau o ddogfennau yn cynnwys cyngor gweinidogol, canllawiau i sefydliadau, cofnodion cyfarfodydd y CPG ac adroddiadau cyrff cyhoeddus cyhoeddedig ar gydymffurfio â'r DPG.

Defnyddiodd y RhYF y ddogfennau hyn i gynnal adolygiad cychwynnol o'r modelau rhesymeg DPG, CPG a gwaith teg a luniwyd yn 'Adroddiad Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): Theori Newid' (2023). Roedd hyn yn dangos bylchau posibl, elfennau nad ydynt yn berthnasol mwyach neu feysydd sydd angen eglurhad.

### 2.1.2. Gweithdai

Gweithiodd y RhYF gyda swyddogion PGCGT i nodi swyddogion Llywodraeth Cymru i gymryd rhan mewn gweithdai er mwyn adolygu modelau rhesymeg DPG, CPG a gwaith teg 2023. Y dull y cytunwyd arno oedd cynnwys swyddogion sy'n cyflawni rolau strategol a chyflawni ym maes datblygu a gweithredu. Nod y gweithdai oedd casglu safbwyntiau eang er mwyn myfyrio'n feirniadol ar y modelau rhesymeg presennol.

Defnyddiwyd Microsoft Whiteboard i ddelweddu modelau rhesymeg 2023 ar gyfer y gweithdai. Adlewyrchwyd bylchau, diwygiadau a chwestiynau eglurhad a godwyd yn yr adolygiad o’r ddogfen ar y byrddau gwyn.

Cynhaliwyd tri gweithdy - un ar gyfer pob un o'r modelau rhesymeg. Roedd gan bob un ganllaw pwnc. Roedd y canllawiau pwnc yn rhychwantu mewnbynnau a chanlyniadau, gan gwmpasu'r cwestiynau penodol a gododd o'r adolygiad o'r ddogfen, a chwestiynau cyffredinol am unrhyw newidiadau neu fylchau eraill a nodwyd gan gyfranogwyr yn y modelau rhesymeg. Oherwydd yr amseru, trafodwyd risgiau yn y gweithdy CPG yn unig, a thrafodwyd cyd-destun yn y gweithdy gwaith teg yn unig.

Roedd y gweithdy DPG wedi para tua 1 awr, gyda 10 o bobl yn cymryd rhan. Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli meysydd busnes amrywiol gan gynnwys ysgrifenyddiaeth y CPG, ymgysylltu â phartneriaeth gymdeithasol, secondeion undebau llafur, llywodraeth leol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roedd y gweithdy CPG wedi para tua 1 awr 30 munud, gyda 10 o bobl yn cymryd rhan, gyda’r rhan fwyaf wedi mynychu'r gweithdy DPG hefyd. Roedd un mynychwr yn wahanol i'r gweithdy DPG; nid oedd y maes busnes llywodraeth leol wedi'i gynrychioli yn y gweithdy CPG.

Roedd y gweithdy gwaith teg wedi para tua 1 awr 30 munud, gyda phob un o'r 4 person a gafodd wahoddiad yn bresennol. Y meysydd busnes a gafodd eu cynrychioli oedd ysgrifenyddiaeth y CPG, gwaith teg, caffael a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Defnyddiwyd swyddogaeth recordio a thrawsgrifio Microsoft Teams ym mhob un o'r gweithdai. Gofynnwyd i’r holl gyfranogwyr a oeddent yn hapus i ni wneud hynny ar ddechrau'r gweithdai. Gwiriwyd y trawsgrifiadau am gywirdeb yn erbyn y recordiadau.

Yna cafodd y trawsgrifiadau eu hadolygu ar wahân gan ddau ymchwilydd o fewn y RhYF er mwyn nodi newidiadau i'r modelau rhesymeg DPG, CPG a gwaith teg er mwyn adlewyrchu adborth o'r gweithdai. Gwnaeth y ddau ymchwilydd drafod a chytuno ar y newidiadau. Yna gwnaeth trydydd ymchwilydd adolygu’r newidiadau hyn. Roedd yr holl ymchwilwyr wedi cymryd rhan yn y broses o hwyluso'r gweithdai.

Anfonwyd y modelau rhesymeg diwygiedig drwy e-bost at swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn iddynt wneud sylwadau pellach arnynt, gan gynnwys y rhai a fynychodd unrhyw un o'r gweithdai neu a gafodd wahoddiad ond na allent fynychu.

## 2.2. Cam 2, deall y data ac ymarferoldeb y gwerthusiad

### 2.2.1. Gweithdy data a gwybodaeth

Oherwydd natur y cysyniadau yn y Ddeddf, roedd y modelau rhesymeg canlyniadol yng ngham 1 yn cynnwys llawer o ganlyniadau â chysyniadau lefel uwch. Felly, y dull y cytunwyd arno oedd defnyddio cam 2 i ddiffinio'r canlyniadau hyn ymhellach, gan rannu'r cysyniadau yn elfennau mesuradwy penodol. Wrth wneud hynny, byddai modd ystyried sut y gellid mesur yr elfennau hyn ac unrhyw heriau posibl. Rhagwelwyd y gallai hyn ddatgelu newidiadau pellach i'r model rhesymeg. Felly, cytunwyd mai swyddogion Llywodraeth Cymru yn unig fyddai'n cymryd rhan yn y gweithdy.

Bu'r RhYF yn gweithio gyda swyddogion PGCGT i nodi swyddogion Llywodraeth Cymru i gymryd rhan yn y gweithdy yn ymwneud â data a gwybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys yr un meysydd busnes â'r gweithdai model rhesymeg: ysgrifenyddiaeth y CPG, ymgysylltu â phartneriaeth gymdeithasol, secondeion undebau llafur a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r proffesiynau ystadegau ac economegwyr.

Cynhaliwyd un gweithdy hanner diwrnod yn cynnwys tair sesiwn, un yr un ar gyfer y DPG, y CPG a gwaith teg. Roedd y canllaw pwnc yn cwmpasu detholiad o ganlyniadau tymor byr, canolig a hir. Nid oedd modd cwmpasu'r holl ganlyniadau, felly rhoddwyd blaenoriaeth i'r canlyniadau mwy cysyniadol neu'r canlyniadau y gallai fod yn anoddach eu mesur. Roedd meysydd cyffredinol y cwestiynau yn cynnwys:

- sut beth fyddai'r canlyniadau yn ymarferol
- pa ddata neu wybodaeth sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd, neu pa ddata neu wybodaeth newydd a allai fod eu hangen
- beth yw'r heriau ar gyfer gwerthuso a chasglu data
- pa ffactorau cyd-destunol a allai gyfyngu ar briodoli

Cynhaliwyd y gweithdy yn y cnawd gyda'r opsiwn i fynychu ar-lein. Roedd y sesiwn DPG wedi para tua 1 awr 30 munud, ac roedd y sesiynau CPG a gwaith teg wedi para tua 1 awr yr un. Roedd 13 o bobl yn bresennol yn y sesiwn DPG, 11 yn y sesiwn CPG a 10 yn y sesiwn gwaith teg. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi mynychu yn y cnawd.

### 2.2.2. Gweithdy ymarferoldeb

Er mwyn canfod elfen 'cyd-destun sefydliadol' asesiad gwerthusadwyedd, cynhaliwyd gweithdy gyda thri uwch arweinydd Llywodraeth Cymru ar draws partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael. Cynhaliwyd y gweithdy ar Microsoft Teams ac fe barodd tua 1 awr.

Datblygwyd canllaw pwnc, a meysydd cyffredinol y cwestiynau oedd:

- defnyddiau mewnol ac allanol posibl gwerthusiad
- pa elfennau o'r Ddeddf fyddai'n cael eu cynnwys mewn gwerthusiad
- amseriad gwerthusiad
- y gyllideb ar gyfer gwerthusiad
- gallu rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn gweithgaredd gwerthuso

### 2.2.3. Dadansoddiad o ddata o weithdai cam 2

Defnyddiwyd swyddogaeth recordio a thrawsgrifio Microsoft Teams ym mhob un o'r gweithdai. Ar gyfer y gweithdy data hybrid, defnyddiwyd Dictaffon yn yr ystafell hefyd. Gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr a oeddent yn hapus i ni recordio ar ddechrau'r gweithdai. Gwiriwyd y trawsgrifiadau am gywirdeb yn erbyn y recordiadau.

Adolygwyd y trawsgrifiadau ar gyfer pob adran o'r gweithdy data gan ymchwilwyr o'r RhYF. Roedd hyn yn cynnwys 1 ymchwilydd nad oedd wedi cymryd rhan yn y gweithdy data. Echdynnwyd data er mwyn diffinio canlyniadau a nodi pa ddata sy'n bodoli ar hyn o bryd a pha ddata newydd sydd ei angen o bosibl, ynghyd â pha heriau y gallai gwerthusiad yn y dyfodol eu hwynebu, gan gynnwys materion priodoli. Roedd hyn yn cynnwys cymhwyso canfyddiadau i'r canlyniadau na thrafodwyd yn y gweithdy. Os oedd bwlch yn bodoli o hyd, gofynnwyd i swyddogion PGCGT am safbwyntiau drwy e-bost. Roedd y ddau ymchwilydd wedi adolygu dadansoddiad ei gilydd er mwyn sicrhau ansawdd.

Nodwyd newidiadau posibl eraill i'r canlyniadau yn y model rhesymeg hefyd drwy broses dadansoddi'r gweithdy data. Gwnaeth y ddau ymchwilydd drafod a chytuno ar newidiadau i'r modelau rhesymeg. Anfonwyd y modelau rhesymeg diwygiedig drwy e-bost at swyddogion PGCGT er mwyn iddynt wneud sylwadau pellach a chytuno arnynt.

Ar gyfer y gweithdy ymarferoldeb, echdynnodd 1 ymchwilydd RhYF ddata a oedd yn berthnasol i themâu cyffredinol y canllaw pwnc, gan gynnwys cwmpas, amseru, cyllideb, gallu rhanddeiliaid a risgiau. Yna gwiriwyd y dadansoddiad hwn gan ymchwilydd RhYF arall yn erbyn trawsgrifiad y gweithdy. Roedd y ddau ymchwilydd yn rhan o'r gweithdy ymarferoldeb.

## 2.3 Cam 3, ystyried opsiynau gwerthuso

Er mwyn nodi opsiynau gwerthuso addas ar gyfer gwerthusiad yn y dyfodol, adolygodd yr ymchwilwyr RhYF Lyfr Magenta Trysorlys EF ac adnoddau Better Evaluation yn annibynnol ar ei gilydd. Cafodd dulliau gwerthuso eu cynnwys i'w hystyried yn y lle cyntaf ar sail eu cymhwysedd i nodau'r gwerthusiad yn y dyfodol, dulliau casglu data tebygol, a chyd-destun a chyfyngiadau ar sail canfyddiadau o gamau 1 a 2. Gadawodd hyn gyfres o ddulliau eraill, a chasglwyd rhagor o wybodaeth a chryfderau a gwendidau ar eu cyfer. Yna, gwnaeth tri ymchwilydd RhYF drafod y dulliau a oedd yn weddill gan ddod i gytundeb ynglŷn â pha opsiwn a dulliau fyddai'n fwyaf addas.

## 2.4 Ystyriaethau methodoleg

Un o gyfyngiadau'r ymchwil yw'r ffaith nad oedd rhanddeiliaid allanol (megis cynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus nac aelodau'r CPG) wedi'u cynnwys yn y gweithdai. Felly, nid yw eu safbwyntiau ar y data a'r wybodaeth a ddelir a'r hyn sy'n ymarferol yn cael eu hadlewyrchu.

# 3. Theori newid

Mae'r adran hon yn cynnwys diagramau model rhesymeg y Ddeddf ar gyfer y DPG, y CPG a gwaith teg (Ffigurau 1, 2 a 3). Mae hefyd yn amlinellu'r cyd-destun a lywiodd yr anghenion a'r sail resymegol dros y Ddeddf, disgrifiad estynedig o rai o elfennau'r diagram ac esboniad o'r cysylltiad rhwng camau gwahanol pob model rhesymeg. Mae hefyd yn cynnwys esboniad o'r cysylltiadau rhwng y modelau rhesymeg gwahanol.

Mae'r modelau rhesymeg yn deillio o'r Theori Newid a ddatblygwyd yn 2023 gan y RhYF mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mae'r Theori Newid yn disgrifio'r hyn y mae'r Ddeddf yn ceisio ei gyflawni a sut y bydd hyn yn digwydd, drwy fapio mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau. Y diffiniadau cyffredinol yw:

- mewnbynnau; yr adnoddau sydd eu hangen
- gweithgareddau; sut mae'r mewnbynnau yn cael eu defnyddio a'r camau gweithredu sydd eu hangen
- allbynnau; beth sy'n cael ei gyflawni neu ei gynhyrchu
- canlyniadau; beth sy'n newid yn y tymor byr (1 i 2 flynedd), y tymor canolig (3 i 4 blynedd) a'r tymor hir (5 mlynedd a mwy)

Ar gyfer y modelau rhesymeg DPG, CPG a gwaith teg, mae diweddariadau wedi cael eu gwneud i fewnbynnau, gweithgareddau ac allbynnau oherwydd bod y camau gweithredu wedi dechrau ers datblygu modelau 2023. Felly, byddai modd ychwanegu mwy o fanylion a mireinio'r elfennau ar sail cynnydd. Mae newidiadau i ganlyniadau wedi cael eu gwneud er mwyn cysoni'r elfennau hyn yn agosach â'r Ddeddf ar sail ei chylch gorchwyl. Mae disgrifiad llawn o'r hyn sydd wedi newid a pham wedi cael ei ddatblygu'n fewnol ar gyfer unrhyw werthuswr yn y dyfodol. Nid yw'r model rhesymeg caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad gwerthusadwyedd hwn a bydd angen ei ddiweddaru ar wahân.

## 3.1. Cyd-destun

### 3.1.1 Sefyllfa ac anghenion

Roedd nifer o ffactorau cysylltiedig wedi creu'r cyd-destun a lywiodd yr angen a'r sail resymegol dros y Ddeddf yn ystod y broses o'i datblygu.

Un o'r rhain oedd y cyd-destun economaidd ehangach, gan gynnwys effaith economaidd pandemig y coronafeirws (COVID-19), Brexit, yr argyfwng 'costau byw' a'r sefyllfa o ran cysylltiadau diwydiannol. Roedd hyn wedi creu heriau sylweddol i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat ac wedi ychwanegu cymhlethdod wrth gynllunio ar gyfer twf cynaliadwy a chyflogaeth ddiogel.

O ran partneriaeth gymdeithasol, roedd trefniadau gwahanol ar waith cyn y Ddeddf ar gyfer y sectorau preifat a chyhoeddus. Roedd gan y sector preifat drefniadau ar wahân drwy'r Uwchgynhadledd Economaidd lle'r oedd busnesau, undebau llafur ac arweinwyr llywodraeth leol yn cyfarfod i drafod materion economaidd a dyfodol economi Cymru. Yn y sector cyhoeddus, roedd trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn bodoli ar sail genedlaethol drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu sydd bellach wedi'i ddisodli gan Fforwm Gweithlu Dyfodol y Sector Cyhoeddus. Mae trefniadau sectoraidd fel Fforwm Partneriaeth GIG Cymru, y Fforwm Partneriaeth Ysgolion, y Grŵp Gwasanaethau Datganoledig, a Chyd-gyngor Cymru (dwyochrog) yn cael eu cynrychioli ar Fforwm Gweithlu Dyfodol y Sector Cyhoeddus. Roedd trefniadau blaenorol eraill yn cynnwys y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol yn ystod y pandemig COVID-19. Hefyd, roedd y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, sef corff dros dro a sefydlodd y CPG a oedd yn cynnwys undebau llafur, cyflogwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a Llywodraeth Cymru.

Pan oedd modelau partneriaeth gymdeithasol ar waith cyn y Ddeddf, roedd problemau gwahanol wedi codi ynglŷn â sut roedd y modelau hyn yn gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys dealltwriaeth wahanol o bartneriaeth gymdeithasol ar draws rhanddeiliaid gwahanol, diffyg hyblygrwydd i ymateb yn gyflym i broblemau a'r angen i ffurfioli'r model oherwydd bod ffurfiau anstatudol o bartneriaeth gymdeithasol yn ddiffygiol o ran cydlyniant a chyfeiriad strategol. Hefyd, nid oedd partneriaethau cymdeithasol yn y sector cyhoeddus bob amser yn gweithio tuag at sicrhau consensws yn gyson nac yn llwyddo i'w gymhwyso'n rheolaidd ar draws pob corff cyhoeddus.

Roedd materion yn ymwneud â chysondeb yn amlwg ym maes gwaith teg hefyd, gan fod dealltwriaeth o ganlyniadau gwaith teg yn amrywio rhwng rhanddeiliaid ac nad oedd pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn ystyried gwaith teg wrth ymdrin â llesiant. Felly, roedd awydd i gynyddu mynediad at waith teg ledled Cymru, a chynyddu cyffredinrwydd gwaith teg ei hun. Hefyd, roedd awydd i gyrff cyhoeddus arwain drwy esiampl wrth hyrwyddo gwaith teg fel cyflogwyr a llunwyr polisi ac wrth ariannu a chaffael sefydliadau eraill. Roedd y nodau hyn, yn eu tro, wedi creu'r angen:

- i esbonio a dangos y berthynas rhwng gwaith teg a llesiant
- i ddarparu fframwaith i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer hyrwyddo gwaith teg yn eu sefydliadau eu hunain ac yn eu gwaith gydag eraill

- i adeiladu 'mudiad' dros waith teg, sy'n cwmpasu partneriaid cymdeithasol a sefydliadau cymdeithas ddinesig gyda'r bwriad o eirioli a 'normaleiddio' gwaith teg

- i Weinidogion Cymru hyrwyddo a cheisio sicrhau gwaith teg yng Nghymru

### 3.1.2 Deddfwriaeth a pholisïau perthnasol

Hefyd, mae'r Ddeddf yn perthyn i'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ehangach, ac yn cael ei llywio ganddo.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb y DU (2010) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw priodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl wahanol wrth gyflawni eu gweithgareddau. Hefyd, mae Deddf Cydraddoldeb y DU yn amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac mewn cymdeithas ehangach. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau o natur strategol.

Hefyd, mae'r Ddeddf yn ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i brosesau gwneud penderfyniadau cyrff cyhoeddus ystyried yr effaith hirdymor ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ddisodli 'gwaith addas' gyda 'gwaith teg' fel rhan o’r nod llesiant 'Cymru lewyrchus'. Mae'n cynnwys elfen partneriaeth gymdeithasol mewn prosesau gwneud penderfyniadau cyrff cyhoeddus wrth osod amcanion llesiant a gwneud penderfyniadau strategol am gamau gweithredu i gyflawni'r rhain. Hefyd, gall y CPG roi cyngor ar nod cyrff cyhoeddus i sicrhau 'Cymru lewyrchus'.

O safbwynt yr elfen gwaith teg yn benodol, mae hawliau a dyletswyddau cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol yn bŵer a gedwir yn ôl. Mae hyn yn cyfyngu ar gwmpas gwaith teg yn y Ddeddf. Disgwylir i Fil Hawliau Cyflogaeth y DU 2024 (Senedd y DU) dderbyn Cydsyniad Brenhinol ddiwedd 2025, ac mae'n cynnwys darpariaethau gwaith teg. Mae'r bil yn cynnig creu asiantaeth gwaith teg, a fydd yn dwyn ynghyd rai swyddogaethau gorfodi sy'n bodoli eisoes i amddiffyn hawliau gweithwyr drwy orfodaeth, canllawiau a chydweithio.

Gan fod y pŵer i ddylanwadu ar waith teg yn gyfyngedig o safbwynt statudol yng Nghymru, mae elfen gwaith teg y Ddeddf hefyd yn gysylltiedig â datganiadau a fframweithiau polisi anstatudol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau (2022), sy'n hyrwyddo gwaith teg i bawb, a’r Contract Economaidd, a lansiwyd yn 2018 fel rhan o'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Mae'r Contract Economaidd yn gytundeb cydfuddiannol rhwng Llywodraeth Cymru a busnesau, sy'n ymrwymo i arferion cyfrifol, megis gwaith teg, yn gyfnewid am gefnogaeth y cyhoedd. Hefyd, mae'r Ddeddf yn gysylltiedig â Chenhadaeth Economaidd 2023 i 2025 Llywodraeth Cymru, sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer economi gryfach, decach a gwyrddach yn unol â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 3.2. Model rhesymeg a chadwyni'r DPG

### Ffigur 1: Model rhesymeg y DPG

*= gweithgaredd/allbwn nad yw'n cael ei nodi yn y Ddeddf, ond sy'n deillio o'r Ddeddf.

**Mewnbynnau**

IN1: Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus geisio consensws neu gyfaddawdu gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig neu (lle y bo'n briodol) aelodau eraill o'u staff wrth nodi a chyflawni eu hamcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddai'n ofynnol iddynt hefyd ystyried unrhyw ganllawiau posibl gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol ar yr hyn sy'n 'rhesymol'.

IN2: Amser ac ymrwymiad partneriaid cymdeithasol i'r system partneriaeth gymdeithasol newydd, gan gynnwys ei nodau a'i hamcanion.

**Gweinidogion Cymru**

IN3: Amser ac ymrwymiad Gweinidogion Cymru i'r system partneriaeth gymdeithasol newydd, gan gynnwys ei nodau a'i hamcanion.

IN4: Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r CPG ar benderfyniadau o natur strategol wrth gymryd camau rhesymol i gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys cyllideb flynyddol, rhaglen ddeddfwriaethol flynyddol ac adolygiad blynyddol o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.

**Gweithgareddau**

A1: Mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r DPG, sy'n nodi ymgynghori ag undebau llafur (neu gynrychiolwyr staff eraill) ar gam cynnar a thrwy gydol y broses, gyda digon o wybodaeth ac amser i ystyried ac ymateb i gynigion.

A2: Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu deunyddiau hyfforddi parhaus a chyfleoedd ymgysylltu ynghylch gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol a'r DPG*.

A3: **Caiff** cyrff cyhoeddus ddefnyddio deunyddiau hyfforddi Llywodraeth Cymru (A2) ar weithio mewn partneriaeth gymdeithasol a'r DPG*.

A4: Drwy ymgysylltu, y **potensial** i rannu gwybodaeth ac arferion gorau am bartneriaeth gymdeithasol a'r DPG*:
- rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus
- rhwng cyrff cyhoeddus
- o fewn cyrff cyhoeddus (ar draws partneriaid cymdeithasol)

A5: Mae cynrychiolwyr undebau llafur o fewn cyrff cyhoeddus yn ymgyfarwyddo â deunyddiau Deddf LlCD, er mwyn deall proses a strategaeth amcanion llesiant cyrff cyhoeddus*.

**Gweinidogion Cymru**

A6: Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried gwybodaeth a chyngor gan y CPG ynglŷn â'r DPG ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau.

**Allbynnau**

OP1: Yr adnoddau/gwybodaeth a gynhyrchir, a'r digwyddiadau neu'r cyfarfodydd a drefnir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrff cyhoeddus*.

OP2: Rhaid i gyrff cyhoeddus lunio, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â'r hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir o dan adran 16. Mae'r rhain i'w cyflwyno i'r CPG i'w hystyried.

OP3: Astudiaethau achos a gynhyrchwyd gyda Llywodraeth Cymru ar enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol*.

**Gweinidogion Cymru**

OP4: Rhaid i Weinidogion Cymru lunio, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â'r hyn y maent wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir o dan adran 17. Cytunir ar adroddiadau gyda'r CPG.

OP5: Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau (ar ôl ymgynghori â'r CPG) ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'rhesymol' o fewn y DPG ar gyrff cyhoeddus (adran 16, is-adrannau 3,4).

OP6: Gall Gweinidogion Cymru ddatblygu neu wneud newidiadau i'r polisi yn seiliedig ar gyngor y CPG. Gallai newidiadau fod yn berthnasol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru*.

**Canlyniadau tymor byr (1 i 2 flynedd)**

SO1: Mae gan bartneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru well dealltwriaeth o bryderon ei gilydd.

SO2: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus yn glir ynglŷn â nodau a ffiniau'r Ddeddf (y DPG, y CPG a gwaith teg).

SO3: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus wedi gwella dealltwriaeth/gwybodaeth am ffyrdd o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac arferion gorau.

SO4: Mae cysylltiadau yn cael eu meithrin rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, rhwng cyrff cyhoeddus, ac o fewn cyrff cyhoeddus ar draws partneriaid cymdeithasol (cyflogwyr, gweithwyr).

SO5: Mae gweithwyr mewn cyrff cyhoeddus yn dechrau cymryd rhan weithredol/â llais wrth **wneud penderfyniadau strategol** am arferion yn y gweithle, datblygu polisi a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

**Canlyniadau tymor canolig (3 i 4 blynedd)**

MO1: Mae cyrff cyhoeddus yn dangos gwelliannau mewn trefniadau partneriaeth gymdeithasol, gan gynnwys gweithredu ar wybodaeth/cyngor drwy ymgysylltu â'r CPG, Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru.

MO2: Gweledigaeth gyffredin ymhlith partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus ar feysydd o ddiddordeb cydfuddiannol, beth yw partneriaethau cymdeithasol a sut y gellir eu gweithredu.

MO3: Cryfhau cysylltiadau a chyfathrebu rhwng partneriaid cymdeithasol; rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, rhwng cyrff cyhoeddus, ac o fewn cyrff cyhoeddus ar draws partneriaid cymdeithasol.

MO4: Mae gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol yn cyfrannu at gyrff cyhoeddus yn datblygu polisïau sy'n ystyried anghenion y gweithlu.

**Canlyniadau tymor hir (5+ mlynedd)**

**Prif ganlyniadau tymor hir**

LO2: Mae'r model partneriaeth gymdeithasol yn gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ledled Cymru.

LO3: Cyflawni egwyddorion partneriaeth gymdeithasol mewn ffyrdd o weithio mewn cyrff cyhoeddus:
- cydweithredu – ymrwymiad ar y cyd i lwyddo
- parch – cydnabyddiaeth gydfuddiannol o fuddiannau ac arbenigedd cyfreithlon (a allai fod yn wahanol)
- ymddiriedaeth – didwylledd, tryloywder
- llais a chyfranogiad – gwybodaeth, ymgynghori ac ymgysylltu rhagweithiol ac amserol
- enillion cydfuddiannol – canlyniadau gwaith teg, a (fel LO1) mwy o lesiant a gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus

LO4: Mae partneriaeth gymdeithasol wedi'i hymwreiddio wrth wneud penderfyniadau strategol o fewn cyrff cyhoeddus.

LO5: Gall penderfyniadau strategol sy'n ystyried anghenion y gweithlu drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol (MO4) arwain at weithleoedd mwy cyfartal a chydweithredol o fewn cyrff cyhoeddus (fel LO3). Gall y gwelliannau hyn gael eu hadlewyrchu mewn perfformiad sefydliadol gwell.

**Gweledigaeth lefel uchel**

LO1: Cyfraniadau at wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) yng Nghymru.

### 3.2.1. Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer model rhesymeg y DPG

Mae mewnbwn IN4 yn nodi'r canlynol: ‘Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar benderfyniadau o natur strategol wrth gymryd camau rhesymol i gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys cyllideb flynyddol, rhaglen ddeddfwriaethol flynyddol ac adolygiad blynyddol o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru’. Dylid nodi bod y penderfyniad (y cytunwyd arno gyda'r CPG) i Weinidogion Cymru ymgynghori ar benderfyniadau ar gyfer y 3 maes hyn wedi'i wneud yn ystod tymor 2021 i 2026 y Senedd, felly gallai'r sefyllfa newid o dan lywodraeth newydd.

Mae Gweithgaredd A2 yn nodi: 'Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu deunyddiau hyfforddi parhaus a chyfleoedd ymgysylltu ynghylch gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol a'r DPG’. Mae Gweithgaredd A4 yn nodi: 'Drwy ymgysylltu, y potensial i rannu gwybodaeth ac arferion gorau am bartneriaeth gymdeithasol a'r DPG: rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, rhwng cyrff cyhoeddus, o fewn cyrff cyhoeddus (ar draws partneriaid cymdeithasol)’. Mae enghreifftiau o'r hyfforddiant a'r wybodaeth (anstatudol) y gellid eu rhannu, ac ymgysylltiadau, yn cynnwys:

- adnoddau a gyhoeddir ar dudalen we y bartneriaeth gymdeithasol
- adborth i bartneriaid cymdeithasol yn seiliedig ar adolygiad y CPG o adroddiadau DPG blynyddol cyrff cyhoeddus
- y 'rhwydwaith hyrwyddwyr partneriaid cymdeithasol’ a sefydlwyd ym mis Mawrth 2025 i ddod â 'hyrwyddwyr' o gyrff cyhoeddus at ei gilydd i rannu adnoddau a nodi'r hyn a ddysgwyd a chyfleoedd rhwydweithio y mae hyrwyddwyr yn gallu eu lledaenu wedyn yn eu sefydliadau perthnasol
- 'grŵp ymarferwyr mewnol' Llywodraeth Cymru, sy'n cyfarfod bob tri mis i hwyluso ffyrdd partneriaeth gymdeithasol o weithio o fewn Llywodraeth Cymru

Mae enghreifftiau eraill yn debygol o ddatblygu wrth i’r gwaith gweithredu fynd rhagddo, a dylai gwerthuswr yn y dyfodol eu cofnodi.

Mae Allbwn OP3 yn nodi: 'Astudiaethau achos a gynhyrchwyd gyda Llywodraeth Cymru ar enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol’. Mae'r dudalen we partneriaeth gymdeithasol yn cynnwys astudiaethau achos ac, fel rhan o'r pecyn cymorth 'rhwydwaith hyrwyddwyr', mae'r broses o adnabod astudiaethau achos gan gyrff cyhoeddus yn cael ei hannog.

### 3.2.2. Cadwyni gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau tymor byr, y DPG

#### 3.2.2.1. ‘SO1: Mae gan bartneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru well dealltwriaeth o bryderon ei gilydd' ac 'SO5: Mae gweithwyr mewn cyrff cyhoeddus yn dechrau cymryd rhan weithredol/â llais wrth wneud penderfyniadau strategol am arferion yn y gweithle, datblygu polisi a darparu gwasanaethau cyhoeddus’

Yn gyntaf, trafod 'OP2: Rhaid i gyrff cyhoeddus lunio, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â’r hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir o dan adran 16. Mae'r rhain i’w cyflwyno i'r CPG i'w hystyried’. Ategir hyn gan weithgaredd 'A1: Mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r DPG, sy'n nodi ymgynghori ag undebau llafur (neu gynrychiolwyr staff eraill) ar gam cynnar a thrwy gydol y broses, gyda digon o wybodaeth ac amser i ystyried ac ymateb i gynigion’. Mae'r gweithgaredd hwn ynddo’i hun yn cynnwys yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad blynyddol gorfodol (OP2).

Hefyd, mae cysylltiad rhwng OP2 ag 'A3: Caiff cyrff cyhoeddus ddefnyddio deunyddiau hyfforddi Llywodraeth Cymru (A2) ar weithio mewn partneriaeth gymdeithasol a'r DPG' ac 'A5: Mae cynrychiolwyr undebau llafur o fewn cyrff cyhoeddus yn ymgyfarwyddo â deunyddiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn deall proses a strategaeth amcanion llesiant cyrff cyhoeddus’. O ran y gweithgareddau, mae A5 yn gysylltiedig ag A1 gan y bydd dealltwriaeth undebau llafur o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phrosesau cysylltiedig o fewn y corff cyhoeddus yn llywio eu gallu i gymryd rhan yn y gwaith o osod a chyflawni'r amcanion llesiant ac felly gweithredu'r DPG (A1). Yn yr un modd, gall A3 lywio sut mae cyrff cyhoeddus a chynrychiolwyr undebau llafur yn gweithio gyda'i gilydd at ddibenion A1. Yn eu tro, felly, mae A5 ac A3 yn cysylltu ag OP2 gan y bydd y ffordd y mae'r DPG yn cael ei gweithredu yn cael ei hadlewyrchu yn yr adroddiad y mae cyrff cyhoeddus yn ei lunio.

Dyma'r cysylltiadau sydd wedyn yn cysylltu OP2 ag SO1 ac SO5. Bydd y ffordd y mae'r DPG yn cael ei gweithredu yn arwain at ddealltwriaeth partneriaid cymdeithasol o bryderon ei gilydd a chyfranogiad lleisiau gweithwyr mewn penderfyniadau strategol.

#### 3.2.2.2. ‘SO2: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus yn glir ynglŷn â nodau a ffiniau'r Ddeddf (y DPG, y CPG a gwaith teg)' ac 'SO3: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus wedi gwella dealltwriaeth/gwybodaeth am ffyrdd o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac arferion gorau’

Trafod OP3: 'Astudiaethau achos a gynhyrchwyd gyda Llywodraeth Cymru ar enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol’. Ategir hyn gan weithgareddau A1, A2 ac A4. Y rheswm am hyn yw bod gweithgaredd A1 (gweithredu'r DPG) yn gallu arwain at astudiaethau achos y mae Llywodraeth Cymru yn eu datblygu er mwyn arddangos gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol (A2: Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu deunyddiau hyfforddi parhaus a chyfleoedd ymgysylltu ynghylch gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol a'r DPG) i'w lledaenu wedyn fel arfer gorau (A4: Drwy ymgysylltu, y potensial i rannu gwybodaeth ac arferion gorau am bartneriaeth gymdeithasol a'r DPG).

Nesaf, trafod 'OP1: Yr adnoddau/gwybodaeth a gynhyrchir, a’r digwyddiadau neu’r gyfarfodydd a drefnir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrff cyhoeddus.’ Mae hyn yn gysylltiedig â gweithgareddau A2 ac A4. Mae Gweithgaredd A3, sy'n dechrau drwy nodi 'Caiff cyrff cyhoeddus ddefnyddio deunyddiau hyfforddi Llywodraeth Cymru (A2)' yn gysylltiedig ag OP1 hefyd. Y rheswm am hyn yw mai'r adnoddau a'r wybodaeth a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru (OP1) yw'r deunyddiau hyfforddi y gall cyrff cyhoeddus eu defnyddio mewn perthynas â phartneriaeth gymdeithasol a'r DPG (A3).

Mae Gweithgaredd 'A6: Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried gwybodaeth a chyngor gan y CPG ynglŷn â’r DPG ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau' yn gysylltiedig â'r allbynnau canlynol:

- OP4: Rhaid i Weinidogion Cymru lunio, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â’r hyn y maent wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir o dan adran 17. Cytunir ar adroddiadau gyda'r CPG
- OP5: Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau (ar ôl ymgynghori â'r CPG) ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'rhesymol' o fewn y DPG ar gyrff cyhoeddus (adran 16, is-adrannau 3,4)
- OP6: Gall Gweinidogion Cymru ddatblygu neu wneud newidiadau i'r polisi yn seiliedig ar gyngor y CPG. Gallai newidiadau fod yn berthnasol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru

Mae Gweithgaredd A2 yn berthnasol i A6 hefyd. Y rheswm am hyn yw bod gwybodaeth a chyngor a ddarperir i Weinidogion Cymru gan y CPG (A6) yn gallu llywio'r deunyddiau hyfforddi a'r digwyddiadau ymgysylltu a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru (A2) sy'n arwain at OP1.

Yn gyffredinol, dyma'r cysylltiadau sydd wedyn yn cysylltu OP1, OP3 ac OP5 ag SO2 ac SO3.

#### 3.2.2.3. SO4: Mae cysylltiadau yn cael eu meithrin rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, rhwng cyrff cyhoeddus, ac o fewn cyrff cyhoeddus ar draws partneriaid cymdeithasol (cyflogwyr, gweithwyr)

Nid oes gan y canlyniad hwn gysylltiad uniongyrchol ag allbwn ynddo'i hun. Mae'n deillio o 'A4: Drwy ymgysylltu, y potensial i rannu gwybodaeth ac arferion gorau am bartneriaeth gymdeithasol a'r DPG: rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, rhwng cyrff cyhoeddus, o fewn cyrff cyhoeddus (ar draws partneriaid cymdeithasol)'. Hefyd, yn benodol ar gyfer 'o fewn cyrff cyhoeddus ar draws partneriaid cymdeithasol', wedi'i ategu gan 'A1: Mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r DPG'.

### 3.2.3. Cadwyni canlyniadau tymor byr i ganlyniadau tymor canolig, y DPG

Mae canlyniadau tymor canolig 'MO1: Mae cyrff cyhoeddus yn dangos gwelliannau mewn trefniadau partneriaeth gymdeithasol, gan gynnwys gweithredu ar wybodaeth/cyngor drwy ymgysylltu â'r CPG, Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru' ac 'MO2: Gweledigaeth gyffredin ymhlith partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus ar feysydd o ddiddordeb cydfuddiannol, beth yw partneriaethau cymdeithasol a sut y gellir eu gweithredu' yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor byr canlynol:

- SO1: Mae gan bartneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru well dealltwriaeth o bryderon ei gilydd
- SO2: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus yn glir ynglŷn â nodau a ffiniau'r Ddeddf (y DPG, y CPG a gwaith teg)
- SO3: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus wedi gwella dealltwriaeth/gwybodaeth am ffyrdd o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac arferion gorau
- SO4: Mae cysylltiadau yn cael eu meithrin rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, rhwng cyrff cyhoeddus, ac o fewn cyrff cyhoeddus ar draws partneriaid cymdeithasol (cyflogwyr, gweithwyr)
- SO5: Mae gweithwyr mewn cyrff cyhoeddus yn dechrau cymryd rhan weithredol/â llais wrth wneud penderfyniadau strategol am arferion yn y gweithle, datblygu polisi a darparu gwasanaethau cyhoeddus

Mae MO1 ac MO2 yn ganlyniad yr holl ganlyniadau tymor byr oherwydd bod y canlyniadau tymor byr yn creu'r amodau i bartneriaid cymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus weithredu a gwella'r broses o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol.

Mae canlyniad 'MO3: Cryfhau cysylltiadau a chyfathrebu rhwng partneriaid cymdeithasol; rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, rhwng cyrff cyhoeddus, ac o fewn cyrff cyhoeddus ar draws partneriaid cymdeithasol' yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor byr canlynol:

- SO1
- SO3
- SO4
- SO5

Mae canlyniad tymor canolig 'MO4: Mae gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol yn cyfrannu at gyrff cyhoeddus yn datblygu polisïau sy'n ystyried anghenion y gweithlu' yn deillio o ganlyniad tymor byr SO5.

### 3.2.4. Cadwyni canlyniadau tymor canolig i ganlyniadau tymor hir, y DPG

Mae canlyniadau tymor hir 'LO2: Mae'r model partneriaeth gymdeithasol yn gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ledled Cymru' ac LO3, sy'n dechrau drwy nodi 'Cyflawni egwyddorion partneriaeth gymdeithasol' yn gysylltiedig ag:

- MO1: Mae cyrff cyhoeddus yn dangos gwelliannau mewn trefniadau partneriaeth gymdeithasol, gan gynnwys gweithredu ar wybodaeth/cyngor drwy ymgysylltu â'r CPG, Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru
- MO2: Gweledigaeth gyffredin ymhlith partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus ar feysydd o ddiddordeb cydfuddiannol, beth yw partneriaethau cymdeithasol a sut y gellir eu gweithredu
- MO3: Cryfhau cysylltiadau a chyfathrebu rhwng partneriaid cymdeithasol; rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, rhwng cyrff cyhoeddus, ac o fewn cyrff cyhoeddus ar draws partneriaid cymdeithasol

Ar gyfer LO2, mae'r lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol yn berthnasol i'r DPG. Y rheswm am hyn yw bod y cyrff cyhoeddus y mae'r DPG yn berthnasol iddynt, ac felly lle dylai partneriaeth gymdeithasol fod yn gweithredu, yn sefydliadau cenedlaethol (er enghraifft, Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru), rhanbarthol (megis Cyd-bwyllgorau Corfforedig, byrddau iechyd, tân ac achub, parciau cenedlaethol) a lleol (awdurdodau lleol).

Mae canlyniad tymor hir 'LO4: Mae partneriaeth gymdeithasol wedi'i hymgorffori wrth wneud penderfyniadau strategol o fewn cyrff cyhoeddus' yn gysylltiedig ag MO1, ac yn deillio'n benodol o 'SO5: Mae gweithwyr mewn cyrff cyhoeddus yn dechrau cymryd rhan weithredol/â llais wrth wneud penderfyniadau strategol am arferion yn y gweithle, datblygu polisi a darparu gwasanaethau cyhoeddus’.

Mae canlyniad tymor hir 'LO5: Gall penderfyniadau strategol sy'n ystyried anghenion y gweithlu drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol (MO4) arwain at weithleoedd mwy cyfartal a chydweithredol o fewn cyrff cyhoeddus (fel LO3). Gall y gwelliannau hyn gael eu hadlewyrchu mewn perfformiad sefydliadol gwell.’ yn gysylltiedig â'r canlyniad tymor canolig 'MO4: Mae gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol yn cyfrannu at gyrff cyhoeddus yn datblygu polisïau sy'n ystyried anghenion y gweithlu’. Hefyd, mae'n gysylltiedig ag LO3 sy'n dangos beth yw ystyr bod yn 'gyfartal ac yn gydweithredol'.

### 3.2.5. O fewn canlyniadau tymor hir, y DPG, gweledigaeth lefel uchel

Y canlyniad tymor hir 'LO1: Cyfraniadau at wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) yng Nghymru' yw'r weledigaeth lefel uchel ar gyfer y DPG, sy'n golygu ei fod yn dilyn y prif ganlyniadau tymor hir.

Yn y pen draw, mae LO1 yn gysylltiedig ag LO2, LO3 ac LO4. Mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r model partneriaeth gymdeithasol (LO2) mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion (LO3) ac sydd wedi'i ymwreiddio yn y broses o wneud penderfyniadau strategol (LO4), gan alluogi cyfraniadau at nodau llesiant.

## 3.3. Model rhesymeg a chadwyni'r CPG

### Ffigur 2: Model rhesymeg y CPG

* = gweithgaredd/allbwn nad yw'n cael ei nodi yn y Ddeddf, ond sy'n deillio o'r Ddeddf neu yn sgil creu'r CPG.

**Mewnbynnau**

IN1: Cost statudol amcangyfrifedig y CPG o £31,600 y flwyddyn.

IN2: Aelodau o'r CPG i'w penodi gan y Prif Weinidog drwy enwebiadau gan TUC Cymru a chyrff cyflogwyr, am dymor o dair blynedd (oni bai eu bod yn ymddiswyddo neu'n cael eu terfynu).

IN3: Is-grwpiau. Mae'r rhain yn cael eu cadeirio gan o leiaf un aelod o'r CPG a gallant gynnwys aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor. Yr amcangyfrif o gostau ar gyfer 3 is-grŵp yw £8,600 y flwyddyn.
a. Is-grŵp caffael, y mae'r Ddeddf yn nodi y mae'n **rhaid** ei sefydlu.
b. Is-grwpiau eraill, y mae'r Ddeddf yn nodi y **gellir** eu sefydlu. Grwpiau gorchwyl a gorffen neu weithgorau penodol i bwnc.

IN4: Cefnogaeth gan yr Ysgrifenyddiaeth.

IN5: Amser gwirfoddol ac ymrwymiad aelodau'r CPG, aelodau is-grwpiau, cysylltiadau/rhwydweithiau aelodau, mynychwyr gwadd.

IN6: Gweithdrefnau a chworwm y CPG (adran 7) a'r is-grŵp caffael (adran 9).

IN7: Adrannau 18 ac 19: Adroddiadau cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru ar gydymffurfio â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r CPG. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyflwyno eu hadroddiad Partneriaeth Gymdeithasol gerbron y Senedd.

**Gweinidogion Cymru**

IN8: Amser ac ymrwymiad Gweinidogion Cymru i'r system partneriaeth gymdeithasol newydd, gan gynnwys ei nodau a'i hamcanion.

IN9: Y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau o natur strategol i gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) Deddf LlCD, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r CPG.

**Gweithgareddau**

A1: Cyfarfodydd y CPG, lle mae aelodau'n darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru ynglŷn â: dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus (rhan 2, y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus), cyrff cyhoeddus yn ceisio cyflawni'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus' fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (rhan 2), a swyddogaethau caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ar gyfer Gweinidogion Cymru ac awdurdodau contractio (rhan 3, y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus).

A2: Mae'r partneriaid cymdeithasol sy'n mynychu'r cyfarfod yn paratoi ymlaen llaw, megis darllen neu lunio papurau neu adroddiadau i'w trafod*.

A3: Cymorth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y CPG ac is-grwpiau, paratoi ar gyfer cyfarfodydd gyda/rhwng partneriaid cymdeithasol.

A4: Mae ysgrifenyddiaeth y CPG yn dadansoddi a pharatoi crynodeb o adroddiadau partneriaeth gymdeithasol cyrff cyhoeddus*.

A5: Mae aelodau'r CPG yn monitro/ystyried adroddiadau blynyddol cyrff cyhoeddus ar gydymffurfiaeth â'r DPG, a/neu grynodeb yr ysgrifenyddiaeth o'r adroddiadau hyn (A4). Gall y CPG roi cyngor i Weinidogion Cymru ar adroddiadau partneriaeth gymdeithasol.

A6: Ymgynghorir ag aelodau'r CPG ar y sbardunau strategol a chytundeb adroddiad Gweinidogion Cymru ar gydymffurfio â'r ddyletswydd.

A7: Cyfarfodydd yr is-grŵp caffael, gyda thrafodaethau yn cynnwys cydymffurfio â swyddogaethau caffael, adolygu Adroddiad Caffael Blynyddol cyffredinol Llywodraeth Cymru a nodi argymhellion ar gyfer ymyriadau polisi.

A8: Cyfarfodydd is-grwpiau eraill, lle mae aelodau yn trafod ac yn asesu gwybodaeth am y pwnc perthnasol ac yn adrodd yn ôl i'r CPG.

A9: Mae'r CPG yn ystyried yr wybodaeth a'r cyngor gan is-grwpiau (gan gynnwys caffael), y gall y CPG eu hadolygu cyn rhoi unrhyw gyngor i Weinidogion Cymru.

A10: Y CPG yn asesu ei effeithiolrwydd ei hun*.

A11: Deall gwaith trefniadau partneriaeth gymdeithasol eraill ar bynciau perthnasol*.

**Gweinidogion Cymru**

A12: Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried gwybodaeth a chyngor gan y CPG wrth wneud penderfyniadau.

**Allbynnau**

OP1: Gwybodaeth a chyngor a greir neu a ddarperir drwy'r CPG ar gyfer Gweinidogion Cymru, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd y CPG (cofnodion trafodaethau), ystadegau, crynodebau ffeithiol, copïau o ddogfennau*. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar gydymffurfio â dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol i Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus o fewn y Ddeddf.

OP2: Adroddiadau is-grwpiau sy'n manylu ar wybodaeth a chyngor penodol i bwnc, i'w trafod a'u penderfynu yn y CPG.

OP3: Adroddiadau caffael sy'n cynghori Gweinidogion Cymru ar gydymffurfiaeth cyrff cyhoeddus ac yn adolygu Adroddiad Caffael Blynyddol cyffredinol Llywodraeth Cymru.

OP4: Adroddiad gwerthuso effeithiolrwydd y CPG (amserlen i'w chadarnhau)*.

**Welsh Ministers**

OP5: Rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol (adran 19), y cytunwyd arno gyda'r CPG, yn esbonio'r hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir o dan adran 17.

OP6: Caiff Gweinidogion Cymru ddatblygu neu wneud newidiadau i'r polisi yn seiliedig ar gyngor y CPG*. Gallai newidiadau fod yn berthnasol i'r sectorau cyhoeddus a/neu breifat yng Nghymru.

**Canlyniadau tymor byr (1 i 2 flynedd)**

SO1: Mae aelodau'r CPG yn deall disgwyliadau ac mae ganddynt ymrwymiad ar y cyd i weithio fel grŵp.

SO2: Sianel ffurfiol lle mae partneriaid cymdeithasol yn cymryd rhan mewn gwaith partneriaeth a deialog gyda Gweinidogion Cymru ar weithredu a datblygu polisi.

SO3: Mae gan y CPG ddigon o brofiad a gwybodaeth i baratoi gwybodaeth a chyngor effeithiol i Weinidogion Cymru, sy'n golygu bod y CPG yn darparu cyngor: cadarn, awdurdodol a, lle y bo'n berthnasol, wedi'i gostio, wedi'i arfarnu ar gyfer risg ac wedi'i asesu'n llawn ar gyfer ei effeithiau posibl.

SO4: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn y CPG yn glir ynglŷn â nodau a ffiniau'r Ddeddf (y DPG, y CPG a gwaith teg).

SO5: Mae gweithrediad y CPG yn cael ei fireinio lle bo hynny'n briodol.

**Canlyniadau tymor canolig (3 i 4 blynedd)**

MO1: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn y CPG yn gweithio'n adeiladol i ddarparu cyngor ar feysydd diddordeb cydfuddiannol.

MO2: Cysylltiadau a chyfathrebu cryfach rhwng partneriaid cymdeithasol (Gweinidogion Cymru, cyflogwyr, gweithwyr).

MO3: Mae'r CPG yn deall newidiadau dros amser yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r DPG ac yn gweithredu gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol (drwy adroddiadau).

Mae'r CPG hefyd **yn cyfrannu at** effaith 'MO1' ym model rhesymeg y DPG. Mae hyn drwy adolygiad y Cyngor o adroddiadau cyrff cyhoeddus ar sut y maent wedi cydymffurfio â'r DPG, ac ymgysylltu/gwybodaeth ddilynol gan Lywodraeth Cymru.

**Canlyniadau tymor hir (5+ mlynedd)**

**Prif ganlyniadau tymor hir**

LO2: Mae'r model partneriaeth gymdeithasol yn gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ledled Cymru.

LO3: Mae barn gweithwyr a chyflogwyr yn helpu i lywio'r gwaith o gyflawni polisi (drwy strwythur teirochrog y CPG).

Y CPG hefyd **yn cyfrannu at** effeithiau 'LO3' 'LO4' 'LO5' ym model rhesymeg y DPG. Y DPG yn cael ei atgyfnerthu drwy adolygiad y Cyngor o adroddiadau cyrff cyhoeddus ar sut y maent wedi cydymffurfio â'r DPG.

**Gweledigaeth lefel uchel**

LO1: Cyfraniadau at wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) yng Nghymru.

### 3.3.1. Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer model rhesymeg y CPG

Mae mewnbwn IN3 yn disgrifio is-grwpiau’r CPG, gan gynnwys 'is-grwpiau eraill... grwpiau gorchwyl a gorffen neu weithgorau penodol i bwnc.’ Ar hyn o bryd, yr 'is-grwpiau eraill' sydd wedi'u sefydlu yw 'Gwaith Teg mewn Grantiau Busnes Llywodraeth Cymru', 'Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant' a 'Sgiliau Deallusrwydd Artiffisial’. Er bod gan yr is-grwpiau gwaith teg a deallusrwydd artiffisial raglen waith benodol a'u nod yw gwneud argymhellion i'w hystyried gan y CPG wrth roi cyngor i weinidogion, mae'r is-grŵp cydraddoldeb yn 'grŵp sefydlog' a bydd yn cyfarfod ar sail ad hoc i drafod materion penodol. Bydd angen i werthuswr yn y dyfodol gofnodi'r holl is-grwpiau sydd wedi dod i'r amlwg dros amser.

Gweithgaredd A1 yw 'Cyfarfodydd y CPG, lle mae aelodau’n darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru ynglŷn â: dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus (rhan 2 o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus), cyrff cyhoeddus yn ceisio cyflawni’r nod llesiant 'Cymru lewyrchus' fel sy’n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (rhan 2), a swyddogaethau caffael cyhoeddus sy’n gyfrifol yn gymdeithasol ar gyfer Gweinidogion Cymru ac awdurdodau contractio (rhan 3 o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus).’ Ar gyfer y DPG ar Weinidogion Cymru yn ystod tymor y Senedd 2021 i 2026, dylid nodi bod y gweinidogion, mewn partneriaeth â'r CPG, wedi penderfynu y byddent yn ymgynghori â'r CPG ar y gyllideb flynyddol, y rhaglen ddeddfwriaethol a'r amcanion llesiant. Felly, mae'r ffordd y mae'r DPG ar Weinidogion Cymru yn cael ei chyflawni yn destun newid pan ddaw unrhyw lywodraeth newydd i rym.

### 3.3.2. Cadwyni gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau tymor byr, y CPG

#### 3.3.2.1. SO1, SO3 ac SO4

Mae SO1, SO3 a SO4 yn ymwneud â newidiadau mewn dealltwriaeth, gwybodaeth a phrofiad. Y geiriad llawn yw:

- SO1: Mae aelodau'r CPG yn deall disgwyliadau ac mae ganddynt ymrwymiad ar y cyd i weithio fel grŵp
- SO3: Mae gan y CPG ddigon o brofiad a gwybodaeth i baratoi gwybodaeth a chyngor effeithiol i Weinidogion Cymru, sy'n golygu bod y CPG yn darparu cyngor: cadarn, awdurdodol, a lle y bo'n berthnasol, wedi'i gostio, wedi'i arfarnu ar gyfer risg ac wedi'i asesu'n llawn ar gyfer ei effeithiau posibl
- SO4: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn y CPG yn glir ynglŷn â nodau a ffiniau'r Ddeddf (y DPG, y CPG a gwaith teg)

*Allbwn 1*
Ar gyfer gweithgaredd A1, sy'n dechrau drwy gyfeirio at 'gyfarfodydd y CPG', mae sawl gweithgaredd yn berthnasol i hyn pan fydd cyfarfodydd y CPG yn digwydd. Mae hyn yn cynnwys:

- gwaith ysgrifenyddiaeth y CPG sy'n cael ei nodi yng ngweithgareddau 'A3: Cymorth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y CPG ac is-grwpiau, paratoi ar gyfer cyfarfodydd gyda/rhwng partneriaid cymdeithasol' ac 'A4: Mae Ysgrifenyddiaeth y CPG yn dadansoddi a pharatoi crynodeb o adroddiadau partneriaeth gymdeithasol cyrff cyhoeddus’
- gwaith aelodau'r CPG sy'n cael ei nodi yng ngweithgareddau 'A2: Mae'r partneriaid cymdeithasol sy'n mynychu'r cyfarfod yn paratoi ymlaen llaw, megis darllen neu lunio papurau neu adroddiadau i'w trafod' ac 'A5: Mae aelodau'r CPG yn monitro/ystyried adroddiadau blynyddol cyrff cyhoeddus ar gydymffurfiaeth â'r DPG, a/neu grynodeb yr ysgrifenyddiaeth o'r adroddiadau hyn (A4). Gall y CPG roi cyngor i Weinidogion Cymru ar adroddiadau partneriaeth gymdeithasol’
- gwaith is-grwpiau'r CPG, sy'n cael ei nodi yn A7 ac A8, a gwaith canlyniadol y CPG a nodir yn 'A9: Mae'r CPG yn ystyried yr wybodaeth a'r cyngor gan is-grwpiau (gan gynnwys caffael), y gall y CPG eu hadolygu cyn rhoi unrhyw gyngor i Weinidogion Cymru’

Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau hyn sy'n ymwneud â chyfarfodydd y CPG yn gysylltiedig ag allbwn 'OP1: Gwybodaeth a chyngor a grëir neu a ddarperir drwy'r CPG ar gyfer Gweinidogion Cymru, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd y CPG (cofnodion trafodaethau), ystadegau, crynodebau ffeithiol, copïau o ddogfennau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar gydymffurfio â dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol i Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus o fewn y Ddeddf’.

Yna mae OP1 yn ei dro yn gysylltiedig ag SO1, SO3 ac SO4. Drwy gymryd rhan yn y CPG, mae dealltwriaeth o ddisgwyliadau ac ymrwymiad i weithio fel grŵp yn datblygu (SO1), mae profiad a gwybodaeth am baratoi cyngor yn datblygu (SO3), yn ogystal â deall cylch gwaith y Ddeddf (SO4).

*Allbynnau 2 a 3*
Mae gweithgareddau sy'n ymwneud ag is-grwpiau'r CPG yn gysylltiedig ag allbwn 'OP2: Adroddiadau is-grwpiau sy'n manylu ar wybodaeth a chyngor penodol i bwnc, i'w trafod a'u penderfynu yn y CPG.' Mae hyn yn cynnwys 'A7: Cyfarfodydd yr is-grŵp caffael, gyda thrafodaethau yn cynnwys cydymffurfio â swyddogaethau caffael, adolygu Adroddiad Caffael Blynyddol cyffredinol Llywodraeth Cymru a nodi argymhellion ar gyfer ymyriadau polisi' ac 'A8: Cyfarfodydd is-grwpiau eraill, lle mae aelodau yn trafod ac yn asesu gwybodaeth am y pwnc perthnasol ac yn adrodd yn ôl i'r CPG'.

Mae Gweithgaredd A7, sy'n cwmpasu gweithgareddau is-grŵp caffael y CPG, hefyd yn gysylltiedig ag allbwn 'OP3: Adroddiadau caffael sy'n cynghori Gweinidogion Cymru ar gydymffurfiaeth cyrff cyhoeddus ac yn adolygu Adroddiad Caffael Blynyddol cyffredinol Llywodraeth Cymru'.

Mae OP2 ac OP3 yn eu tro yn gysylltiedig ag SO1, SO3 ac SO4; drwy gymryd rhan yn yr is-grwpiau, mae dealltwriaeth o ddisgwyliadau ac ymrwymiad i weithio fel grŵp yn datblygu (SO1), mae profiad a gwybodaeth am baratoi cyngor yn datblygu (SO3), yn ogystal â deall cylch gwaith y Ddeddf (SO4).

*Allbwn 4*
Mae Gweithgaredd 'A10: Y CPG yn asesu ei effeithiolrwydd ei hun' yn gysylltiedig ag allbwn 'OP4: Adroddiad gwerthuso effeithiolrwydd y CPG'. Cyfeiriodd cyfranogwyr y gweithdy at y broses hon, ac nid yw'r amseriad ar gyfer adolygiad ac adroddiad y CPG ar ei effeithiolrwydd ei hun wedi'i benderfynu eto.

Mae hyn yn ei dro yn gysylltiedig ag SO1, SO3 ac SO4, lle byddai gan aelodau'r CPG ddealltwriaeth well o weithrediad y CPG, gan gynnwys mewn perthynas â'i nodau (SO1 ac SO4), ac a yw'r cyngor sy'n cael ei ddarparu yn bodloni'r meini prawf (SO3).

#### 3.3.2.2. SO2: Sianel ffurfiol lle mae partneriaid cymdeithasol yn cymryd rhan mewn gwaith partneriaeth a deialog gyda Gweinidogion Cymru ar weithredu a datblygu polisi

*Allbynnau 1, 2 a 3*

Mae SO2 hefyd yn gysylltiedig ag OP1, OP2 ac OP3 a'r gweithgareddau cysylltiedig fel y'u disgrifir; drwy gymryd rhan yn y CPG a'i is-grwpiau a chynhyrchu gwybodaeth a chyngor.

*Allbwn 6*

Mae'r CPG yn darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru, gan gynnwys manylion adroddiadau cyrff cyhoeddus ar eu cydymffurfiaeth â'r DPG (A5), gwybodaeth a chyngor yn seiliedig ar waith is-grwpiau’r CPG (A9), a gwybodaeth a chyngor a gynhyrchir drwy gyfarfodydd y CPG (A1). Felly, mae'r gweithgareddau hyn, ynghyd ag 'A12: Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried gwybodaeth a chyngor gan y CPG wrth wneud penderfyniadau' yn gysylltiedig ag 'OP6: Caiff Gweinidogion Cymru ddatblygu neu wneud newidiadau i’r polisi yn seiliedig ar gyngor y CPG’.

Mae OP1 (gwybodaeth/cyngor y CPG), OP2 (adroddiadau is-grwpiau) ac OP3 (adroddiadau’r is-grŵp caffael) hefyd yn berthnasol, gan eu bod yn amlinellu'r wybodaeth neu'r cyngor ar gyfer OP6.

Yna mae OP6 yn cysylltu ag SO2, lle gellid ystyried gwybodaeth a chyngor y CPG wrth weithredu a datblygu polisi.

*Allbwn 5*

Mae ‘OP5: Rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol (adran 19), y cytunwyd arno gyda'r CPG, yn esbonio'r hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir o dan adran 17' yn ategu 'A6: Ymgynghorir ag aelodau’r CPG ar y sbardunau strategol a chytundeb adroddiad Gweinidogion Cymru ar gydymffurfio â'r ddyletswydd.’

Mae hyn yn ei dro yn cysylltu OP5 ag SO2, lle mae'r CPG yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith Gweinidogion Cymru o weithredu eu DPG.

#### 3.3.2.3. SO5: Mae gweithredu'r CPG yn cael ei fireinio lle bo hynny'n briodol

Mae gweithgaredd 'A10: Y CPG yn asesu ei effeithiolrwydd ei hun' yn gysylltiedig â'r allbwn 'OP4: Adroddiad gwerthuso effeithiolrwydd y CPG', sydd wedyn yn cysylltu ag SO5.

### 3.3.3. Cadwyni canlyniadau tymor byr i ganlyniadau tymor canolig, y CPG

Mae canlyniad tymor canolig 'MO1: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn y CPG yn gweithio’n adeiladol i ddarparu cyngor ar feysydd diddordeb cydfuddiannol' yn gysylltiedig â'r holl ganlyniadau tymor byr, oherwydd eu bod yn creu'r amodau angenrheidiol i bartneriaid cymdeithasol weithio'n adeiladol a darparu cyngor o ansawdd uchel, sef:

- SO1: Mae aelodau’r CPG yn deall disgwyliadau ac mae ganddynt ymrwymiad ar y cyd i weithio fel grŵp
- SO2: Sianel ffurfiol lle mae partneriaid cymdeithasol yn cymryd rhan mewn gwaith partneriaeth a deialog gyda Gweinidogion Cymru ar weithredu a datblygu polisi
- SO3: Mae gan y CPG ddigon o brofiad a gwybodaeth i baratoi gwybodaeth a chyngor effeithiol i Weinidogion Cymru, sy'n golygu bod y CPG yn darparu cyngor: cadarn, awdurdodol a, lle y bo'n berthnasol, wedi'i gostio, wedi'i arfarnu ar gyfer risg ac wedi'i asesu'n llawn ar gyfer ei effeithiau posibl
- SO4: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn y CPG yn glir ynglŷn â nodau a ffiniau'r Ddeddf (y DPG, y CPG a gwaith teg)
- SO5: Mae gweithrediad y CPG yn cael ei fireinio lle bo hynny'n briodol

Mae canlyniad tymor canolig 'MO2: Cysylltiadau a chyfathrebu cryfach rhwng partneriaid cymdeithasol (Gweinidogion Cymru, cyflogwyr, gweithwyr)' yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor byr canlynol:

- SO1
- SO2
- SO4

Mae canlyniad tymor canolig 'MO3: Mae’r CPG yn deall newidiadau dros amser yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r DPG ac yn gweithredu gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol (drwy adroddiadau)' yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor byr canlynol:

- SO2
- SO3
- SO4

### 3.3.4. Cadwyni canlyniadau tymor canolig i ganlyniadau tymor hir, y CPG

Mae canlyniad tymor hir 'LO2: Mae’r model partneriaeth gymdeithasol yn gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ledled Cymru' yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor canolig 'MO2: Cysylltiadau a chyfathrebu cryfach rhwng partneriaid cymdeithasol (Gweinidogion Cymru, cyflogwyr, gweithwyr)' ac 'MO1: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn y CPG yn gweithio'n adeiladol i ddarparu cyngor ar feysydd diddordeb cydfuddiannol’. Mae'r lefel 'genedlaethol' yn berthnasol i'r CPG ei hun, gan fod y CPG yn strwythur cenedlaethol lle mae'r ffordd partneriaeth gymdeithasol o weithio yn digwydd.

Mae canlyniad tymor hir 'LO3: Mae barn gweithwyr a chyflogwyr yn helpu i lywio’r gwaith o gyflawni polisi (drwy strwythur teirochrog y CPG)' yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor canolig 'MO1: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn y CPG yn gweithio'n adeiladol i ddarparu cyngor ar feysydd diddordeb cydfuddiannol' ac 'MO3: Mae’r CPG yn deall newidiadau dros amser yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r DPG ac yn gweithredu gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol (drwy adroddiadau)’. Mae hyn yn ymwneud yn arbennig â pharatoi gwybodaeth a chyngor 'effeithiol' i Weinidogion Cymru (SO3).

### 3.3.5. O fewn canlyniadau tymor hir, y CPG, gweledigaeth lefel uchel

Y canlyniad tymor hir 'LO1: Cyfraniadau at wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) yng Nghymru' yw'r weledigaeth lefel uchel ar gyfer y CPG, sy'n golygu ei fod yn dilyn y prif ganlyniadau tymor hir.

Gyda'i gilydd, mae LO2 a LO3 yn bwydo i mewn i LO1. Gallai gweithrediad y CPG a'r wybodaeth a'r cyngor cysylltiedig a all lywio’r gwaith o gyflawni polisi, gyfrannu at welliannau llesiant yn y pen draw.

Bydd LO1 hefyd yn gysylltiedig ag is-grŵp caffael y CPG. Mae hyn oherwydd mai nod tymor hir caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yw cyfrannu at welliannau mewn llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru. Bydd angen i unrhyw fodel rhesymeg caffael yn y dyfodol gyfrif am y cysylltiadau hyn.

## 3.4. Model rhesymeg a chadwyni gwaith teg

### Ffigur 3: Model rhesymeg gwaith teg

**Mewnbynnau**

IN1: Partneriaid cymdeithasol a chynrychiolwyr o wahanol sectorau.

IN2: Adborth, mewnwelediadau a thystiolaeth anecdotaidd a ddarperir gan bartneriaid cymdeithasol ac a dynnwyd o adborth gan eu haelodau.

IN3: Data arferol a gesglir ar gyfer ystadegau sy'n ymwneud â gwaith teg (dangosyddion cenedlaethol).

IN4: Adnoddau cyfathrebu a chyllid.

IN5: Y CPG ac aelodau is-grwpiau.

IN6: Trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol.

IN7: Gwasanaethau cyhoeddus datganoledig.

IN8: Y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn disodli "gwaith gweddus" gyda "gwaith teg" yn nod llesiant "Cymru Lewyrchus".

IN9: Y DPG ar gyfer cyrff cyhoeddus (gweler IN1, model rhesymeg y DPG).

**Gwaith teg o fewn caffael**

IN10: Is-grŵp caffael y CPG.

IN11: Darpariaethau ar gyfer cyhoeddi rheoliadau caffael a chanllawiau sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

**Gweithgareddau**

* = gweithgaredd nad yw'n cael ei nodi yn y Ddeddf, ond sy'n ymwneud â'r Ddeddf

A1: Mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol yn rhannu gwybodaeth ac yn lledaenu arferion gorau, gan gynnwys drwy rhwydweithiau/ fforymau a rhannu rhwng sefydliadau*.

A2: Y CPG i roi cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyrff cyhoeddus yn mynd ar drywydd y nod llesiant 'Cymru lewyrchus', a allai gyfeirio at waith teg.

A3: Bydd cyrff cyhoeddus yn gosod ac yn adolygu'n flynyddol eu hamcanion llesiant **mewn partneriaeth gymdeithasol (y DPG)**, gyda'r nod llesiant diwygiedig 'Cymru lewyrchus' mewn golwg, a allai gyfeirio at waith teg.

A4: Llywodraeth Cymru i ddatblygu gwybodaeth am waith teg*.

A5: Mae Llywodraeth Cymru yn monitro/ dadansoddi data ar lefel Cymru ynghylch gwaith teg (dangosyddion cenedlaethol, IN3), yn ogystal ag adborth gan bartneriaid cymdeithasol (IN2)*.

**Gwaith teg o fewn caffael**

A6: Awdurdodau contractio: casglu data gwaith teg sy'n ymwneud â chanlyniadau caffael yn rheolaidd.

A7: Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau statudol ar gaffael, a fydd yn cynnwys gwaith teg o fewn caffael.

A8: Mae awdurdodau contractio yn adolygu ac yn drafftio amcanion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

**Gweinidogion Cymru**

A9: Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried gwybodaeth a chyngor gan y CPG neu ei is-grwpiau (gan gynnwys caffael) ynghylch gwaith teg wrth wneud penderfyniadau.

**Allbynnau**

* = allbwn nad yw'n cael ei nodi yn y Ddeddf, ond sy'n ymwneud â'r Ddeddf.
** = allbwn nad yw'n ofynnol gan y Ddeddf, ond sy'n deillio o greu'r CPG.

OP1: Adnoddau Llywodraeth Cymru ar waith teg, megis astudiaethau achos a chanllawiau arferion da*.

OP2: Unigolion a sefydliadau sy'n esiamplau ac yn hyrwyddwyr gwaith teg*.

OP3: Amcanion llesiant cyhoeddedig cyrff cyhoeddus a'u hadroddiad adolygiad blynyddol yn unol â'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus', a allai gyfeirio at waith teg*.

OP4: Dangosyddion cenedlaethol cyhoeddedig Llesiant Cymru sy'n ymwneud â gwaith teg*.

**Gwaith teg o fewn caffael**

OP5: Canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut i gaffael gwaith teg, a mesur ac adrodd ar waith teg mewn caffael.

OP6: Amcanion caffael cyhoeddedig awdurdodau contractio sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, a allai gyfeirio at waith teg.

OP7: Adroddiadau arferol awdurdodau contractio ar ddata gwaith teg sy'n ymwneud â chanlyniadau caffael, gan gynnwys adroddiadau caffael blynyddol.

**Gweinidogion Cymru**

OP8: Gall Gweinidogion Cymru ddatblygu neu wneud newidiadau i bolisi ynghylch gwaith teg yn seiliedig ar gyngor y CPG (gan gynnwys ei is-grwpiau). Gallai newidiadau fod yn berthnasol i'r sectorau cyhoeddus a/ neu breifat yng Nghymru**.

**Canlyniadau tymor byr (1 i 2 flynedd)**

SO1: Mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol wedi gwella dealltwriaeth o waith teg a'i berthynas â llesiant.

SO2: Mae cyrff cyhoeddus wedi gwella dealltwriaeth o'r camau ymarferol y gallant eu cymryd i hyrwyddo gwaith teg.

SO3: Mae cyrff cyhoeddus yn dechrau cymryd camau i weithredu gwaith teg yn unol â'u hamcanion llesiant.

SO4: Mae cyrff cyhoeddus yn dechrau mabwysiadu dysgu am arferion gorau mewn gwaith teg.

SO5: Meithrin cysylltiadau â phartneriaid cymdeithasol ac eraill yn seiliedig ar egwyddorion partneriaeth gymdeithasol (model y DPG, LO3).

**Gwaith teg o fewn caffael**

SO6: Mae awdurdodau contractio yn dechrau gweithio tuag at eu hamcanion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, a gall rhai ohonynt ymwneud â gwaith teg.

**Canlyniadau tymor canolig (3 i 4 blynedd)**

MO1: Ymrwymiad cryf i'r system partneriaeth gymdeithasol ac ymrwymiad i waith teg gan bartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill.

MO2: Mae cysylltiadau a ddatblygwyd (SO5) yn parhau i ddatblygu a chryfhau.

MO3: Datblygu sylfaen dystiolaeth gryfach sy'n archwilio manteision llesiant gwaith teg (gan gynnwys gwaith teg mewn data caffael).

MO4: Ymwreiddio arferion gwaith teg mewn cyrff cyhoeddus.

**Gwaith teg o fewn caffael**

MO5: Ymwreiddio gwaith teg fel elfen o lesiant mewn caffael.

**Canlyniadau tymor hir (5+ mlynedd)**

LO1: Tueddiadau cadarnhaol fel y'u nodir gan ddangosyddion cenedlaethol perthnasol yn adroddiad blynyddol Llesiant Cymru.

LO2: Mae cyrff cyhoeddus yn dangos newid parhaus tuag at werthfawrogi tegwch, cynhwysiant ac urddas yn y gwaith.

LO3: Mae arferion gwaith teg **yn cyfrannu at** fanteision penodol i gyrff cyhoeddus fel cyflogwyr ac i'w gweithwyr, a adlewyrchir mewn data sy'n ymwneud â pherfformiad sefydliadol.

**Gwaith teg o fewn caffael**

LO4: Mae cyrff cyhoeddus a chyflenwyr yn cymhwyso egwyddorion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn gyson, gan ddefnyddio eu dylanwad i hyrwyddo gwaith teg, tegwch a chynaliadwyedd ar draws cadwyni cyflenwi.

LO5: Gwell dangosyddion caffael i fesur integreiddio ehangach arferion gwaith teg ar draws sefydliadau a busnesau yng Nghymru.

### 3.4.1. Cadwyni gweithgareddau i allbynnau, gwaith teg

Mae allbwn 'OP1: Adnoddau Llywodraeth Cymru ar waith teg, megis astudiaethau achos a chanllawiau arferion da’ yn gysylltiedig â gweithgareddau sy'n cynnwys cynhyrchu gwybodaeth ac adnoddau sy'n ymwneud â gwaith teg. Mae hyn yn cynnwys:

- A1: Mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol yn rhannu gwybodaeth ac yn lledaenu arferion gorau, gan gynnwys drwy rhwydweithiau/fforymau a rhannu rhwng sefydliadau
- A2: Y CPG i roi cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyrff cyhoeddus yn mynd ar drywydd y nod llesiant 'Cymru lewyrchus', a allai gyfeirio at waith teg
- A4: Llywodraeth Cymru i ddatblygu gwybodaeth am waith teg
- A5: Mae Llywodraeth Cymru yn monitro/dadansoddi data ar lefel Cymru ynghylch gwaith teg (dangosyddion cenedlaethol, IN3), yn ogystal ag adborth gan bartneriaid cymdeithasol (IN2)

Bydd cyngor y CPG i Weinidogion Cymru (A2), Llywodraeth Cymru yn datblygu gwybodaeth am waith teg (A4) a dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata gwaith teg ac adborth gan bartneriaid cymdeithasol (A5) yn llywio'r wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol yn ei rhannu a'i lledaenu ar gyfer A1.

Mae allbwn 'OP2: Unigolion a sefydliadau sy'n esiamplau ac yn hyrwyddwyr gwaith teg' yn cael ei ategu gan weithgaredd A1.

Mae allbwn 'OP3: Amcanion llesiant cyhoeddedig cyrff cyhoeddus a’u hadroddiad adolygiad blynyddol yn unol â'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus', a allai gyfeirio at waith teg' yn cael ei ategu gan y gweithgareddau canlynol:

- A2: Y CPG i roi cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyrff cyhoeddus yn mynd ar drywydd y nod llesiant 'Cymru lewyrchus', a allai gyfeirio at waith teg
- A3: Bydd cyrff cyhoeddus yn gosod ac yn adolygu'n flynyddol eu hamcanion llesiant mewn partneriaeth gymdeithasol (y DPG), gyda'r nod llesiant diwygiedig 'Cymru lewyrchus' mewn golwg, a allai gyfeirio at waith teg

Mae gweithgareddau A2 ac A3 yn gysylltiedig gan y bydd y CPG yn adolygu adroddiadau blynyddol cyrff cyhoeddus ac yn cynghori Gweinidogion Cymru yn unol â hynny.

Mae ‘OP4: Dangosyddion cenedlaethol cyhoeddedig Llesiant Cymru sy'n ymwneud â gwaith teg' yn gysylltiedig â gweithgaredd A5, sy'n dechrau gyda 'Mae Llywodraeth Cymru yn monitro/dadansoddi data ar lefel Cymru ynghylch gwaith teg’.

Mae allbwn 'OP5: Canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut i gaffael gwaith teg, a mesur ac adrodd am waith teg mewn caffael' yn gysylltiedig â gweithgaredd 'A7: Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau statudol ar gaffael, a fydd yn cynnwys gwaith teg o fewn caffael.’

Mae allbwn 'OP6: Amcanion caffael cyhoeddedig awdurdodau contractio sy’n gyfrifol yn gymdeithasol, a allai gyfeirio at waith teg' yn gysylltiedig â gweithgaredd 'A8: Mae awdurdodau contractio yn adolygu ac yn drafftio amcanion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol’.

Mae allbwn 'OP7: Adroddiadau arferol awdurdodau contractio ar ddata gwaith teg sy'n ymwneud â chanlyniadau caffael, gan gynnwys adroddiadau caffael blynyddol' yn cael ei ategu gan weithgaredd 'A6: Awdurdodau contractio: casglu data gwaith teg sy'n ymwneud â chanlyniadau caffael yn rheolaidd’.

Mae allbwn 'OP8: Gall Gweinidogion Cymru ddatblygu neu wneud newidiadau i bolisi ynghylch gwaith teg yn seiliedig ar gyngor y CPG (gan gynnwys ei is-grwpiau). Gallai newidiadau fod yn berthnasol i'r sectorau cyhoeddus a/neu breifat yng Nghymru' yn cael ei ategu gan weithgaredd 'A9: Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried gwybodaeth a chyngor gan y CPG neu ei is-grwpiau (gan gynnwys caffael) ynghylch gwaith teg wrth wneud penderfyniadau’.

### 3.4.2. Cadwyni allbynnau i ganlyniadau tymor byr, gwaith teg

Mae canlyniad 'SO1: Mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol wedi gwella dealltwriaeth o waith teg a'i berthynas â llesiant' yn gysylltiedig â'r allbynnau canlynol:

- OP1: Adnoddau Llywodraeth Cymru ar waith teg, megis astudiaethau achos a chanllawiau arferion da
- OP2: Unigolion a sefydliadau sy'n esiamplau ac yn hyrwyddwyr gwaith teg
- OP3: Amcanion llesiant cyhoeddedig cyrff cyhoeddus a'u hadroddiad adolygiad blynyddol yn unol â'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus', a allai gyfeirio at waith teg
- OP4: Dangosyddion cenedlaethol cyhoeddedig Llesiant Cymru sy'n ymwneud â gwaith teg
- OP7: Adroddiadau arferol awdurdodau contractio ar ddata gwaith teg sy'n ymwneud â chanlyniadau caffael, gan gynnwys adroddiadau caffael blynyddol
- OP8: Gall Gweinidogion Cymru ddatblygu neu wneud newidiadau i bolisi ynghylch gwaith teg yn seiliedig ar gyngor y CPG (gan gynnwys ei is-grwpiau). Gallai newidiadau fod yn berthnasol i'r sectorau cyhoeddus a/neu breifat yng Nghymru

Mae canlyniad 'SO2: Mae cyrff cyhoeddus wedi gwella dealltwriaeth o'r camau ymarferol y gallant eu cymryd i hyrwyddo gwaith teg' yn gysylltiedig â'r allbynnau canlynol:

- OP1
- OP2
- OP3
- OP5: Canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut i gaffael gwaith teg, a mesur ac adrodd ar waith teg mewn caffael
- OP8

Mae canlyniad 'SO3: Mae cyrff cyhoeddus yn dechrau cymryd camau i weithredu gwaith teg yn unol â'u hamcanion llesiant' yn gysylltiedig ag allbwn 'OP3: Amcanion llesiant cyhoeddedig cyrff cyhoeddus a'u hadroddiad adolygiad blynyddol yn unol â'r nod llesiant 'Cymru lewyrchus', a allai gyfeirio at waith teg'. Mae hyn oherwydd os yw cyrff cyhoeddus yn gosod ac yn adolygu'n flynyddol eu hamcanion llesiant sy'n ymwneud â gwaith teg mewn partneriaeth gymdeithasol (A3), yna dylent fod yn cyhoeddi a gweithredu'r amcanion hyn.

Mae canlyniad 'SO4: Mae cyrff cyhoeddus yn dechrau mabwysiadu dysgu am arferion gorau mewn gwaith teg' yn gysylltiedig ag allbwn OP1, sy'n dechrau gydag 'Adnoddau Llywodraeth Cymru ar waith teg' ac 'OP2: Unigolion a sefydliadau sy'n esiamplau ac yn hyrwyddwyr gwaith teg'. Mae hyn oherwydd y dylai cyrff cyhoeddus allu cymhwyso mewnwelediadau ynghylch arferion gorau mewn gwaith teg drwy dynnu ar yr adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Nid yw canlyniad 'SO5: Meithrin cysylltiadau â phartneriaid cymdeithasol ac eraill yn seiliedig ar egwyddorion partneriaeth gymdeithasol (model y DPG, LO3)' yn gysylltiedig ag allbwn ynddo'i hun. Yn hytrach, mae'n gysylltiedig ag A3 sy'n disgrifio cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i osod eu hamcanion llesiant, a allai gyfeirio at waith teg yn unol â'r nod 'Cymru lewyrchus'. Hefyd A2 sy'n disgrifio'r CPG yn darparu cyngor ynghylch mynd ar drywydd y nod hwn. Fel y cyfryw, mae'r canlyniad hwn yn fwy o ganlyniad elfennau eraill y Ddeddf, a dyma lle mae'r model gwaith teg yn cysylltu â'r modelau rhesymeg eraill.

Mae canlyniad 'SO6: Mae awdurdodau contractio yn dechrau gweithio tuag at eu hamcanion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, a gall rhai ohonynt ymwneud â gwaith teg' yn cael ei gynhyrchu gan yr allbynnau canlynol:

- OP5: Canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut i gaffael gwaith teg, a mesur ac adrodd ar waith teg mewn caffael
- OP6: Amcanion caffael cyhoeddedig awdurdodau contractio sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, a allai gyfeirio at waith teg
- OP7: Adroddiadau arferol awdurdodau contractio ar ddata gwaith teg sy'n ymwneud â chanlyniadau caffael, gan gynnwys adroddiadau caffael blynyddol

### 3.4.3. Cadwyni canlyniadau tymor byr i ganlyniadau tymor canolig, gwaith teg

Mae’r canlyniad 'MO1: Ymrwymiad cryf i'r system partneriaeth gymdeithasol ac ymrwymiad i waith teg gan bartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill’ yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor byr canlynol:

- SO1: Mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol wedi gwella dealltwriaeth o waith teg a'i berthynas â llesiant
- SO2: Mae cyrff cyhoeddus wedi gwella dealltwriaeth o'r camau ymarferol y gallant eu cymryd i hyrwyddo gwaith teg
- SO3: Mae cyrff cyhoeddus yn dechrau cymryd camau i weithredu gwaith teg yn unol â'u hamcanion llesiant
- SO4: Mae cyrff cyhoeddus yn dechrau mabwysiadu dysgu am arferion gorau mewn gwaith teg

Mae MO1 hefyd yn cysylltu'r model rhesymeg gwaith teg â'r modelau rhesymeg DPG a CPG. Mae hyn oherwydd os yw partneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o'r DPG a'i gwerthoedd a'i hymddygiadau cysylltiedig, dylai hyn gryfhau eu hymrwymiad i'r system partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg.

Mae ‘MO2: Mae cysylltiadau a ddatblygwyd (SO5) yn parhau i ddatblygu a chryfhau' yn dilyn SO5 yn uniongyrchol. Fel y trafodwyd yn SO5, mae hyn yn cysylltu'r model gwaith teg â'r modelau DPG ac CPG.

Mae’r canlyniad 'MO3: Datblygu sylfaen dystiolaeth gryfach sy'n archwilio manteision llesiant gwaith teg (gan gynnwys gwaith teg mewn data caffael)' yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor byr canlynol:

- SO1
- SO2
- SO3
- SO6: Mae awdurdodau contractio yn dechrau gweithio tuag at eu hamcanion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, a gall rhai ohonynt ymwneud â gwaith teg’ (drwy weithgaredd A6 ac allbwn OP7, casglu ac adrodd ar waith teg mewn data caffael)

Mae canlyniad 'MO4: Ymwreiddio arferion gwaith teg mewn cyrff cyhoeddus’ yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor byr canlynol:

- SO2
- SO3
- SO4

Mae canlyniad 'MO5: Ymwreiddio gwaith teg fel elfen o lesiant mewn caffael' yn gysylltiedig â chanlyniad 'SO6: Mae awdurdodau contractio yn dechrau gweithio tuag at eu hamcanion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, a gall rhai ohonynt ymwneud â gwaith teg'.

### 3.4.4. Cadwyni canlyniadau tymor canolig i ganlyniadau tymor hir, gwaith teg

Mae'r canlyniad tymor hir 'LO1: Tueddiadau cadarnhaol fel y'u nodir gan ddangosyddion cenedlaethol perthnasol yn adroddiad blynyddol Llesiant Cymru' yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor canolig canlynol:

- MO1: Ymrwymiad cryf i'r system partneriaeth gymdeithasol ac ymrwymiad i waith teg gan bartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill
- MO2: Mae cysylltiadau a ddatblygwyd (SO5) yn parhau i ddatblygu a chryfhau
- MO3: Datblygu sylfaen dystiolaeth gryfach sy'n archwilio manteision llesiant gwaith teg (gan gynnwys gwaith teg mewn data caffael)
- MO4: Ymwreiddio arferion gwaith teg mewn cyrff cyhoeddus

Mae canlyniadau tymor canolig hyn yn gysylltiedig ag LO1 oherwydd os cânt eu gwireddu, yna byddent yn dangos tueddiadau cadarnhaol fel yr adroddwyd gan ddangosyddion cenedlaethol yn adroddiad blynyddol Llesiant Cymru. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, ei bod yn debygol y byddai unrhyw gyfraniad cadarnhaol yn fach, gan fod y dangosyddion cenedlaethol yn rhai lefel uchel.

Mae canlyniad tymor hir 'LO2: Mae cyrff cyhoeddus yn dangos newid parhaus tuag at werthfawrogi tegwch, cynhwysiant ac urddas yn y gwaith' yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor canolig canlynol:

- MO1
- MO2
- MO4

Mae canlyniad tymor hir 'LO3: Mae arferion gwaith teg yn cyfrannu at fanteision penodol i gyrff cyhoeddus fel cyflogwyr ac i'w gweithwyr, a adlewyrchir mewn data sy'n ymwneud â pherfformiad sefydliadol' yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor canolig canlynol:

- MO1
- MO4

Mae canlyniad tymor hir 'LO4: Mae cyrff cyhoeddus a chyflenwyr yn cymhwyso egwyddorion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn gyson, gan ddefnyddio eu dylanwad i hyrwyddo gwaith teg, tegwch a chynaliadwyedd ar draws cadwyni cyflenwi' yn gysylltiedig â chanlyniad tymor canolig 'MO5: Ymwreiddio gwaith teg fel elfen o lesiant mewn caffael'.

Mae canlyniad hirdymor 'LO5: Gwell dangosyddion caffael i fesur integreiddio ehangach arferion gwaith teg ar draws sefydliadau a busnesau yng Nghymru’ yn gysylltiedig â'r canlyniadau tymor canolig canlynol:

- MO3
- MO5: Ymwreiddio gwaith teg fel elfen o lesiant mewn caffael

## 3.5. Cysylltiadau rhwng modelau rhesymeg

### 3.5.1. Cysylltiadau rhwng y CPG a'r DPG

Y prif gysylltiad rhwng y modelau rhesymeg DPG a CPG yw bod monitro adroddiadau cyrff cyhoeddus ar sut y maent wedi cydymffurfio â'r DPG yn un o swyddogaethau craidd y CPG. Gallai hyn gynhyrchu gwybodaeth a chyngor sy'n bwydo'n ôl i weithredu'r DPG.

O ran canlyniadau tymor canolig, mae'r CPG yn cyfrannu at fodel rhesymeg DPG 'MO1: Mae cyrff cyhoeddus yn dangos gwelliannau mewn trefniadau partneriaeth gymdeithasol, gan gynnwys gweithredu ar wybodaeth/cyngor drwy ymgysylltu â'r CPG, Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru'. Mae hyn drwy gweithgaredd A5 ym model rhesymeg y CPG, sy'n cynnwys adolygiad y CPG o adroddiadau cyrff cyhoeddus ar sut y maent wedi cydymffurfio â'r DPG. Mae hyn yn cysylltu ag A2 yn y model DPG, sy'n amlinellu datblygu cyfleoedd gwybodaeth ac ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru, y gall cyngor y CPG fwydo iddynt.

Yn yr un modd, mae'r CPG yn cyfrannu at ganlyniadau tymor hir model rhesymeg y DPG:

- LO3: Cyflawni egwyddorion partneriaeth gymdeithasol mewn ffyrdd o weithio mewn cyrff cyhoeddus (cydweithredu, parch, ymddiriedaeth, llais a chyfranogiad, enillion cydfuddiannol)
- LO4: Mae partneriaeth gymdeithasol wedi'i hymwreiddio wrth wneud penderfyniadau strategol o fewn cyrff cyhoeddus
- LO5: Gall penderfyniadau strategol sy'n ystyried anghenion y gweithlu drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol (MO4) arwain at weithleoedd mwy cyfartal a chydweithredol o fewn cyrff cyhoeddus (fel LO3). Gall y gwelliannau hyn gael eu hadlewyrchu mewn perfformiad sefydliadol gwell

Y prif gysylltiad arall yw bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r CPG fel rhan o'r DPG ar Weinidogion Cymru a chytuno ar eu hadroddiad blynyddol gyda'i gilydd. Y gweithgareddau a'r allbynnau cysylltiedig yw:

- Model rhesymeg y CPG, A6: Ymgynghorir ag aelodau'r CPG ar y sbardunau strategol a chytundeb adroddiad Gweinidogion Cymru ar gydymffurfio â'r ddyletswydd
- Model rhesymeg y DPG, A6: Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried gwybodaeth a chyngor gan y CPG ynglŷn â'r DPG ar gyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau
- Model rhesymeg y CPG, OP5: Rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol (adran 19), y cytunwyd arno gyda'r CPG, yn esbonio'r hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir o dan adran 17

- Model rhesymeg DPG, OP4: Rhaid i Weinidogion Cymru lunio, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â’r hyn y maent wedi ei wneud i gydymffurfio â’r ddyletswydd a osodir o dan adran 17. Cytunir ar adroddiadau gyda'r CPG

Yn olaf, yn gyffredin ar draws y ddau fodel rhesymeg (OP6 ar gyfer y DPG a’r CPG) yw ‘Gall Gweinidogion Cymru ddatblygu neu wneud newidiadau i'r polisi yn seiliedig ar gyngor y CPG’.

### 3.5.2. Cysylltiadau rhwng gwaith teg, a’r CPG a’r DPG

Mae gwaith teg o fewn y Ddeddf wedi'i gyfyngu i newid geiriad y nod llesiant 'Cymru lewyrchus' i gynnwys gwaith teg. Felly, mae gwaith teg yn bwnc sy'n croesi'r elfennau DPG, CPG a chaffael, sef yr elfennau sy'n deddfu ar gyfer gweithredoedd ac ymddygiadau penodol. O fewn y Theori Newid, mae'r Ddeddf yn cyfrannu at waith teg yn y sector cyhoeddus drwy gyrff cyhoeddus yn cyflawni'r DPG a gwaith y CPG, mewn perthynas â'r nod 'Cymru lewyrchus.

Mae'r elfennau proses sy'n cysylltu â'i gilydd yn cynnwys:

- A3, gwaith teg: Bydd cyrff cyhoeddus yn gosod ac yn adolygu'n flynyddol eu hamcanion llesiant mewn partneriaeth gymdeithasol (y DPG), gyda'r nod llesiant diwygiedig 'Cymru lewyrchus' mewn golwg, a allai gyfeirio at waith teg
- OP2, y DPG: Rhaid i gyrff cyhoeddus lunio, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â’r hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio â’r ddyletswydd a osodir o dan adran 16. Mae'r rhain i’w cyflwyno i'r CPG i'w hystyried
- A1, y CPG: Cyfarfodydd y CPG, lle mae aelodau'n darparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru ynglŷn â: dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus, cyrff cyhoeddus yn cyflawni’r nod llesiant 'Cymru lewyrchus'

Unwaith eto, allbwn cyffredin ar draws modelau rhesymeg yw Gweinidogion Cymru yn datblygu polisi yn seiliedig ar gyngor y CPG (OP6 ar gyfer y DPG a’r CPG, OP8 ar gyfer gwaith teg). Mae OP8 yn cyfeirio'n benodol at hyn fel polisi ynghylch gwaith teg.

Drwy'r prosesau a restrir uchod, mae'r modelau rhesymeg DPG a CPG hefyd yn gysylltiedig â'r model rhesymeg gwaith teg drwy ganlyniad tymor byr 'SO5: Meithrin cysylltiadau â phartneriaid cymdeithasol ac eraill yn seiliedig ar egwyddorion partneriaeth gymdeithasol' a chanlyniad tymor canolig 'MO1: Ymrwymiad cryf i'r system partneriaeth gymdeithasol ac ymrwymiad i waith teg gan bartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill’. Mae hyn oherwydd mai'r DPG a'r CPG yw lle mae'r camau penodol yn digwydd, gan gynnwys gwaith teg mewn trafodaethau.

Mae'r model rhesymeg gwaith teg yn gysylltiedig â'r weledigaeth lefel uchel yn y model rhesymeg DPG a CPG, sef canlyniad tymor hir 'LO1: Cyfraniadau at wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) yng Nghymru’. Mae hyn oherwydd ei bod yn rhagdybiaeth y bydd y CPG a chyrff cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol a chydag

ymrwymiad i waith teg yn cyfrannu at wella llesiant yng Nghymru, fel y mesurir gan y dangosyddion yn adroddiad blynyddol Llesiant Cymru. Mae hyn yn ymwneud â model rhesymeg gwaith teg 'LO1: Tueddiadau cadarnhaol fel y'u nodir gan ddangosyddion cenedlaethol perthnasol yn adroddiad blynyddol Llesiant Cymru’.

### 3.5.3. Cysylltiadau â chaffael

Nid yw'r model rhesymeg caffael yn rhan o gylch gwaith yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae cysylltiadau pwysig ar draws modelau rhesymeg.

Mae caffael a gwaith teg yn gysylltiedig gan fod y ddyletswydd caffael sy’n gyfrifol yn gymdeithasol yn golygu bod rhaid i awdurdodau contractio gyhoeddi amcanion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at nodau llesiant. Mae hyn yn cynnwys y nod llesiant 'Cymru lewyrchus', a allai felly gynnwys gwaith teg. Nodir hyn o dan y penawdau 'Gwaith teg o fewn caffael' yn y model rhesymeg gwaith teg.

Mae caffael yn gysylltiedig â'r CPG drwy’r is-grŵp caffael a'r wybodaeth a'r cyngor sy'n deillio o hynny gan Weinidogion Cymru a allai gynnwys caffael.

# 4. Diffinio a mesur canlyniadau

Mae llawer o ganlyniadau yn cyfeirio at bartneriaid cymdeithasol. O fewn Llywodraeth Cymru neu'r CPG, mae hyn yn cyfeirio at Weinidogion Cymru, cyflogwyr a gweithwyr (a gynrychiolir gan undebau llafur). O fewn cyrff cyhoeddus, mae hyn yn cyfeirio at gyflogwyr a gweithwyr (a gynrychiolir gan undebau llafur neu gynrychiolwyr staff eraill).

Mae llawer o ganlyniadau yn cyfeirio at fesur drwy gasglu data sylfaenol. Mae hyn yn cyfeirio at ddulliau gan gynnwys arolygon, cyfweliadau a grwpiau ffocws. Byddai penderfyniadau ar ba ddull i'w ddefnyddio yn cael eu gwneud wrth gontractio ar gyfer gwerthusiad.

## 4.1. Canlyniadau'r DPG

### 4.1.1. SO1: Mae gan bartneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru well dealltwriaeth o bryderon ei gilydd

Ni thrafodwyd y canlyniad hwn yn benodol yn y gweithdy ond cafwyd trafodaethau cysylltiedig. Wrth ddod â gweithwyr a chyflogwyr at ei gilydd wrth wneud penderfyniadau strategol (a Gweinidogion Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru drwy'r CPG), byddai ymwybyddiaeth o farn gwahanol bartneriaid cymdeithasol. Felly, dylai fod dealltwriaeth o unrhyw bryderon, efallai nad oeddent yn bodoli cyn y DPG. Ar gyfer cyrff cyhoeddus, byddai'r canlyniad hwn yn gysylltiedig ag SO5 sy'n amlinellu sicrhau bod gweithwyr yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau strategol, gydag SO1 yn digwydd o ganlyniad i hynny.

Byddai i ba raddau y mae partneriaid cymdeithasol o fewn y CPG a chyrff cyhoeddus yn deall pryderon ei gilydd yn cael ei ganfod drwy hunan-adrodd, gan ddefnyddio dulliau casglu data sylfaenol.

#### 4.1.2. ‘SO2: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus yn glir ynglŷn â nodau a ffiniau'r Ddeddf (y DPG, y CPG a gwaith teg)' ac 'SO3: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus wedi gwella dealltwriaeth/gwybodaeth am ffyrdd o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac arferion gorau’

Er na thrafodwyd y canlyniadau hyn yn benodol yn y gweithdy, cafwyd trafodaethau cysylltiedig.

Trafododd cyfranogwyr achosion lle roedd yn ymddangos nad oedd partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus yn deall disgwyliadau neu gylch gwaith y Ddeddf yn llawn. Er enghraifft, mae’r DPG yn nodi ei bod wedi canolbwyntio ar siarad â chynrychiolwyr gweithwyr am gysylltiadau diwydiannol neu faterion AD, yn hytrach na sut mae gweithwyr wedi bod yn rhan o osod amcanion llesiant a phenderfyniadau strategol am gamau i gyflawni'r amcanion hyn. Nodwyd hefyd nad oeddent yn deall terminoleg, megis beth yw penderfyniadau o natur strategol, nac yn deall yn llawn beth mae'n ei olygu i gytuno ar yr adroddiad DPG gyda chynrychiolwyr gweithwyr.

Trafododd y cyfranogwyr hefyd y fenter 'hyrwyddwyr' sy'n cael ei chynnal gan gydweithwyr cyfathrebu ac ymgysylltu yn Llywodraeth Cymru (Pennod 3, 'Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y model rhesymeg DPG’). Er, y tu allan i'r Ddeddf ei hun, drwy baru cyrff cyhoeddus â'i gilydd i rannu sut maen nhw'n gweithredu'r DPG, byddai hyn yn dylanwadu ar SO2 ac SO3.

Felly, gellid asesu SO2 a SO3 drwy newidiadau yng nghynnwys adroddiadau DPG, yn ogystal â chofnodion cynllun hyrwyddwyr a ddelir gan Lywodraeth Cymru, megis nodiadau o drafodaethau a chamau gweithredu sy'n deillio o drafodaethau. Gellid asesu'r rhain hefyd drwy gasglu data sylfaenol gyda phartneriaid cymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus, asesiad hunan-adrodd o ddealltwriaeth o'r Ddeddf a sut y gellir gweithredu partneriaeth gymdeithasol. Byddai hyn yn cynnwys y rhai sy'n rhan o'r fenter hyrwyddwyr.

Roedd deddfwriaeth arall yn ffactor allanol a allai ddylanwadu ar ddealltwriaeth o'r Ddeddf. Defnyddir y derminoleg 'penderfyniadau o natur strategol' yn y Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Asesu Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025 (Senedd Cymru) (pdf). Mae hyn yn cynnig bod rhaid i gyrff cyhoeddus gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wrth wneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau. Gan fod y derminoleg yr un fath â'r Ddeddf, gall hyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi beth yw penderfyniadau strategol a sut y dylid cymhwyso'r DPG.

### 4.1.3. SO5: Mae gweithwyr mewn cyrff cyhoeddus yn dechrau cymryd rhan yn weithredol/â llais wrth wneud penderfyniadau strategol am arferion yn y gweithle, datblygu polisi a darparu gwasanaethau cyhoeddus

Roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai cyrff cyhoeddus yn symud i ffwrdd o ffocws ar AD neu gysylltiadau diwydiannol mewn trafodaethau partneriaeth gymdeithasol wrth ddangos y canlyniad hwn. Yn hytrach, byddent yn canolbwyntio mwy ar osod amcanion llesiant a phenderfyniadau strategol eraill ynghylch camau i gyflawni'r amcanion hyn, megis ym maes cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol a chyllidebau, cynllunio'r gweithlu a rheoli asedau.

Ar ben hynny, caiff cyrff cyhoeddus sefydlu strwythurau neu brosesau newydd i ddod â chyflogwyr a gweithwyr at ei gilydd ac i gynnwys gweithwyr mewn penderfyniadau. Disgwylir y byddai trafodaethau'n cael eu cynnal, yn hytrach na dim ond gofyn am sylwadau cynrychiolwyr gweithwyr ar ddeunydd darllen dros e-bost. Byddai cyrff cyhoeddus hefyd yn dechrau cynnwys gweithwyr mewn penderfyniadau ar gam ffurfiannol o'r broses, o gymharu â'r sefyllfa flaenorol lle mae ymgynghori fel arfer yn digwydd ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud, i'w cymeradwyo yn unig.

Dywedodd cyfranogwyr y bydd taith cyrff cyhoeddus i SO5 yn cymryd symiau gwahanol o amser ac y bydd yn amrywio yn ôl man cychwyn. Felly, er bod hyn yn cael ei adlewyrchu fel canlyniad tymor byr o 1 i 2 flynedd yn y model rhesymeg, gall hyn fod yn ganlyniad tymor canolig o 3 i 4 blynedd i rai cyrff cyhoeddus.

Byddai'r canlyniad hwn yn cael ei weld yn bennaf drwy newidiadau dros amser yn adroddiadau DPG cyrff cyhoeddus. Trafodwyd dogfennau eraill, megis cofnodion cyfarfod y trafodaethau rhwng cyflogwyr a gweithwyr. Fodd bynnag, mae'r rhain yn cael eu cadw gan gyrff cyhoeddus ac, er y gall rhai gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd ar eu gwefannau, mae hyn yn annhebygol oherwydd trafod materion mewnol. Y cyrff cyhoeddus eu hunain fyddai'n penderfynu a ellid rhannu'r dogfennau hyn gyda'r gwerthuswr. Felly, ochr yn ochr ag adroddiadau DPG, byddai'r canlyniad hwn yn debygol o gael ei asesu drwy gasglu data sylfaenol gyda phartneriaid cymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus.

### 4.1.4. MO1: Mae cyrff cyhoeddus yn dangos gwelliannau mewn trefniadau partneriaeth gymdeithasol, gan gynnwys gweithredu ar wybodaeth/cyngor drwy ymgysylltu â'r CPG, Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru

Y ffyrdd y byddai SO5 yn cael ei ddangos yw'r un ffactorau a fyddai'n dangos gwelliannau mewn trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn MO1 (canolbwyntio ar amcanion llesiant a phenderfyniadau strategol cysylltiedig, prosesau a strwythurau newydd, cynnal trafodaethau, a chynnwys mewn cam ffurfiannol). Felly, byddai mesur gwelliannau mewn trefniadau partneriaeth gymdeithasol hefyd fel yr adroddwyd yn SO5 (newidiadau dros amser mewn adroddiadau DPG, casglu data sylfaenol gyda phartneriaid cymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus). Ar gyfer unrhyw broses casglu data sylfaenol, mae cofio sut mae pethau wedi newid yn her debygol.

O ran gweithredu ar wybodaeth neu gyngor drwy'r CPG a Gweinidogion Cymru, mae hyn yn cynnwys canlyniadau adolygiad y CPG o adroddiadau DPG, a gyfathrebwyd drwy Weinidogion Cymru. Gallai cyrff cyhoeddus wedyn ymgorffori'r adborth hwn. O ran gweithredu ar wybodaeth neu gyngor drwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, mae hyn yn cynnwys defnyddio deunyddiau hyfforddi cyhoeddedig, yn ogystal â dysgu drwy'r fenter 'hyrwyddwyr'.

Byddai'n rhaid canfod a yw cyrff cyhoeddus wedi gweithredu ar wahanol ffynonellau gwybodaeth neu gyngor i wella eu trefniadau partneriaeth gymdeithasol drwy hunan-adrodd dulliau casglu data sylfaenol gan gyrff cyhoeddus. Unwaith eto, bydd cofio digwyddiadau yn debygol o fod yn her.

Gallai cofnodion dogfennau a ddelir gan Lywodraeth Cymru neu ysgrifenyddiaeth y CPG hefyd roi mewnwelediad i a ddefnyddiwyd eu gwybodaeth neu eu cyngor. Felly, dylai'r timau hyn ddechrau cofnodi ac olrhain pa wybodaeth neu gyngor sydd wedi'i roi ac yna, lle bo hynny'n bosibl, a gafodd hyn ei weithredu neu ei ddefnyddio gan gyrff cyhoeddus.

### 4.1.5. MO2: Gweledigaeth gyffredin ymhlith partneriaid cymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus ar feysydd o ddiddordeb cydfuddiannol, beth yw partneriaethau cymdeithasol a sut y gellir eu gweithredu

Ni thrafodwyd y canlyniad hwn yn benodol yn y gweithdy ond cafwyd trafodaethau cysylltiedig.

Defnyddir y term 'meysydd diddordeb cydfuddiannol' hefyd yn MO1 yn y model rhesymeg CPG. Diffiniodd cyfranogwyr hyn fel cynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr yn nodi amcanion ar y cyd, a phynciau oedd y rhai y mae'r ddau yn nodi eu bod yn bwysig. Mae'r ddau barti wedyn yn gallu cyflwyno'r pynciau hyn i'w trafod. Mae hyn yn gwrthwynebu cynrychiolwyr cyflogwyr neu weithwyr yn cyflwyno eu barn nhw yn unig. Byddai hon yn broses ragweithiol, yn hytrach nag un adweithiol.

O ran 'beth yw partneriaethau cymdeithasol a sut y gellir eu gweithredu', mae hyn yn dilyn y canlyniadau tymor byr ynghylch bod yn glir ynglŷn â nodau a ffiniau'r Ddeddf (SO2) a gwell dealltwriaeth o ffyrdd o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac arferion gorau (SO3).

Gallai hunan-adrodd drwy gasglu data sylfaenol gyda phartneriaid cymdeithasol ganfod a oes 'gweledigaeth gyffredin' ar draws cynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr mewn cyrff cyhoeddus ar feysydd o ddiddordeb a diffinio a gweithredu gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol.

### 4.1.6. 'SO4: Mae cysylltiadau yn cael eu meithrin rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, rhwng cyrff cyhoeddus, ac o fewn cyrff cyhoeddus ar draws partneriaid cymdeithasol (cyflogwyr, gweithwyr)' ac 'MO3: Cryfhau cysylltiadau a chyfathrebu rhwng partneriaid cymdeithasol; rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus, rhwng cyrff cyhoeddus, ac o fewn cyrff cyhoeddus ar draws partneriaid cymdeithasol'

Mae'r canlyniadau hyn yn ymwneud â'i gilydd, lle mae cysylltiadau'n cael eu hadeiladu yn y tymor byr, ac yn parhau i ddatblygu a chryfhau yn y tymor canolig.

#### 4.1.6.1. Rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus

Gellid dangos hyn drwy ymgysylltu cyrff cyhoeddus â deunyddiau a digwyddiadau a ddatblygwyd gan y tîm ymgysylltu a chyfathrebu. Er enghraifft, ymgysylltu â'r fenter hyrwyddwyr, neu gyda chymorth pwrpasol a gynigir gan y tîm (megis cyflwyniadau, cyfarfodydd, offer hunanasesu).

Hefyd, gellid dangos hyn drwy gyrff cyhoeddus yn estyn allan yn rhagweithiol at Lywodraeth Cymru gyda chwestiynau am y Ddeddf.

#### 4.1.6.2. Rhwng cyrff cyhoeddus

Gellid dangos hyn drwy waith ymgysylltu cyrff cyhoeddus yn y fenter hyrwyddwyr, lle mae cyrff cyhoeddus yn cael eu paru i annog dysgu gan gymheiriaid.

#### 4.1.6.3. O fewn cyrff cyhoeddus ar draws partneriaid cymdeithasol (gweithwyr, cyflogwyr)

Mae MO3 yn y DPG yn adlewyrchu MO2 yn y model rhesymeg CPG 'cysylltiadau a chyfathrebu cryfach rhwng partneriaid cymdeithasol (Gweinidogion Cymru, cyflogwyr, gweithwyr)'. Yn seiliedig ar drafodaethau cysylltiedig, gellir dangos tystiolaeth o gysylltiadau cryfach rhwng partneriaid cymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus drwy ddatblygu safbwyntiau ar y cyd, yn hytrach na safbwyntiau ar wahân rhwng cyflogwyr a gweithwyr. Efallai y byddant hefyd yn dechrau dangos rhai o'r egwyddorion partneriaeth gymdeithasol (DPG LO3; cydweithredu, parch, ymddiriedaeth).

#### 4.1.6.4. Mesur

Byddai mesur 'rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus' a 'rhwng cyrff cyhoeddus' yn dibynnu ar gofnodion a ddelir gan dîm ymgysylltu Llywodraeth Cymru o'r deunyddiau a'r digwyddiadau neu'r cyfarfodydd a ddatblygwyd. Hefyd, olrhain pa gyrff cyhoeddus sydd wedi defnyddio'r rhain ac unrhyw adborth a gafwyd. Yn ogystal, unrhyw ymholiadau a geir gan y tîm.

Ar draws pob math o gysylltiad, byddai angen casglu data sylfaenol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, a phartneriaid cymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus.

### 4.1.7. MO4: Mae gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol yn cyfrannu at gyrff cyhoeddus yn datblygu polisïau sy'n ystyried anghenion y gweithlu

Ni fyddai'r adroddiadau DPG o reidrwydd yn manylu ar y ffaith bod gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol am amcanion llesiant wedi arwain at newidiadau canlyniadol mewn polisïau, a beth oedd y newidiadau hyn.

Cwestiynwyd y priodoli ar gyfer y canlyniad hwn hefyd, gan fod llawer o bobl yn ymgynghori ar newidiadau mewn polisïau. Fodd bynnag, mae'r canlyniad yn nodi bod y gwaith partneriaeth gymdeithasol yn gyfraniad, yn hytrach na ffactor ar ei ben ei hun.

Felly, byddai casglu data sylfaenol gyda chynrychiolwyr undebau llafur yn bwysig i ganfod a yw llais gweithwyr mewn penderfyniadau strategol wedi cyfrannu at newidiadau mewn polisïau. Adroddwyd mai 'cynrychiolwyr cangen' oedd y lefel fwyaf priodol i'w chynnwys mewn gwerthusiad gan eu bod yn cael eu hethol gan aelodau, felly byddent yn cynrychioli llais y gweithwyr ac yn mynychu cyfarfodydd strategol. Gall cynrychiolwyr ar lefel ranbarthol fod yn briodol hefyd. Byddai angen casglu data sylfaenol gydag ochr 'cyflogwr' y bartneriaeth gymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus hefyd.

### 4.1.8. LO3: Cyflawni egwyddorion partneriaeth gymdeithasol mewn ffyrdd o weithio mewn cyrff cyhoeddus

Yr egwyddorion yw:

- cydweithredu; ymrwymiad ar y cyd i lwyddo
- parch; cydnabyddiaeth gydfuddiannol o fuddiannau ac arbenigedd cyfreithlon (a allai fod yn wahanol)
- ymddiriedaeth; didwylledd, tryloywder
- llais a chyfranogiad; gwybodaeth, ymgynghori ac ymgysylltu rhagweithiol ac amserol
- enillion cydfuddiannol; canlyniadau gwaith teg, a (fel LO1) mwy o lesiant a gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus

Ystyriwyd bod yr egwyddorion hyn yn berthnasol i gyrff cyhoeddus, ac i Lywodraeth Cymru drwy'r CPG.

Trafododd cyfranogwyr y byddai'r egwyddor cydweithredu yn cael ei ddangos gan weithwyr a chyflogwyr 'yn dod at y bwrdd' gydag ymrwymiad a pharodrwydd i ddod o hyd i dir cyffredin, yn hytrach na chanolbwyntio ar eu buddiannau eu hunain yn unig. Trafododd y cyfranogwyr hefyd gynrychiolwyr gweithwyr â mewnbwn ystyrlon a chyfartal, yn hytrach na chysylltiad rhiant gyda'r cyflogwr. Yn y strwythur CPG teirochrog, byddai gweithwyr a chyflogwyr yn cyfathrebu’n wirioneddol, yn hytrach na bod Llywodraeth Cymru yn gyfryngwr.

Byddai parch yn cael ei ddangos drwy gydnabyddiaeth gan weithwyr a chyflogwyr nad oes rhaid iddynt gytuno a thrwy greu cyd-destun sy'n caniatáu i bobl anghytuno.

Byddai ymddiriedaeth yn cael ei ddangos drwy gyflogwyr yn dod â chynrychiolwyr gweithwyr i mewn i strwythurau gwneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth gyda chynrychiolwyr gweithwyr sy'n gyfrinachol. Hefyd, rhannu gwybodaeth na fyddai o reidrwydd wedi cael ei rhannu o'r blaen (megis gwybodaeth gyllidebol). Roedd cyfranogwyr yn cydnabod y byddai cynrychiolwyr gweithwyr yn debygol o fod angen dod i arfer â chael y math hwn o wybodaeth a sut i'w dehongli.

Byddai llais a chyfranogiad yn cael ei ddangos drwy gynrychiolwyr gweithwyr yn cael gwybodaeth yn gynnar. Hefyd, eu bod yn derbyn digon o wybodaeth cyn cyfarfodydd i'w galluogi i gyfrannu'n llawn at drafodaethau, gyda digon o amser. Yn ogystal, yn hytrach na chynnig rhywbeth i gynrychiolwyr gweithwyr ei gymeradwyo yn unig, byddai disgwyl i atebion gael eu datblygu ar y cyd. Mae'r elfennau hyn yn cyd-fynd â'r 'Gunning Principles' (1985) ar gyfer ymgynghori.

Unwaith eto, byddai'r egwyddorion hyn yn cael eu dangos drwy adroddiadau DPG. Hefyd, yn y ffordd mae'r adroddiadau hyn yn cael eu datblygu. Lle caiff adroddiadau eu hysgrifennu gan y cyflogwr a'u cymeradwyo gan gynrychiolwyr gweithwyr yn y lle cyntaf, dylai hyn symud tuag at adroddiad sy'n cael ei gynhyrchu ar y cyd. Er mwyn deall sut mae adroddiadau'n cael eu llunio, byddai angen i werthuswyr ddefnyddio dulliau casglu data sylfaenol gyda chynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr.

Er mwyn cyflawni'r egwyddorion hyn, mae angen dealltwriaeth gyson o gylch gwaith partneriaeth gymdeithasol o fewn y Ddeddf. Fel y nodwyd yn SO2 a SO3, adroddodd cyfranogwyr fod rhywfaint o ddealltwriaeth anghyson ar hyn o bryd. Byddai angen casglu data sylfaenol, o bosibl gan gynnwys asesiad hunan-adrodd o ddealltwriaeth o bartneriaeth gymdeithasol a'r Ddeddf gyda phartneriaid cymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus.

Ffordd arall a awgrymwyd i ddangos bod yr egwyddorion hyn yn cael eu cyflawni oedd drwy bennu a yw'r partneriaid cymdeithasol wedi dangos eu bod yn parhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ar osod amcanion a phenderfyniadau strategol yn ystod ac ar ôl materion cysylltiadau diwydiannol (megis streiciau, trafodaethau cyflog). Roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai'r gallu hwn i wahanu'r pethau hyn ('gwisgo hetiau gwahanol') yn dangos ymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol. Rhoddodd cyfranogwyr yn y gweithdy rai enghreifftiau o gyrff cyhoeddus lle mae hyn wedi'i ddangos. Dylai swyddogion PGCGT barhau i gofnodi'r math hwn o wybodaeth gan y byddai hyn yn ddefnyddiol i werthuswr yn y dyfodol. Byddai angen i werthuswyr hefyd ddefnyddio dull casglu data sylfaenol gyda chynrychiolwyr gweithwyr i ddeall materion cysylltiadau diwydiannol ac a yw'r rhain yn effeithio ar bartneriaeth gymdeithasol o fewn y cyrff cyhoeddus.

#### 4.1.9. LO4: Mae partneriaeth gymdeithasol wedi'i hymwreiddio wrth wneud penderfyniadau strategol o fewn cyrff cyhoeddus

Mae'r canlyniad tymor hir hwn yn dilyn SO5 a MO1. Y gwahaniaeth i LO4 yw'r 'ymwreiddio', fel mai partneriaeth gymdeithasol yw’r dewis 'diofyn' dros amser a’i fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson wrth osod amcanion llesiant a gwneud penderfyniadau strategol am gamau i gyflawni'r amcanion hyn. Byddai’r dull mesur hefyd yr un fath ag a adroddwyd yn SO5 a MO1.

#### 4.1.10. LO5: Gall penderfyniadau strategol sy'n ystyried anghenion y gweithlu drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol (MO4) arwain at weithleoedd mwy cyfartal a chydweithredol o fewn cyrff cyhoeddus (fel LO3). Gall y gwelliannau hyn gael eu hadlewyrchu mewn perfformiad sefydliadol gwell

Enghreifftiau o elfennau o berfformiad sefydliadol:

- gwella llesiant, morâl, gwydnwch gweithwyr
- trosiant staff is/cyfraddau cadw gwell
- llai o streiciau, er enghraifft, drwy ymgysylltu â gweithwyr o'r cychwyn cyntaf i osgoi cyrraedd y cam hwn
- llai o ddisgyblu, er enghraifft, drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol i adolygu prosesau disgyblu

Trafodir perfformiad sefydliadol hefyd yn LO3 ar gyfer gwaith teg.

##### 4.1.10.1. Llesiant, morâl a gwydnwch

Trafododd cyfranogwyr y byddai'r elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn data salwch staff a fyddai'n cael ei gadw gan adrannau AD mewn cyrff cyhoeddus.

Dangosodd chwiliad rhagarweiniol fod llawer o gyrff cyhoeddus (tua 29) yn cyhoeddi data yn ymwneud â salwch. Roedd data'n cael ei gyhoeddi bob blwyddyn fel arfer ac yn cynnwys mesurau fel diwrnodau cyfartalog a gollwyd i salwch a chyfraddau absenoldeb salwch wedi'u mynegi fel canran. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynhyrchu amcangyfrifon o absenoldeb salwch yn y farchnad lafur, gan gynnwys ar gyfer y sector cyhoeddus, er bod hyn yn cael ei gyhoeddi ar gyfer y DU, ac nid Cymru yn benodol.

Er nad yw'n cael ei drafod yn y gweithdy, gellir casglu mesurau eraill o lesiant, morâl a gwydnwch drwy arolygon staff a gynhelir mewn cyrff cyhoeddus. Gallai'r arolygon hyn, er enghraifft, gynnwys mesurau fel y rhai a ddefnyddiwyd yn arolwg pobl y Gwasanaeth Sifil ar lesiant gweithwyr (GOV.UK, 2024). Mae'r rhain yn hunanasesiad o foddhad bywyd, teimlo bod pethau mewn bywyd yn werth chweil, hapusrwydd, gorbryder, iechyd meddwl ac iechyd corfforol.

##### 4.1.10.2. Trosiant a chyfraddau cadw

Byddai trosiant yn cael ei ddal gan gyrff cyhoeddus. Dangosodd chwiliad rhagarweiniol fod tua 16 o gyrff cyhoeddus wedi cyhoeddi data trosiant. Roedd y data cyhoeddedig yn ganran o drosiant blynyddol fel arfer, er ei fod weithiau'n ganran cadw neu nifer y gweithwyr sydd wedi ymuno ac ymadael.

Mae trosiant hefyd yn cael ei gadw ar y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau yn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cwmpasu tua 42 o'r cyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, dim ond ciplun am un mis y flwyddyn yw hwn. Mae cyfyngiadau llym hefyd ar rannu a defnyddio'r data hwn. Felly, credwyd mai cael cyfraddau trosiant a chadw yn uniongyrchol gan gyrff cyhoeddus oedd yr opsiwn mwyaf priodol.

#### 4.1.10.3. Streiciau a disgyblu

Adrannau AD cyrff cyhoeddus fyddai’n cadw'r wybodaeth hon.

#### 4.1.10.4. Heriau ar gyfer metrigau perfformiad sefydliadol yn LO5

Gan fod y metrigau a drafodir yn cael eu dal gan gyrff cyhoeddus, y prif fater a ragwelir yw rhannu data. Os nad yw’n cael ei gyhoeddi, mae'n annhebygol y byddai gwerthuswr yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth hon a byddai'n ddarostyngedig i gytundebau gyda chyrff cyhoeddus. Byddai hefyd yn dibynnu ar yr hysbysiad preifatrwydd gwreiddiol y casglwyd y data oddi tano. Lle maent yn cael eu cyhoeddi, bydd amseriad y cyhoeddi yn amrywio, gan effeithio ar gymhariaeth.

Mater arall, fel y trafodwyd ar gyfer data salwch a throsiant, yw bod y metrigau a ddefnyddir i fesur cysyniadau yn anghyson ar draws cyrff cyhoeddus ac yn debygol o gael eu casglu a'u cyfrifo mewn gwahanol ffyrdd sy'n effeithio ar gymhariaeth.

Byddai angen i unrhyw fetrigau gael eu cwmpasu gan werthuswr yn y dyfodol.

Dywedodd cyfranogwyr fod y canlyniad hwn ymhellach i ffwrdd o'r Ddeddf ac na fyddai modd priodoli'r Ddeddf i'r elfennau hyn. Dylid ystyried unrhyw un o'r metrigau hyn fel elfen gyfunol yn unig.

Byddai defnyddio dulliau ansoddol i ategu'r metrigau hyn yn bwysig, er mwyn canfod a yw cyrff cyhoeddus yn ystyried bod arferion gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol yn cyfrannu at y metrigau hyn. Hefyd, i ddisgrifio pa ddigwyddiadau eraill sydd wedi digwydd o fewn y corff cyhoeddus, a dylanwadwyr cyd-destunol ehangach, i arwain at unrhyw newidiadau mewn data.

## 4.2. Canlyniadau'r CPG

### 4.2.1. SO1: Mae aelodau’r CPG yn deall disgwyliadau ac mae ganddynt ymrwymiad ar y cyd i weithio fel grŵp

Ni thrafodwyd y canlyniad hwn, ond mae trafodaethau cysylltiedig yn dangos y gellid deall 'ymrwymiad ar y cyd' yn nhermau ymddygiad yr aelodau a'r safonau a'r disgwyliadau y maent yn cytuno iddynt gyda'i gilydd.

Gellid mesur hyn drwy adolygu cofnodion cyfarfodydd y CPG a thrwy gasglu data sylfaenol gydag aelodau’r CPG.

### 4.2.2. SO2: Sianel ffurfiol lle mae partneriaid cymdeithasol yn cymryd rhan mewn gwaith partneriaeth a deialog gyda Gweinidogion Cymru ar weithredu a datblygu polisi

Ni thrafodwyd y canlyniad hwn, ond mae trafodaethau cysylltiedig yn dangos y byddai hyn yn cael ei ddangos drwy sefydlu'r CPG a'i weithredu. Felly, gellid ei fesur drwy adolygu cofnodion cyfarfodydd y CPG.

### 4.2.3. SO3: Mae gan y CPG ddigon o brofiad a gwybodaeth i baratoi gwybodaeth a chyngor effeithiol i Weinidogion Cymru, sy'n golygu bod y CPG yn darparu cyngor: cadarn, awdurdodol, a lle y bo'n berthnasol, wedi'i gostio, wedi'i arfarnu ar gyfer risg ac wedi'i asesu'n llawn ar gyfer ei effeithiau posibl

Roedd cyfranogwyr yn diffinio 'cadarn' fel cyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy’n mwynhau cefnogaeth mwyafrif. Roedd cyfranogwyr yn diffinio 'awdurdodol' fel cyngor y gellir ei ystyried yn gynrychiadol o safbwyntiau pwy mae aelodau’r CPG yn eu cynrychioli (sectorau cyflogwyr a gweithwyr), yn hytrach na bod yn seiliedig ar farn bersonol yr aelodau.

Er mwyn mesur SO3, nododd cyfranogwyr y byddai holl wybodaeth a chyngor y CPG yn cael eu cyhoeddi. Byddai hyn yn cael ei adolygu gan werthuswr yn erbyn y meini prawf a restrir yn y canlyniad. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw bapurau a baratowyd gan is-grwpiau’r CPG a chofnodion y CPG. Nodwyd bod cofnodion y CPG yn cynrychioli cyngor mwy anffurfiol na fyddai'n cynnwys unrhyw beth cyfrinachol, er y byddai cofnod mewnol o'r cofnodion cyfrinachol.

### 4.2.4. SO4: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn y CPG yn glir ynglŷn â nodau a ffiniau'r Ddeddf (y DPG, y CPG a gwaith teg)

Ni thrafodwyd y canlyniad hwn, ond roedd trafodaethau cysylltiedig yn cynnwys achosion lle roedd yn ymddangos nad oedd partneriaid cymdeithasol o fewn y CPG yn deall ffiniau'r Ddeddf yn llawn. Yn benodol, nodwyd nad yw'r CPG yn gorff ar gyfer y cyhoedd, sy'n golygu na fydd yn rhoi cyngor neu wybodaeth ar gyfer y cyhoedd. Mae ei rôl wedi'i chyfyngu i'w gylch gwaith statudol. Dyma un maes dealltwriaeth y gellid ei asesu.

Gellid mesur newidiadau yn nealltwriaeth aelodau’r CPG drwy ddefnyddio cofnodion y CPG a thrwy gasglu data sylfaenol gydag aelodau’r CPG.

### 4.2.5. SO5: Mae gweithrediad y CPG yn cael ei fireinio lle bo hynny'n briodol

Ni thrafodwyd y canlyniad hwn yn benodol yn y gweithdy. Mae'n cyfeirio'n uniongyrchol at ganlyniad y gweithgareddau a'r allbynnau ar gyfer y CPG yn adolygu ei weithgaredd ei hun. Gellid dod o hyd i dystiolaeth ar gyfer deall sut mae gweithrediad y CPG wedi'i fireinio drwy adolygu dogfennau perthnasol sy'n manylu ar y broses hon a thrwy gasglu data sylfaenol gydag ysgrifenyddiaeth y CPG.

### 4.2.6. MO1: Mae partneriaid cymdeithasol o fewn y CPG yn gweithio'n adeiladol i ddarparu cyngor ar feysydd diddordeb cydfuddiannol

Cyfeiriodd cyfranogwyr at Gyngor Partneriaeth y Gweithlu fel enghraifft gadarnhaol o MO1. Nododd y cyfranogwyr fod yna wahanol elfennau i'r model hwn, gan gynnwys: cydweithio a nodi meysydd diddordeb cydfuddiannol, meithrin ymrwymiad drwy'r diddordeb cydfuddiannol hwn i feithrin trafodaeth agored, a chynhyrchu cyngor ar y cyd. Mae effeithiolrwydd ac ansawdd y cyngor ar ddeallusrwydd artiffisial wedi'i ddangos gan yr holl bartneriaid cymdeithasol sy'n ei dderbyn.

Felly, nododd cyfranogwyr wahanol fesurau y gellid eu defnyddio i benderfynu a yw partneriaid cymdeithasol o fewn y CPG wedi bod yn gweithio'n adeiladol. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys:

- bod yn rhagweithiol wrth godi eitemau agenda a nodi amcanion neu bynciau ar y cyd lle mae gan bob partner ddiddordeb (yn hytrach na chyflwyno materion i'r CPG yn annibynnol ar ei gilydd), gyda'r bwriad o weithredu arnynt (yn hytrach na dim ond i gael diweddariad)
- cynhyrchu cyngor rheolaidd, ffurfiol, ar y cyd i Weinidogion Cymru, a allai fod ar ffurf allbynnau megis papurau ac adroddiadau, ac a ddylai fod yn gadarn (fel SO3)
- newid o roi cyngor unigol ac adweithiol i Weinidogion Cymru yn ystod cyfarfodydd, i gyngor mwy cyfunol
- parodrwydd partneriaid cymdeithasol i sefydlu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd is-grŵp

Nododd cyfranogwyr sawl her o ran bodloni'r canlyniad. Mae'r CPG yn cyfarfod sawl gwaith y flwyddyn, sy'n golygu ei bod yn cymryd amser i'r ymddygiadau ddod i'r amlwg. Mae rhai sefydliadau sy'n cymryd rhan yn fach sy'n golygu bod gallu aelodau i ymgysylltu â'r CPG yn ogystal â'u 'swyddi bob dydd' yn gyfyngedig. Efallai nad yw'r aelodau yn gyfarwydd â natur gyflym llunio polisïau nad yw'n gadael llawer o amser i ymgynghori, felly mae angen i aelodau ddod i arfer â darparu cyngor yn ystod cyfarfodydd heb ddarllen deunyddiau ymlaen llaw. Her arall oedd dylanwad cyfyngedig y CPG sy'n cael ei gyfyngu gan ei natur statudol ac adnoddau cyfyngedig ei aelodau.

Mae partneriaid cymdeithasol hefyd yn cynrychioli sefydliadau gwahanol iawn sydd â gwahanol ddulliau gweithredu a ffurfiau o awdurdod. Er enghraifft, mae gan bartneriaid cymdeithasol o undebau llafur fandad i gynrychioli eu haelodau, ond nid oes gan bartneriaid cymdeithasol sy'n cynrychioli cyflogwyr unrhyw fandad o'r fath. Ar ben hynny, gall

cynrychiolwyr undebau llafur ddod â safbwyntiau tebyg, tra bod safbwyntiau cyflogwyr yn tueddu i fod yn fwy gwahaniaethol.

Yn olaf, nododd cyfranogwyr hefyd y gall fod problemau gyda chynhyrchu cyngor defnyddiol. Efallai y bydd partneriaid cymdeithasol yn gallu cytuno ar bynciau sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Fodd bynnag, gall eu buddiannau sy’n gwrthdaro ynglŷn â'r pwnc olygu y gall yr unig fath o gyngor y mae pob partner cymdeithasol yn fodlon ymrwymo iddo fod yn amwys, sy'n cyfyngu ar werth ymarferol.

### 4.2.7. MO2: Cysylltiadau a chyfathrebu cryfach rhwng partneriaid cymdeithasol (Gweinidogion Cymru, cyflogwyr, gweithwyr)

Mae cyfranogwyr yn awgrymu y byddai cysylltiadau chyfathrebu cryfach rhwng partneriaid cymdeithasol yn cael eu gweld drwy weithio ar y cyd ar feysydd diddordeb cydfuddiannol i ddarparu cyngor y cytunwyd arno ar y cyd (fel MO1). Byddai perthynas waith gryfach rhwng partneriaid cymdeithasol hefyd yn cael ei weld drwy rai o'r egwyddorion partneriaeth gymdeithasol (DPG LO3; cydweithredu, parch, ymddiriedaeth).

Gellid mesur hyn drwy gasglu data sylfaenol; hunan-adrodd gan gynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr ynghylch a ydynt yn teimlo bod ganddynt gysylltiadau a chyfathrebu cryfach. Byddai hyn ochr yn ochr â mesurau ar gyfer CPG MO1 a DPG LO3.

### 4.2.8. MO3: Mae’r CPG yn deall newidiadau dros amser yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r DPG ac yn gweithredu gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol (drwy adroddiadau)

Ni ofynnwyd i gyfranogwyr am y canlyniad hwn, ond mae trafodaethau cysylltiedig yn dangos y gellid mesur y canlyniad hwn gan ddefnyddio cofnodion y CPG, cofnodion dogfennol o'i ddadansoddiad o adroddiadau cyrff cyhoeddus, a chofnodion dogfennol o unrhyw gyngor y mae'r CPG yn ei ddarparu.

### 4.2.9. LO3: Mae barn gweithwyr a chyflogwyr yn helpu i lywio’r gwaith o gyflawni polisi (drwy strwythur teirochrog y CPG)

Ni thrafodwyd y canlyniad hwn. Yn seiliedig ar drafodaethau cysylltiedig, gellid ei fesur drwy adolygu cofnodion y CPG. Gellid defnyddio adroddiadau DPG blynyddol gan Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus i asesu a yw barn gweithwyr a chyflogwyr a gyflwynir drwy'r CPG yn helpu i lywio’r gwaith o gyflawni polisi. Ar ben hynny, byddai cofnodion dogfennol am unrhyw wybodaeth a chyngor neu newidiadau polisi y mae Gweinidogion Cymru wedi'u gwneud y mae cyngor y CPG wedi cyfrannu atynt yn ddefnyddiol.

Dywedodd cyfranogwyr y byddai priodoli newidiadau i lunio polisïau o ganlyniad i gyngor gan bartneriaid cymdeithasol yn anodd, oni bai bod Gweinidog Cymru neu gorff cyhoeddus wedi datgan ar gofnod ei fod yn gwneud newidiadau oherwydd cyngor gan y CPG.

### 4.2.10. Sut allwn ni wybod bod y CPG yn adolygu adroddiadau cyrff cyhoeddus yn atgyfnerthu'r DPG?

Mae'r model rhesymeg CPG yn tynnu sylw at ble mae'n cyfrannu at effeithiau tymor canolig a hir yn y model rhesymeg DPG (MO1, LO3, LO4, LO5).

Er mwyn mesur effaith adolygiad y CPG o adroddiadau DPG blynyddol cyrff cyhoeddus, dywedodd cyfranogwyr y byddai modd 'olrhain' effaith yr adolygiad dros amser i sefydlu a yw cyrff cyhoeddus wedi bod yn gweithredu ar gyngor y CPG. Byddai hyn drwy edrych yn y flwyddyn ganlynol ar yr hyn y mae cyrff cyhoeddus wedi'i wneud neu heb ei wneud yng nghyd-destun y cyngor a roddir. Gallai'r cyngor ddod gan Weinidogion Cymru, a gwybodaeth wedi'i datblygu gan swyddogion ymgysylltu PGCGT Llywodraeth Cymru.

Gellid canfod hyn hefyd drwy gasglu data sylfaenol gydag ysgrifenyddiaeth y CPG, aelodau'r CPG a'r rhai o fewn cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â phrosesau partneriaeth gymdeithasol.

Un o'r heriau a nodwyd gan gyfranogwyr oedd ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyflwyno eu hadroddiad DPG blynyddol "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol" (y Ddeddf, adran 18 (legislation.gov.uk). Os oes oedi sylweddol wrth gyflwyno adroddiadau, gall olygu bod cyrff cyhoeddus wedi dechrau'r flwyddyn nesaf o weithredu cyn iddynt gael adborth a chyngor ar y flwyddyn flaenorol. Teimlwyd y byddai angen adroddiadau ar y CPG erbyn tua mis Rhagfyr er mwyn gwireddu'r canlyniad hwn, gan y byddai hyn yn rhoi amser i'r CPG wneud sylwadau ac i'r cyrff cyhoeddus weithredu'r cyngor cyn y flwyddyn adrodd nesaf (sy'n dechrau ar 1 Ebrill).

## 4.3. Canlyniadau'r DPG a'r CPG

Mae canlyniadau hirdymor LO1 a LO2 yr un fath yn y modelau rhesymeg DPG ac CPG, lle byddai'r ddwy ran o'r Ddeddf gyda'i gilydd yn cyfrannu at y canlyniadau hyn. Felly, bydd mesur yn cael ei drafod gyda'i gilydd.

### 4.3.1. LO1: Cyfraniadau at wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) yng Nghymru

Mynegodd cyfranogwyr y farn y gallai'r DPG a'r CPG gyfrannu at welliannau yn y dangosyddion llesiant cenedlaethol sy’n cwmpasu llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.

Nododd cyfranogwyr sawl mecanwaith a allai arwain at LO1. Ar gyfer y CPG, gallai hyn olygu bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â'r CPG ar benderfyniadau o natur strategol mewn camau i gyflawni eu hamcanion llesiant (y rhaglen ddeddfwriaethol, y gyllideb, yr amcanion llesiant). Yn ei dro, gall y CPG ddarparu cyngor y mae Gweinidogion Cymru yn ei ddefnyddio wrth lunio polisïau, ac mae'r polisïau neu'r newidiadau i bolisi sy'n deillio o hynny yn cyfrannu at wella llesiant pobl yng Nghymru.

Ar gyfer y DPG, gallai cyrff cyhoeddus sy'n gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ar eu hamcanion llesiant wella sut y maent yn cynyddu eu cyfraniad at y nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Gallai hyn yn ei dro gyfrannu at wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru. Yn gysylltiedig â hyn, gallai'r DPG arwain at welliannau mewn llesiant yng Nghymru pe bai cyflogwyr sector cyhoeddus yn cael cyngor gan gynrychiolwyr gweithwyr drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac mae hyn yn arwain at wella dulliau llunio polisïau ac, yn y pen draw, darparu gwasanaethau.

Er mwyn mesur y canlyniad hwn ar gyfer y DPG a'r CPG, gellid defnyddio'r dangosyddion llesiant cenedlaethol, sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad blynyddol Llesiant Cymru.

Ar gyfer y CPG yn benodol, gallai adroddiad DPG blynyddol Gweinidogion Cymru ddarparu arwydd ynghylch a wnaethant newidiadau oherwydd cyngor gan y CPG. Hefyd, gellid nodi'r meysydd pwnc a drafodir yn y CPG a rhoi ffocws ar a yw'r CPG wedi cael dylanwad ar bolisi yn y meysydd pwnc penodol hyn dros amser. Ar gyfer y DPG, gallai adroddiadau DPG blynyddol a chynlluniau corfforaethol cyrff cyhoeddus ddarparu rhywfaint o dystiolaeth o sut mae cyngor gan bartneriaid cymdeithasol yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau a chyflawni.

Dylid nodi bod LO1 yn cael ei ddisgrifio fel 'gweledigaeth lefel uchel’. Nid yw'r canlyniadau llesiant tymor hir a nodwyd yn LO1 ymhlith nodau craidd y Ddeddf. Gall y Ddeddf gyfrannu at wireddu'r canlyniadau llesiant hyn, ond mae unrhyw welliannau wedi'u tynnu oddi wrth y Ddeddf. Nododd cyfranogwyr fod priodoli yn broblem ar gyfer LO1 ar gyfer y DPG a'r CPG. Dywedodd cyfranogwyr fod hyn oherwydd bod y dangosyddion llesiant yn ddangosyddion cenedlaethol tymor hir. Felly, bydd yn amhosibl priodoli newidiadau i'r dangosyddion llesiant hyn yn uniongyrchol i'r CPG neu gyrff cyhoeddus sy'n cyflawni'r DPG. Ar ben hynny, yr un fath ag LO3 ar gyfer y model CPG, byddai priodoli newidiadau i lunio polisïau sy'n deillio o

gyngor gan bartneriaid cymdeithasol yn anodd oni bai bod Gweinidog Cymru neu gorff cyhoeddus yn nodi'n benodol pa gyngor a ddefnyddiwyd.

### 4.3.2. LO2: Mae'r model partneriaeth gymdeithasol yn gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ledled Cymru

Esboniodd cyfranogwyr fod y lefel genedlaethol yn cyfeirio at y CPG a chyrff cyhoeddus sy'n gweithredu'n genedlaethol. Mae'r lefel ranbarthol yn cyfeirio at gyrff cyhoeddus sy'n gweithredu'n rhanbarthol, megis Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae'r lefel leol yn cyfeirio at gyrff cyhoeddus sy'n gweithredu'n lleol, megis awdurdodau lleol.

Nododd cyfranogwyr hefyd fod gan y CPG ddwy rôl. Y rôl gyntaf yw dangos sut y gall partneriaeth gymdeithasol weithredu ar lefel genedlaethol. Yr ail yw darparu cyngor ac adborth ar adroddiadau DPG cyrff cyhoeddus, sydd yn ei dro yn gallu dylanwadu ar sut mae partneriaeth gymdeithasol yn gweithredu o fewn cyrff cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Gellid mesur sut mae'r DPG yn gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol drwy adroddiadau DPG blynyddol cyrff cyhoeddus. Gellid defnyddio cyngor y CPG ar yr adroddiadau hyn i fesur sut mae'r CPG yn cefnogi gweithrediad y DPG (ac felly'r model partneriaeth gymdeithasol) ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Byddai hyn yn golygu adolygu adroddiadau blynyddol olynol gan gyrff cyhoeddus ar bob lefel i olrhain a ydynt yn gweithredu cyngor y CPG dros amser.

## 4.4. Canlyniadau gwaith teg

Mae canlyniadau penodol ar gyfer gwaith teg mewn caffael, na fydd y dulliau o'u mesur yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn. Byddai angen datblygu hyn pan fydd gwaith gweithredu elfennau caffael y Ddeddf wedi dechrau, a bod model rhesymeg 2023 ar gyfer caffael wedi'i ddiweddaru.

### 4.4.1. SO1: Mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid cymdeithasol wedi gwella dealltwriaeth o waith teg a'i berthynas â llesiant

Ni ofynnwyd i gyfranogwyr y gweithdy am y canlyniad hwn yn benodol. Mae'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru, a chynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr. O ystyried trafodaethau ehangach, gellir dangos y canlyniad hwn drwy gofnodion cyfarfodydd sy'n dangos trafodaethau'r CPG ac is-grwpiau ynghylch gwaith teg. Hefyd, unrhyw allbynnau cysylltiedig megis papurau a gwybodaeth neu gyngor a gynhyrchir.

### 4.4.2. SO2: Mae cyrff cyhoeddus wedi gwella dealltwriaeth o'r camau ymarferol y gallant eu cymryd i hyrwyddo gwaith teg

Ni ofynnwyd i gyfranogwyr y gweithdy am y canlyniad hwn yn benodol. O ystyried trafodaethau ehangach, nid oes modd mesur dealltwriaeth mewn cyrff cyhoeddus yn flaenorol (llinell sylfaen), i gymharu â nawr a dangos sut mae hyn wedi gwella.

Fel SO2 a SO3 yn y model rhesymeg DPG sydd hefyd yn cyfeirio at welliannau mewn dealltwriaeth, gellid cofnodi hyn drwy enghreifftiau hysbys o gyrff cyhoeddus yn ymgysylltu â'r allbynnau o fewn y model rhesymeg (megis OP1: Adnoddau Llywodraeth Cymru ar waith teg, megis astudiaethau achos a chanllawiau arferion da). Byddai angen i enghreifftiau gael eu cofnodi a'u holrhain gan dîm yn Llywodraeth Cymru. Yn bennaf, bydd y mesur yn dibynnu ar ddulliau hunan-adrodd gan gyrff cyhoeddus drwy gasglu data sylfaenol.

#### 4.4.3. ‘SO3: Mae cyrff cyhoeddus yn dechrau cymryd camau i weithredu gwaith teg yn unol â'u hamcanion llesiant', 'SO4: Mae cyrff cyhoeddus yn dechrau mabwysiadu dysgu am arferion gorau mewn gwaith teg' ac 'MO4: Ymwreiddio arferion gwaith teg mewn cyrff cyhoeddus’

Mae'r canlyniadau hyn yn rhyng-gysylltiedig, felly byddant yn cael eu trafod gyda'i gilydd. Yn gyffredinol, bydd mesur y canlyniadau hyn yn ymwneud â sut mae arferion wedi esblygu dros amser.

Awgrymodd cyfranogwyr y byddai'r rhain yn cael eu dangos drwy amcanion llesiant cyhoeddedig cyrff cyhoeddus, lle byddent yn dechrau gosod amcanion am waith teg a'r camau i gyflawni'r rhain o dan y nod llesiant 'Cymru lewyrchus’. Hefyd, byddai'n cael ei ddangos yn eu hadroddiad blynyddol ar gynnydd i gyflawni'r amcanion hyn. Yn hanesyddol, mae nifer isel yn cyfeirio at waith teg, felly byddai disgwyl y byddai cyfeiriadau at waith teg yn cynyddu dros amser, yn hytrach na newid sydyn yn y lefelau adrodd.

Gallai'r wybodaeth hon hefyd fod i'w gweld mewn adroddiadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dywedodd cyfranogwyr y byddai hefyd yn bwysig asesu a yw amcanion cyrff cyhoeddus a'r camau i gyflawni'r rhain yn cyd-fynd yn fras â'r camau y gellir eu cymryd i fynd ar drywydd gwaith teg a nodir yng 'nghanllaw i waith teg' Llywodraeth Cymru (2024). Byddai hyn yn darparu agwedd ar ansawdd, felly a yw'r amcanion a'r camau i gyflawni'r rhain yn cyd-fynd â disgwyliadau ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ynghylch gwaith teg, yn hytrach na dim ond a oes amcanion a chamau.

Byddai'n ddefnyddiol i dîm yn Llywodraeth Cymru ddefnyddio eu gwybodaeth am sector a phwnc yn mapio cyd-destun hanesyddol arferion gwaith teg ac amcanion llesiant a chamau sy'n ymwneud â gwaith teg mewn cyrff cyhoeddus. Byddai hyn yn darparu man cychwyn i werthuswr asesu newid dros amser.

Gallai casglu data sylfaenol ategu'r dogfennau, a'r cysylltiadau perthnasol o fewn cyrff cyhoeddus fyddai'r rhai sy'n goruchwylio'r broses amcanion llesiant.

O ran SO4 yn benodol, 'mabwysiadu dysgu am arferion gorau', mae hyn fel 'MO1' yn y model rhesymeg DPG, sy'n cyfeirio at gyrff cyhoeddus sy'n defnyddio mathau penodol o wybodaeth neu gyngor, er enghraifft, drwy’r CPG. Trafododd cyfranogwyr y gallai dysgu hefyd ddigwydd rhwng cyrff cyhoeddus, drwy rannu sut y maent wedi gosod eu hamcanion a'u camau i gyflawni'r rhain. Byddai'n rhaid canfod barn ar yr hyn a arweiniodd at unrhyw newidiadau a welwyd mewn arferion drwy ddulliau hunan-adrodd gan gyrff cyhoeddus drwy gasglu data sylfaenol, er bod cofio hyn yn debygol o fod yn her.

#### 4.4.4. ‘SO5: Meithrin cysylltiadau â phartneriaid cymdeithasol ac eraill yn seiliedig ar egwyddorion partneriaeth gymdeithasol (model y DPG, LO3)', 'MO1: Ymrwymiad cryf i'r system partneriaeth gymdeithasol ac ymrwymiad i waith teg gan bartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill' ac 'MO2: Mae cysylltiadau a ddatblygwyd (SO5) yn parhau i ddatblygu a chryfhau’

##### 4.4.4.1. Diffiniadau

Disgrifiodd cyfranogwyr 'eraill' yn SO5 ac MO1 fel y rhai sydd â diddordeb mewn gwaith teg ond nad ydynt yn ffitio yng nghategorïau cynrychiolydd 'cyflogwr' neu 'weithiwr' partneriaid cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys sefydliadau trydydd sector. Hefyd, 'gweithwyr caffael proffesiynol' y bwriedir iddynt eistedd o fewn is-grŵp caffael y CPG i ddarparu arbenigedd. Mae hwn felly yn ganlyniad sy'n croesi elfennau caffael a CPG y Ddeddf.

Diffiniodd cyfranogwyr 'ymrwymiad cryf i'r system partneriaeth gymdeithasol' (MO1) fel rhywbeth sy’n cael ei ddangos drwy gynnydd tuag at egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn unol ag LO3 yn y model rhesymeg DPG (cydweithredu, parch, ymddiriedaeth, llais a chyfranogiad, enillion cydfuddiannol). Mae hyn hefyd yn disgrifio'r egwyddorion y mae cysylltiadau yn cael eu datblygu arnynt (SO5). Ar ben hynny, ar gyfer 'ymrwymiad i waith teg' (MO1), mae dealltwriaeth gyffredin am yr agenda ar gyfer gwaith teg gan bartneriaid cymdeithasol ac eraill.

Mae MO2 yn deillio o SO5, lle mae'r cysylltiadau a ddatblygwyd i ddechrau yn dod yn gryfach dros amser.

##### 4.4.4.2. Mesur

Er bod y canlyniadau hyn yn cynnwys gwaith teg fel pwnc, maent yn ymwneud mwy ag elfennau eraill y Ddeddf. Mae hyn oherwydd bod gwaith teg, o fewn y Ddeddf, wedi'i gyfyngu i'r newid yn y geiriad yn y nod llesiant 'Cymru lewyrchus’. Mae elfennau'r Ddeddf y mae’r canlyniadau gwaith teg hyn (SO5, MO1, MO2) yn ymwneud â nhw yn cynnwys trafodaeth ar waith teg o fewn y CPG a'i is-grwpiau. Hefyd, cyrff cyhoeddus sy'n gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i osod eu hamcanion llesiant a gwneud penderfyniadau cysylltiedig (gan gynnwys ynghylch gwaith teg).

Felly, ni fyddai'r rhan fwyaf o'r canlyniadau hyn angen eu mesur ar gyfer gwaith teg, gan y byddent yn cael eu cofnodi fel rhan o’r gwaith o fesur canlyniadau mewn modelau rhesymeg eraill.

Byddai'r canlyniadau gwaith teg am gysylltiadau (SO5, MO2) yn cael eu mesur drwy SO4 ac MO3 yn y model rhesymeg DPG, a MO2 yn y model rhesymeg CPG. Disgwylir hefyd y byddai canlyniad cysylltiedig ynglŷn â chysylltiadau yn y model rhesymeg caffael o ran yr is-grŵp caffael CPG y byddai 'eraill' yn ei fynychu.

O ran y canlyniad gwaith teg MO1 sy'n cyfeirio at ymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol, byddai hyn yn cael ei ddangos drwy LO3 yn y model rhesymeg DPG.

Yr elfen y gellid ei mesur yn arbennig yw MO1 'ymrwymiad i waith teg’. Byddai hyn yn cynnwys casglu data sylfaenol i ganfod dealltwriaeth o'r agenda gwaith teg ar draws

cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr (cyrff cyhoeddus, y CPG ac is-grwpiau), ac eraill (megis mynychwyr is-grwpiau ehangach).

Her bosibl wrth asesu cysyniadau megis ymrwymiad yw y gall y rhai sydd ag ymrwymiad cryfach fod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn ymchwil.

#### 4.4.5. MO3: Datblygu sylfaen dystiolaeth gryfach sy'n archwilio manteision llesiant gwaith teg (gan gynnwys gwaith teg mewn data caffael)

Byddai'r canlyniad hwn yn cael ei ddangos fel rhan o elfen gaffael y Ddeddf. Byddai tystiolaeth o waith teg fel elfen o lesiant mewn caffael o fewn dulliau casglu data caffael arferol, a adroddir yn flynyddol. Byddai'r sylfaen dystiolaeth hon yn datblygu dros amser.

Byddai'r canlyniad hwn hefyd yn cael ei ddangos fel rhan o'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer SO3, SO4 ac MO4 yn y model rhesymeg gwaith teg. Mae hyn drwy Lywodraeth Cymru yn meithrin dealltwriaeth dros amser o sut mae gwaith teg yn cael ei ymgorffori yn amcanion llesiant cyrff cyhoeddus a chamau i gyflawni'r rhain.

#### 4.4.6. LO1: Tueddiadau cadarnhaol fel y'u nodir gan ddangosyddion cenedlaethol perthnasol yn adroddiad blynyddol Llesiant Cymru

Mae tri dangosydd sy'n gysylltiedig â gwaith teg wedi'u cynnwys yn y dangosyddion cenedlaethol ac a adroddir yn adroddiad Llesiant Cymru, sef:

- canran y bobl sydd mewn cyflogaeth, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy’n ennill o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol
- y gwahaniaeth cyflog ar gyfer rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd
- cyfran y gweithwyr y mae eu cyflog yn cael ei bennu gan gydfargeinio

### 4.4.7. LO2: Mae cyrff cyhoeddus yn dangos newid parhaus tuag at werthfawrogi tegwch, cynhwysiant ac urddas yn y gwaith

Adroddwyd bod gwerthfawrogi tegwch, cynhwysiant ac urddas yn y gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y canlynol:

- mwy o ddefnydd o arferion gwaith teg
- mwy o ymwybyddiaeth o hawliau gweithwyr
- undebau llafur yn cymryd rhan ragweithiol yn y gwaith o wella gweithle
- data bylchau cyflog

Mae'r 'arferion gwaith teg' yn cyfeirio at y rhai o fewn 'canllaw i waith teg' Llywodraeth Cymru (2024). Fodd bynnag, nid yw'r canllaw hwn yn gynhwysfawr, ac felly byddai angen i arferion penodol sy'n cael eu hystyried fel creu tegwch, cynhwysiant ac urddas yn y gwaith i gyrff cyhoeddus ddeillio o'r ymchwil ei hun.

Ni thrafodwyd ymwybyddiaeth o hawliau gweithwyr yn y gweithdy. Mae'n debygol y byddai angen mesur hyn mewn gweithwyr drwy ddulliau hunan-adrodd, megis arolwg staff. Ni fyddai gofyn i gynrychiolwyr gweithwyr (undebau llafur) yn ddigonol, gan fod natur eu rôl yn golygu na ellir dweud bod eu dealltwriaeth o hawliau yn cynrychioli'r gweithlu ei hun. Fodd bynnag, mae costau a logisteg cynnal arolwg staff ar draws cyrff cyhoeddus yn gwneud hyn yn anymarferol.

Ni thrafodwyd undebau llafur sy'n ymwneud yn rhagweithiol â gwella gweithle yn y gweithdy. Yn seiliedig ar drafodaethau ehangach, mae ymgysylltu rhagweithiol yn cynnwys ymgysylltu yn gynnar ac ym mhob cam, gyda digon o wybodaeth. Mae'n debygol y byddai angen mesur hyn drwy hunan-adrodd, gan gynnwys casglu data sylfaenol gyda chynrychiolwyr undebau llafur a chynrychiolwyr cyflogwyr.

Mae'r bylchau cyflog yn cyfeirio at fylchau cyflog rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd. Fodd bynnag, dim ond y bwlch cyflog rhywedd y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus o dros 250 o weithwyr ei gynhyrchu (Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau) 2017, legislation.gov.uk). Bydd gan y mwyafrif, ond nid pob un, o'r 55 corff cyhoeddus dros 250 o weithwyr (mae chwiliad rhagarweiniol yn awgrymu nad yw tua 15 o gyrff wedi cyhoeddi'r wybodaeth hon). Hefyd, mae hyn yn golygu y bydd cyhoeddi bylchau cyflog anabledd ac ethnigrwydd yn anghyson (mae chwiliad rhagarweiniol yn dangos bod tua 5 corff wedi cyhoeddi bwlch cyflog anabledd neu ethnigrwydd). Er y gellir cael bylchau cyflog rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Swyddfa Ystadegau Gwladol), dim ond sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat lle mae'r sector cyhoeddus yn cynnwys sefydliadau llywodraeth y DU yng Nghymru sy'n gallu rhannu'r data hwn. Felly, byddai hyn yn cynnwys cyrff cyhoeddus nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Ddeddf, sy'n golygu na fydd modd defnyddio'r data at ddibenion gwerthuso.

### 4.4.8. LO3: Mae arferion gwaith teg yn cyfrannu at fanteision penodol i gyrff cyhoeddus fel cyflogwyr ac i'w gweithwyr, a adlewyrchir mewn data sy'n ymwneud â pherfformiad sefydliadol

Mae'r 'arferion gwaith teg' penodol yn cynnwys y rhai yng 'nghanllaw i waith teg' Llywodraeth Cymru (2024). Fodd bynnag, nid yw'r canllaw hwn yn gynhwysfawr, ac felly byddai angen i arferion penodol sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n creu manteision perfformiad sefydliadol i gyrff cyhoeddus ddeillio o'r ymchwil ei hun yn hytrach na chael eu diffinio ymlaen llaw.

Disgrifiwyd perfformiad sefydliadol fel term ymbarél ar gyfer metrigau penodol fel:

- iechyd meddwl a chorfforol a salwch
- cynhyrchiant
- costau recriwtio, cadw a staff

Trafodwyd iechyd meddwl a chorfforol a salwch a chyfraddau cadw yn LO5 ar gyfer y model rhesymeg DPG. I grynhoi, mae'r mesurau hyn yn cael eu dal gan gyrff cyhoeddus. Maen nhw weithiau'n cael eu cyhoeddi.

Ar gyfer cynhyrchiant, cynhyrchir amcangyfrifon ar gyfer cynhyrchiant gwasanaethau cyhoeddus gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, er bod hyn wedi'i gyhoeddi ar gyfer y DU yn unig. Yn fras, mae allbwn yn y sector cyhoeddus fel arfer yn cael ei fesur fel nifer y y gweithgareddau a gyflawnir gan y maes gwasanaeth berthnasol, neu swm y gwariant yn y maes hwnnw.

Mae'r heriau mesur yr un fath â DPG LO5. Mae hyn yn golygu bod cynnwys rhannu data gan gyrff cyhoeddus ar gyfer mesurau nad ydynt wedi'u cyhoeddi yn annhebygol oherwydd natur sensitif pynciau. Hefyd, ar gyfer data a rennir neu a gyhoeddwyd, gall y gallu i gymharu’r data a gedwir gan gyrff cyhoeddus fod yn isel, gyda gwahanol fesurau, dulliau casglu, ac amseroedd casglu. Unwaith eto, fel yr adroddwyd yn DPG LO5, byddai angen i fynediad at y metrigau hyn gael ei gwmpasu gan werthuswr yn y dyfodol.

Mae'r metrigau hyn hefyd yn ddangosyddion lefel uchel, ac nid oes modd priodoli. Mae yna lawer o ffactorau a fyddai'n effeithio ar y metrigau hyn y tu hwnt i'r Ddeddf, a rôl fach yn unig fyddai gan y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys darnau eraill o ddeddfwriaeth, megis Bil Hawliau Cyflogaeth y DU (os caiff ei basio).

Felly, byddai defnyddio dulliau casglu data sylfaenol i ategu'r metrigau hyn yn bwysig, er mwyn canfod a yw cyrff cyhoeddus yn ystyried bod arferion gwaith teg yn cyfrannu at y metrigau hyn. Hefyd, i ddisgrifio pa ddigwyddiadau eraill sydd wedi digwydd o fewn y corff cyhoeddus, a dylanwadwyr cyd-destunol ehangach, i arwain at unrhyw newidiadau mewn data.

### 4.4.9. Crynodeb ar gyfer canlyniadau tymor hir gwaith teg

Er y byddai disgwyl i elfen gwaith teg y Ddeddf gyfrannu at y canlyniadau tymor hir hyn (LO1, 2 a 3), mae cwmpas gwaith teg o fewn y Ddeddf yn gyfyngedig. Mae'r canlyniadau hyn yn eistedd 'ymhellach i ffwrdd' o'r Ddeddf ei hun. Nid oes modd eu priodoli i'r Ddeddf. Felly, ni fyddai'r canlyniadau hyn yn brif elfen na blaenoriaeth ar gyfer gwerthusiad yn y dyfodol.

## 4.5. Crynodeb ar draws canlyniadau model rhesymeg

Yn gryno, y dogfennau a grybwyllir ar draws y tri maes yw:

- adroddiadau DPG gan gyrff cyhoeddus
- cofnodion cyfarfodydd a dogfennau o gyfarfodydd partneriaeth gymdeithasol gan gyrff cyhoeddus, yn amodol ar ddisgresiwn cyrff cyhoeddus i rannu
- amcanion llesiant cyhoeddedig cyrff cyhoeddus a'r camau i gyflawni'r rhain ar gyfer y nod llesiant 'Cymru lewyrchus', ac adroddiadau cynnydd blynyddol
- adroddiadau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru
- cynlluniau corfforaethol cyhoeddedig cyrff cyhoeddus
- cofnodion cyfarfodydd y CPG a'i is-grwpiau a ddelir gan Lywodraeth Cymru
- cofnodion a ddelir gan Lywodraeth Cymru o allbynnau'r CPG ac is-grwpiau (gan gynnwys gan yr ysgrifenyddiaeth), megis papurau a gynhyrchwyd, dadansoddiad o adroddiadau DPG cyrff cyhoeddus
- cofnodion a ddelir gan Lywodraeth Cymru o'r wybodaeth a'r cyngor y mae'r CPG wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru; a lle bo'n bosibl, cofnodion Llywodraeth Cymru o ble mae cyngor y CPG wedi cael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau polisi
- cofnodion a ddelir gan Lywodraeth Cymru o wybodaeth a chyngor gan Weinidogion Cymru (drwy'r CPG); a lle bo'n bosibl, cofnodion ac enghreifftiau o a yw hyn wedi cael ei ddefnyddio neu ei weithredu gan gyrff cyhoeddus
- cofnodion a ddelir gan Lywodraeth Cymru o ddeunyddiau a chyfleoedd ymgysylltu a gynhyrchwyd gan y tîm ymgysylltu (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, bethau a gynhyrchwyd yn sgil cyngor y CPG); a lle bo'n bosibl, cofnodion ac enghreifftiau o a yw hyn wedi cael ei ddefnyddio neu ei weithredu gan gyrff cyhoeddus
    - mae hyn yn cynnwys cofnodion cynllun hyrwyddwyr a ddelir gan Lywodraeth Cymru, megis nodiadau o drafodaethau a chamau gweithredu sy'n deillio o drafodaethau
- Adroddiadau DPG gan Weinidogion Cymru (a gytunwyd gyda'r CPG)
- cofnodion a ddelir gan Lywodraeth Cymru o'r broses a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r CPG yn adolygu ei weithrediad ei hun
- cofnodion a ddelir gan Lywodraeth Cymru o adnoddau gwaith teg, a chofnodion o enghreifftiau o ddefnyddio adnoddau gwaith teg gan gyrff cyhoeddus

- mapio cyd-destun hanesyddol arferion gwaith teg a chyfeirio at waith teg mewn amcanion mewn cyrff cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru
- mapio cyd-destun cysylltiadau diwydiannol a digwyddiadau mewn cyrff cyhoeddus dros amser gan Lywodraeth Cymru
- mapio cyd-destun hanesyddol a mannau cychwyn ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yn y cyrff cyhoeddus, ac ychwanegu gwybodaeth am sut mae hyn wedi symud ymlaen gan Lywodraeth Cymru

Crybwyllwyd data penodol hefyd ar gyfer LO5 yn y model rhesymeg DPG ac LO1 ac LO3 yn y model rhesymeg gwaith teg, sef:

- mesurau iechyd a llesiant i weithwyr mewn cyrff cyhoeddus
- mesurau trosiant a chadw mewn cyrff cyhoeddus
- mesurau cynhyrchiant mewn cyrff cyhoeddus
- mesurau streiciau a disgyblu mewn cyrff cyhoeddus
- yr adroddiad 'Llesiant Cymru' a'r dangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Fodd bynnag, ni fyddai'r rhain yn flaenoriaeth i'w cofnodi fel rhan o werthusiad oherwydd materion priodoli.

I grynhoi, y rhai sydd i gymryd rhan mewn gwaith casglu data sylfaenol ar draws y 3 maes yw:

- cynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr sy'n ymwneud â strwythurau a phrosesau partneriaeth gymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus
    - mae hyn yn cynnwys y rhai o gyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â'r fenter hyrwyddwyr
    - lle mae cynrychiolwyr gweithwyr yn dod o undebau llafur, byddai'r rhain yn rolau 'cynrychiolydd cangen' neu 'ranbarthol'
- cynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr sy'n ymwneud â gwaith teg mewn cyrff cyhoeddus
- y rhai mewn cyrff cyhoeddus sy'n goruchwylio'r broses amcanion llesiant
- aelodau'r CPG ac is-grwpiau, gan gynnwys cynrychiolwyr gweithwyr, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru
- swyddogion yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys; ysgrifenyddiaeth y CPG, tîm cyfathrebu ac ymgysylltu, swyddogion PGCGT eraill
- rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector, a gweithwyr caffael proffesiynol sy'n ymwneud â'r is-grŵp caffael

# 5. Ymarferoldeb a gofynion gwerthuso

Mae'r canfyddiadau hyn wedi’u coladu o'r gweithdai data ac ymarferoldeb.

## 5.1. Gofynion gwerthuso

### 5.1.1. Cwmpas

Adroddodd cyfranogwyr y gweithdy ymarferoldeb y dylai gwerthusiad gwmpasu pob elfen o'r Ddeddf: y DPG, y CPG, gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Maen nhw'n cydnabod, er eu bod yn feysydd penodol, eu bod nhw i gyd yn gysylltiedig, gan greu anawsterau wrth werthuso partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg ar wahân i gaffael. Er enghraifft, mae'r is-grŵp caffael yn elfen graidd o elfennau CPG a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol o’r Ddeddf (gweler hefyd Pennod 3, 'Cysylltiadau rhwng modelau rhesymeg’). Gwnaeth cyfranogwyr dynnu sylw at y ffaith bod y Ddeddf yn ymwneud â newid ymddygiad yn ôl cyfres o egwyddorion neu werthoedd, y mae angen eu cofnodi'n gydlynol.

### 5.1.2. Defnyddwyr gwerthusiad a'r hyn y mae defnyddwyr eisiau ei wybod

Adroddodd cyfranogwyr y gweithdy ymarferoldeb y byddai gwerthusiad proses ac effaith yn bwysig, ond gan gydnabod y byddai yna ddefnyddwyr gwahanol. Roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai'r diddordeb mwyaf yn y rhan gaffael o'r Ddeddf.

Nododd y cyfranogwyr mai'r Senedd a'i phwyllgorau fyddai prif ddefnyddiwr y gwerthusiad, gan fod y gwerthusiad wedi'i ddisgrifio ym memorandwm esboniadol y Ddeddf. Gallai pwyllgorau wneud argymhellion yn seiliedig ar y gwerthusiad. Byddai'r diddordeb yn ymwneud yn bennaf ag effaith.

Awgrymodd cyfranogwyr hefyd y byddai gan undebau llafur ddiddordeb yn y gwerthusiad o safbwynt partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg. Byddai eu diddordeb yn ymwneud â phroses yn bennaf. Nodwyd hefyd y byddai gan aelodau’r CPG ddiddordeb yn y prosesau CPG.

O ran caffael, nododd cyfranogwyr y byddai gan y gymuned gaffael ddiddordeb mewn prosesau. Byddai gan sefydliadau'r trydydd sector ddiddordeb yn yr effaith.

Adroddodd y cyfranogwyr y gallai llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon fod â diddordeb yn y Ddeddf a'i heffeithiau.

### 5.1.3. Blaenoriaethau gwerthusiad effaith

Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr y gweithdy ymarferoldeb yn teimlo mai'r hyn sydd bwysicaf i'w fesur o ran canlyniadau yw'r newidiadau mewn ymwybyddiaeth, ymgysylltu, dealltwriaeth ac ymddygiadau dros amser yn ôl yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei nodi.

Gofynnwyd i gyfranogwyr y gweithdy data fyfyrio ar y canlyniadau sy'n flaenoriaeth i'w deall o werthusiad yn y dyfodol (nid yw'r model rhesymeg caffael yn rhan o'r asesiad gwerthuso hwn, felly nid yw wedi'i gynnwys).

Ar gyfer yr DPG, trafododd cyfranogwyr mai'r meysydd blaenoriaeth i'w deall o werthusiad yw'r egwyddorion partneriaeth gymdeithasol sydd wedi'u hymwreiddio, gan fod y rhain yn cynrychioli'r newid ymddygiad craidd fel rhan o'r Ddeddf.

Ar gyfer gwaith teg, trafododd cyfranogwyr y ffaith mai'r maes blaenoriaeth ar gyfer gwerthusiad yn y dyfodol yw i ba raddau y cyfeirir at waith teg mewn amcanion llesiant a'r camau a gymerwyd i gyflawni'r amcanion hyn sy'n cynnwys gwaith teg.

Ar gyfer y CPG, nododd cyfranogwyr y dylai effaith cyngor y CPG ar drefniadau partneriaeth gymdeithasol o fewn cyrff cyhoeddus fod yn flaenoriaeth. Mynegodd cyfranogwyr y farn hefyd y dylai asesu dylanwad y gwerth ychwanegol o gael cyngor wedi'i ddatblygu ar y cyd rhwng cynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr ar faterion penodol, megis deallusrwydd artiffisial, fod yn faes blaenoriaeth arall ar gyfer gwerthusiad yn y dyfodol.

### 5.1.4. Astudiaethau achos: y DPG, y CPG a gwaith teg

Ar gyfer y DPG a gwaith teg, nodwyd astudiaethau achos gyda chyrff cyhoeddus fel y ffordd fwyaf addas o ganfod y canlyniadau yn y modelau rhesymeg.

Ar gyfer y CPG, byddai'r astudiaethau achos hyn gyda chyrff cyhoeddus yn cael eu defnyddio i ddeall y pwyntiau o orgyffwrdd rhwng y CPG â'r DPG a gwaith teg, felly byddai angen iddynt hefyd gynnwys y defnydd o gyngor a roddir drwy'r CPG gan gyrff cyhoeddus. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r maes blaenoriaeth cyntaf a ddisgrifir ar gyfer y CPG.

Yna byddai gan y CPG elfen werthuso hunangynhwysol y tu allan i astudiaethau achos cyrff cyhoeddus hefyd. Byddai hyn yn cynnwys astudiaethau achos ar feysydd pwnc lle gallai'r CPG fod wedi cael dylanwad polisi, yn dibynnu ar natur y cyngor a roddwyd yn ystod gweithrediad y CPG (er enghraifft, deallusrwydd artiffisial). Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r ail faes blaenoriaeth a ddisgrifir ar gyfer y CPG.

O safbwynt ymchwil, bydd adeiladu astudiaethau achos yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau fel edrych ar y dogfennau a'r data a grybwyllwyd, yn ogystal â chasglu data sylfaenol gyda'r grwpiau a grybwyllir (gweler Pennod 4).

## 5.2. Ymarferoldeb gwerthuso

### 5.2.1. Asesiad gwerthusadwyedd caffael

Adroddodd cyfranogwyr y gweithdy ymarferoldeb ofyniad am asesiad gwerthusadwyedd ar gyfer elfen gaffael y Ddeddf.

### 5.2.2. Yr amserlen a ffefrir

Ym memorandwm esboniadol y Ddeddf, nododd Gweinidogion Cymru eu bod yn bwriadu gosod gerbron y Senedd adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd ar ôl ei gweithredu. Gwnaeth cyfranogwyr y gweithdy ymarferoldeb dynnu sylw at y ffaith bod 5 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r darpariaethau ddod i rym. Hefyd, dylid cofio ei fod yn hyblyg, a disgrifiwyd 5 mlynedd fel y 'cyfnod byrraf' - y pwynt cynharaf lle gellir cynnal gwerthusiad llawn o'r effaith.

Trafododd y cyfranogwyr y bydd yn cymryd amser i weld unrhyw newid gan fod y Ddeddf yn ymwneud â newid ymddygiad.

Er bod darpariaethau'r DPG, y CPG a gwaith teg wedi dechrau cael eu rhoi ar waith yn gynnar yn 2024, disgwylir i ddarpariaethau caffael ddod i rym yn llawn ym mis Ebrill 2026. Ar sail 5 mlynedd o'r darpariaethau partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg, gwnaeth trafodaethau cyfranogwyr dynnu sylw at y ffaith mai 2029 fyddai'r flwyddyn gynharaf ar gyfer gwerthusiad (o ran blynyddoedd ariannol Llywodraeth Cymru, mis Ebrill 2029 i fis Mawrth 2030). Oherwydd yr oedi gyda'r gwaith caffael, nodwyd y byddai gwybodaeth am weithredu ar gael yn 2029, a ddisgrifir fel 'dod i gyflwr sefydlog’. Fodd bynnag, mae'r gyfres amser neu'r newid dros amser (gan gynnwys ar gyfer adroddiadau caffael blynyddol) yn elfen bwysig, ac na fyddai modd casglu'r wybodaeth hon erbyn 2029 ac y byddai angen o leiaf 5 mlynedd. Felly, efallai na fydd gwerthusiad yn bosibl hyd nes blwyddyn ariannol mis Ebrill 2031 i fis Mawrth 2032.

Felly, yr her yw cynllunio'r gwerthusiad fel ei fod yn cwmpasu pob elfen o'r Ddeddf a'r gwahaniaeth mewn amserlenni gweithredu.

### 5.2.3. Cyllid

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (hydref/gaeaf 2025), roedd etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026 ar y gweill. Felly, ni allai cyfranogwyr y gweithdy ddarparu amcangyfrif o'r gyllideb ar gyfer gwerthusiad. Byddai unrhyw gyllideb yn cael ei rhannu rhwng partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg, a chaffael. Efallai na fydd hyn yn rhaniad cyfartal, sy'n her bosibl.

Efallai y bydd angen adnoddau hefyd ar ddadansoddwr Llywodraeth Cymru i reoli'r contract ar gyfer y gwerthusiad.

## 5.3. Heriau a risgiau sy'n berthnasol i'r gwerthusiad

### 5.3.1. Adroddiadau DPG

Wrth ddibynnu ar adroddiadau DPG gan gyrff cyhoeddus, yr her yw nad yw'r Ddeddf yn cynnwys terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r adroddiad hwn. Adeg y gweithdy data ym mis Medi 2025, dim ond tua 20% o'r adroddiadau oedd wedi dod i law ers i'r ffenestr agor ym mis Ebrill. Bydd hyn yn effeithio ar yr amser y gellir asesu newid o flwyddyn i flwyddyn yng nghynnwys yr adroddiadau hyn. Bydd hyn yn effeithio ar y CPG hefyd o ran a oes digon o amser i gynghori cyrff cyhoeddus, ac a oes digon o amser i gyrff cyhoeddus weithredu unrhyw gyngor, cyn y flwyddyn adrodd nesaf. Efallai y bydd rhagfarnau yn nodweddion y rhai sy'n cyflwyno adroddiadau yn gynt yn y flwyddyn ariannol, fel mwy o barodrwydd i dderbyn y ffordd hon o weithio, mwy o gymhelliant neu ymrwymiad cryfach i'r Ddeddf. Fodd bynnag, gallai eu cyflwyno'n gynharach fod yn ffordd hefyd o sicrhau bod y gofyniad yn cael ei fodloni ac felly'n darparu'r wybodaeth ofynnol.

Nid oes cynnwys penodol ar gyfer yr adroddiadau chwaith, felly bydd yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn yr adroddiadau a pha mor gynhwysfawr ydynt yn amrywio.

Her arall wrth ddibynnu ar yr adroddiadau hyn yw o ran bwlch rhwng yr hyn a ddigwyddodd yn ymarferol a'r hyn sy'n cael ei adrodd. Mae hyn yn her gydag unrhyw hunan-gofnod. Mae hyn yn cael ei liniaru gan fod rhaid i gynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr gytuno ar yr adroddiad.

### 5.3.2. Dewis astudiaethau achos ar gyfer cyrff cyhoeddus

Gan fod 55 o gyrff cyhoeddus, ni fyddai gwerthusiad cynhwysfawr o bob un yn briodol o ran amser ac adnoddau. Felly, byddai angen i unrhyw werthuswr yn y dyfodol ddewis sampl. Yr her yw y bydd cyrff cyhoeddus yn dechrau ar wahanol adegau mewn perthynas â'r Ddeddf.

Ar gyfer y DPG, mae rhai yn fwy sefydledig gyda strwythurau presennol a gwaith partneriaeth gymdeithasol, tra bod eraill yn gynharach yn eu taith. Ar ben hynny, wrth i amser fynd yn ei flaen bydd amrywiadau yn 'yr hyn a gyflawnwyd', gyda rhai yn gwneud mwy o gynnydd nag eraill, er eu bod wedi cychwyn yr un pryd. Mae'r un peth yn gymwys i waith teg mewn cyrff cyhoeddus.

Bydd yn bwysig sicrhau bod unrhyw sampl ar gyfer yr elfennau DPG a gwaith teg yn adlewyrchu'r agweddau hyn, yn ogystal â gwahanol sectorau a mathau o gyrff cyhoeddus (cenedlaethol, rhanbarthol, lleol). Felly, byddai angen i unrhyw werthuswr yn y dyfodol wneud gwaith archwiliadol gyda chyngor gan gydweithwyr polisi Llywodraeth Cymru i ddwyn yr wybodaeth hon ynghyd, ac yna ei samplu.

Yn y gweithdy data, rhoddwyd enghreifftiau o newidiadau a chynnydd mewn partneriaeth gymdeithasol mewn rhai cyrff cyhoeddus. Byddai'n ddefnyddiol i swyddogion PGCGT ddechrau mapio cyd-destun hanesyddol a mannau cychwyn ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus ac ychwanegu at hyn wrth i amser fynd yn ei flaen, fel y byddai'r wybodaeth hon ar waith adeg gwerthusiad.

### 5.3.3. Cyfranogiad

Ar gyfer y DPG a gwaith teg, trafododd cyfranogwyr y gweithdy data heriau blaenorol wrth lunio astudiaethau achos. Gwnaethant dynnu sylw at achosion sydd wedi dangos diddordeb cychwynnol, ond yna amharodrwydd o ran ei gynhyrchu. Awgrymodd cyfranogwyr y gallai hyn fod oherwydd pryder nad ydynt yn gwbl gymwys ym mhob agwedd neu nad ydynt yn deall y Ddeddf yn llawn. Awgrymodd cyfranogwyr y dylid tynnu sylw at y ffaith nad yw'n golygu gwneud popeth a'i wneud yn berffaith.

Er bod y rhain yn 'astudiaethau achos' o ran enghreifftiau o ymarfer neu ddarnau o waith, yn hytrach nag astudiaethau achos ymchwil, gallai'r un her fod yn gymwys yn y cyd-destun gwerthuso. Bydd yn bwysig i werthuswr yn y dyfodol ystyried y rhwystr posibl hwn i recriwtio.

Dewis arall fyddai i werthuswr ddefnyddio dull arsylwadol i gasglu data ar y DPG a gwaith teg mewn cyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, mae hyn yn cyflwyno ei gyfres ei hun o heriau, gan gynnwys sensitifrwydd neu gyfrinachedd cyfarfodydd, rhagfarnau sy’n deillio o’r ffaith bod gwerthuswr yn bresennol (effaith Hawthorne), y gofynion sylweddol o ran amser ac adnoddau ac eto cytundeb i gymryd rhan.

### 5.3.4. Disgwyliadau

Gwnaeth cyfranogwyr y gweithdy data ac ymarferoldeb godi'r pwynt fod y negeseuon yn y Ddeddf wedi bod yn aneglur, lle mae gan rai rhanddeiliaid allanol ddisgwyliadau uchel o ran yr hyn y bydd y Ddeddf yn ei gyflawni y tu hwnt i gwmpas gwirioneddol yr hyn y mae'r Ddeddf yn bwriadu ei wneud. Nododd y cyfranogwyr enghreifftiau o hyn yn digwydd gydag undebau llafur ar gyfer partneriaeth gymdeithasol, a sefydliadau'r trydydd sector ar gyfer caffael (gweler hefyd y drafodaeth ym Mhennod 4, 4.1.2 (DPG SO2) a Phennod 4, 4.2.4 (CPG SO4).

Felly, efallai y bydd gan rai rhanddeiliaid allanol ddisgwyliadau ynghylch yr hyn y byddai gwerthusiad yn ei ddangos y tu hwnt i gwmpas yr hyn y byddai unrhyw werthusiad yn ei gynnwys, neu y tu hwnt i'r hyn y mae modd ei briodoli i'r Ddeddf yn benodol. Dylai gwerthuswr yn y dyfodol fod yn ymwybodol o'r cyd-destun hwn.

### 5.3.5. Ffactorau allanol

#### 5.3.5.1. Cylchoedd Etholiad

Ar gyfer y CPG, nododd cyfranogwyr y gweithdy data fod dylanwad y CPG yn debygol o fod yn fwy cyfyngedig yng nghyfnodau diweddarach tymor y Senedd o gymharu â dechrau tymor newydd, pan fydd llywodraeth newydd yn pennu ei rhaglen.

Datblygwyd yr adroddiad hwn yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026. Ar gyfer pob elfen o'r Ddeddf, nododd cyfranogwyr y gweithdy data ac ymarferoldeb y gall newid llywodraeth effeithio ar y syniad o bartneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, yr ymagwedd tuag atynt a'r pwys a roddir iddynt. Ar ben hynny, mae'r meysydd y mae'r CPG yn ymgynghori arnynt (cyllideb, rhaglen ddeddfwriaethol ac amcanion llesiant) fel rhan o'r DPG ar Weinidogion Cymru yn debygol o newid.

#### 5.3.5.2. Cyd-destun deddfwriaeth ehangach

Gwnaeth cyfranogwyr y gweithdy ymarferoldeb dynnu sylw at y ffaith bod y Ddeddf yn gorgyffwrdd â llawer o'r hyn sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Bil Hawliau Cyflogaeth y DU yn bodoli hefyd. Ar gyfer caffael, nododd cyfranogwyr fod yna ddarnau eraill o ddeddfwriaeth llywodraeth y DU, gydag is-ddeddfwriaeth wedi'i gwneud yng Nghymru.

Mae dealltwriaeth partneriaid cymdeithasol, cyrff cyhoeddus ac awdurdodau contractio o'r gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, yn ogystal â'r ffordd maen nhw i gyd yn cyd-fynd, yn ffactorau a allai ddylanwadu ar rai o'r canlyniadau sy'n berthnasol i'r Ddeddf hefyd. Mae angen i werthuswyr y dyfodol fod yn ymwybodol o'r cyd-destun hwn.

#### 5.3.5.3. Personél

*Newidiadau mewn cyrff cyhoeddus*
Wrth ystyried cyfnod 5 mlynedd y canlyniadau tymor hir ar gyfer y DPG, trafododd cyfranogwyr y gweithdy data fod uwch arweinwyr mewn cyrff cyhoeddus yn debygol o fod yn destun lefelau cymedrol o newid dros yr amserlen hon. Bydd hyn yn creu her i werthuswyr wrth drafod newidiadau mewn gwaith partneriaeth gymdeithasol dros amser. Y gred oedd bod cynrychiolwyr gweithwyr yn fwy sefydlog gan iddynt gael eu bod yn cael eu hethol i gynrychioli am dymhorau penodol.

Ystyriwyd newidiadau mewn arweinyddiaeth hefyd fel ffactor allanol y tu hwnt i'r Ddeddf y gellid ei briodoli i lawer o'r canlyniadau, gan gynnwys y DPG a gwaith teg. Bydd newidiadau mewn arweinyddiaeth yn effeithio ar y pwys a roddir neu’r agweddau at bartneriaeth gymdeithasol a gwaith teg, a threfniadau partneriaeth gymdeithasol. Bydd gan rai sefydliadau ddiwylliant o 'ddysgu a gwella' ac felly'n derbyn y Ddeddf i raddau mwy helaeth.

*Newidiadau yn y CPG*
Mae gan aelodau'r CPG dymor o 3 blynedd, ac mae'r tymor cyntaf yn dod i ben ar 30 Tachwedd 2026. Bydd hyn yn cael effaith wrth fesur canlyniadau oherwydd daw cyfnod lle bydd angen i'r aelodau newydd ymgyfarwyddo â'r prosesau. Gall hyn olygu bod cyflawni'r canlyniadau tymor byr a chanolig yn dod yn broses gylchol, yn y ffaith bod cynnydd yn cael ei wneud ac yna bydd y broses yn dechrau o'r newydd eto wrth i aelodau newydd y CPG ddechrau cydweithio.

Ar ben hynny, byddai'n bwysig cynnwys aelodau unrhyw dymhorau CPG blaenorol mewn unrhyw werthusiad yn y dyfodol, ond gall fod yn anodd ymgysylltu â nhw ar ôl iddynt adael y CPG.

*Gallu ac argaeledd*
Byddai unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n dod i rym fel darnau a drafodwyd o dan 'gyd-destun deddfwriaeth ehangach' yn effeithio ar allu rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwerthuso, yn Llywodraeth Cymru ac yn allanol.

Nododd cyfranogwyr y gweithdy ymarferoldeb hefyd fod uwch arweinwyr mewn cyrff cyhoeddus ac aelodau'r CPG yn ddau brif grŵp a fyddai'n ymwneud â gwerthuso ond y byddai eu gallu parhaus wedi'i gyfyngu. Felly, byddai angen i unrhyw werthuswyr yn y dyfodol ystyried y ffactorau hyn wrth gynllunio'r gwaith o gasglu data.

#### 5.3.5.4. Newidiadau mewn cyllid

Trafododd cyfranogwyr y gweithdy data fod pwysau ar gyllid y sector cyhoeddus yn ffactor allanol arall y tu hwnt i'r Ddeddf a allai ddylanwadu ar lawer o'r canlyniadau.

Gallai'r cyd-destun ariannol wneud yr amgylchedd ar gyfer gweithredu elfen dyletswydd partneriaeth gymdeithasol y Ddeddf yn fwy heriol, gyda phwysau ar gysylltiadau.

Gallai'r cyd-destun ariannol effeithio hefyd ar y broses o weithredu gwaith teg yn unol ag amcanion. Er enghraifft, gall fod cost tymor byr a chost ymlaen llaw i rai arferion, fel fforddiadwyedd talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

#### 5.3.5.5. Newidiadau mewn agweddau undebau llafur

Mater arall a drafodwyd oedd y gallai safbwynt undebau llafur newid, megis mewn perthynas â 'chylchoedd etholiadol', ymgyrchoedd undebau llafur cenedlaethol neu'r 'newidiadau mewn cyllid'. Unwaith eto, gallai'r newid hwn mewn dull ac ymagwedd effeithio ar waith partneriaeth gymdeithasol.

Roedd ymgyrchoedd undebau llafur cenedlaethol hefyd yn cael eu hystyried fel ffactor allanol a allai ddylanwadu ar brosesau llunio polisïau y tu allan i'r CPG a'r DPG.

# 6. Cynnig gwerthuso

Mae'r asesiad gwerthuso yn argymell gwerthusiad proses dulliau cymysg a gwerthusiad effaith seiliedig ar theori.

Mae'r dull gwerthuso arfaethedig yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Theori Newid, data, ac elfennau ymarferol yr ymchwil hon. Mae'r ymchwil hon yn seiliedig ar asesiad o elfennau DPG, CPG a gwaith teg y Ddeddf. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r ymchwil yn dangos y dylai gwerthusiad gwmpasu pob elfen o'r Ddeddf: y DPG, y CPG, gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Felly, lle y bo'n bosibl, bydd cynigion yn cael eu trafod gan ystyried y gofyniad hwn.

Yn ystod elfennau ymarferol yr ymchwil, adroddodd cyfranogwyr fod y Ddeddf yn ymwneud yn bennaf â newid ymddygiad. Byddai angen gwerthusiad i asesu i ba raddau y mae'r Ddeddf wedi cyfrannu at newidiadau mewn ymwybyddiaeth, ymgysylltu, dealltwriaeth ac ymddygiadau dros amser yn unol â'r hyn a amlinellir yn y modelau rhesymeg.

Dywedodd cyfranogwyr hefyd y byddai amrywiaeth o ddefnyddwyr terfynol gan werthusiad. Mae'n debygol y bydd y prif ddefnyddwyr terfynol yn cynnwys swyddogion PGCGT, y Senedd a'i phwyllgorau, undebau llafur, y CPG, y gymuned gaffael a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'n debygol y bydd gan wahanol ddefnyddwyr terfynol ddiddordeb mewn gwahanol elfennau o'r gwerthusiad (proses neu effaith).

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd etholiadau'r Senedd 2026 ar y gweill sy'n creu heriau i'r asesiad gwerthusadwyedd. Yn gyntaf, gall newid yn y llywodraeth effeithio ar yr ymagwedd at bartneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael. Mae'r opsiynau gwerthuso i'w hargymell a gynhyrchir fel rhan o'r asesiad gwerthusadwyedd hwn yn cael eu datblygu o dan y cyd-destun adeg ysgrifennu hwn. Ni ellir canfod i ba raddau y gallai fod angen diwygio hyn mewn unrhyw gyd-destun yn y dyfodol. Yn ail, nid oes modd i swyddogion PGCGT amcangyfrif cyllideb gwerthuso. Mae'n bwysig nodi y byddai unrhyw gyllideb yn cael ei rhannu rhwng partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg, a chaffael, ond efallai na fydd hyn yn gyfartal.

## 6.1. Gwerthusiad proses

Argymhellir gwerthusiad proses dulliau cymysg. Dylai'r gwerthusiad proses ganolbwyntio ar y gweithgareddau a'r allbynnau yn y modelau rhesymeg ar gyfer holl gydrannau'r Ddeddf (y DPG, y CPG, gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol). Dylid nodi bod asesiad gwerthusadwyedd yn ofyniad ar gyfer yr elfen caffael gyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn y Ddeddf. Bydd angen adolygu a diweddaru'r model rhesymeg caffael fel rhan o'r asesiad gwerthusadwyedd hwn, y gellir asesu gweithgareddau ac allbynnau ohono.

Yn unol â Llyfr Magenta Trysorlys EF, byddai gwerthusiad proses yn ceisio ateb cwestiynau fel:

- a yw'r dull cyflwyno wedi bod fel y bwriadwyd?
    - a oedd digon o adnoddau?
    - a oedd unrhyw broblemau annisgwyl wrth gyflwyno?
    - sut mae'r cyd-destun wedi dylanwadu ar y dull cyflwyno?
- beth oedd yn gweithio'n dda, neu ddim cystal, i bwy a pham?
- beth y gellir ei ddysgu o'r dulliau cyflwyno a ddefnyddiwyd; beth y gellid ei wella?

### 6.1.1. Casglu gwybodaeth am y gwerthusiad proses: y DPG, y CPG a gwaith teg

Byddai'r gwerthusiad proses yn cynnwys casglu a choladu tystiolaeth eilaidd. Dylid diweddaru'r Theori Newid hefyd os oes angen.

Nid yw elfennau DPG, CPG a gwaith teg y Ddeddf yn cynnwys casglu data monitro. Felly, byddai casglu data eilaidd yn dibynnu ar gofnodion dogfennau. Mae'r dogfennau sy'n ofynnol i ddeall gweithrediad y gweithgareddau a'r allbynnau yn y modelau rhesymeg yn gorgyffwrdd â'r rhai sy'n ofynnol i ddeall y canlyniadau a drafodir ym Mhennod 4. Mae cofnodion sy'n berthnasol i elfen broses y gwerthusiad yn cynnwys:

- adroddiadau DPG gan gyrff cyhoeddus
- cofnodion cyfarfodydd a dogfennau o gyfarfodydd partneriaeth gymdeithasol gan gyrff cyhoeddus, yn amodol ar ddisgresiwn cyrff cyhoeddus i rannu
- amcanion llesiant a gyhoeddwyd gan gyrff cyhoeddus a'r camau i gyflawni'r rhain ar gyfer y nod llesiant 'Cymru lewyrchus', ac adroddiadau cynnydd blynyddol
- cofnodion a ddelir gan Lywodraeth Cymru o wybodaeth a chyngor gan Weinidogion Cymru (drwy'r CPG), deunyddiau a chyfleoedd ymgysylltu a gynhyrchwyd gan y tîm ymgysylltu, ac adnoddau gwaith teg; a chofnodion neu enghreifftiau o ddefnydd cyrff cyhoeddus lle bo'n bosibl
- cofnodion cynllun eiriolwyr a ddelir gan Lywodraeth Cymru
- cofnodion cyfarfodydd y CPG a'i is-grwpiau a ddelir gan Lywodraeth Cymru
- cofnodion a ddelir gan Lywodraeth Cymru o allbynnau'r CPG a'i is-grwpiau (gan gynnwys ysgrifenyddiaeth), megis papurau a gynhyrchwyd, dadansoddiad o adroddiadau DPG gan gyrff cyhoeddus
- cofnodion a ddelir gan Lywodraeth Cymru o'r wybodaeth a'r cyngor y mae'r CPG wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru; lle bo'n bosibl, cofnodion o ble mae cyngor gan y CPG wedi cael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau polisi
- Adroddiadau DPG gan Weinidogion Cymru (wedi'u cytuno â'r CPG)
- cofnodion a ddelir gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad y CPG yn adolygu ei weithrediad ei hun
- yr adroddiad 'Llesiant Cymru' a'r dangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Byddai angen casglu data sylfaenol hefyd. Unwaith eto, mae'r grwpiau i'w cynnwys wrth gasglu data sylfaenol yn gorgyffwrdd â'r rhai a nodwyd yn y mesur canlyniadau ym Mhennod 4. Felly, mae hyn yn debygol o gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru (gan gynnwys ysgrifenyddiaeth y CPG), aelodau'r CPG a'i is-grwpiau, cynrychiolwyr cyflogwyr a

gweithwyr cyrff cyhoeddus a'r rhai mewn cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â'r broses amcanion llesiant.

## 6.2. Gwerthusiad effaith

Mae elfen effaith y gwerthusiad yn ymwneud yn bennaf â chanlyniadau ar draws pob elfen o'r Ddeddf (y DPG, y CPG, gwaith teg a chaffael sy’n gyfrifol yn gymdeithasol). Yn unol â Llyfr Magenta Trysorlys EF, dylai nodau eang gwerthusiad effaith fod i benderfynu sut a pham y digwyddodd effaith a sefydlu pa wahaniaeth a wnaeth yr ymyrraeth.

Nododd elfen ddata'r ymchwil y blaenoriaethau canlynol ar gyfer canlyniadau:

- i ba raddau y mae'r DPG wedi arwain at ymwreiddio egwyddorion partneriaeth gymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus
- i ba raddau y cyfeirir at waith teg pan fo cyrff cyhoeddus yn gosod amcanion llesiant, a'r camau a gymerwyd i gyflawni'r amcanion hyn
- effaith cyngor y CPG ar drefniadau partneriaeth gymdeithasol mewn cyrff cyhoeddus, a gwerth cyngor a ddatblygwyd ar y cyd ar bynciau penodol

Nododd elfen ddata'r ymchwil hefyd y byddai astudiaethau achos yn ddull addas i ganfod canlyniadau.

Mae'r drafodaeth ganlynol ynghylch dulliau gwerthuso yn ymwneud â'r elfennau DPG, CPG a gwaith teg yn unig. Mae angen asesiad gwerthusadwyedd o gaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol i ganfod y dull gwerthusiad effaith mwyaf priodol.

Er mwyn penderfynu pa ddull fyddai'n fwyaf addas ar gyfer elfen effaith gwerthusiad ar gyfer y DPG, y CPG a gwaith teg, adolygwyd Llyfr Magenta Trysorlys EF yn y lle cyntaf. Yn seiliedig ar y canllawiau, ni fyddai dulliau arbrofol a lled-arbrofol yn addas gan na fydd modd cymharu grwpiau yr effeithir arnynt a grwpiau nad ydynt yn cael eu heffeithio. Felly, penderfynwyd mai dull seiliedig ar theori fyddai’n fwyaf priodol.

Adolygwyd y dulliau seiliedig ar theori a restrir yn Llyfr Magenta Trysorlys EF (a'i atodiad A sy'n darparu rhagor o wybodaeth am y dulliau) ar gyfer eu cryfderau a'u gwendidau a'u haddasrwydd yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd yn ystod camau ymchwil, data ac ymarferoldeb y Theori Newid. Defnyddiwyd adnoddau ynghylch dulliau gwerthuso gan ‘Better Evaluation’ hefyd wrth adolygu'r dulliau. Mae'r wybodaeth ganlynol o fewn yr is-benawdau 'dewis dull gweithredu' (6.2.1, 6.2.2) yn deillio o'r cyfeiriadau hyn.

### 6.2.1. Dewis dull gweithredu: dulliau seiliedig ar theori a aseswyd i fod yn llai addas

#### 6.2.1.1. Dadansoddiad o gyfraniadau

*A yw'r cwestiynau ymchwil y mae'r dull yn ceisio eu hateb a'i nodau craidd yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwerthusiad y Ddeddf?*
Mae dadansoddiad o gyfraniadau yn dibynnu ar Theori Newid. Mae hyn wedi'i ddatblygu fel rhan o'r asesiad gwerthusadwyedd hwn.

Gellir defnyddio dadansoddiad o gyfraniadau ar gyfer ymyriadau cymhleth, sy'n addas.

Mae dadansoddiad o gyfraniadau yn ceisio gwneud hawliad 'cyfraniad', sef deall y tebygolrwydd bod ymyrraeth (y Ddeddf) wedi cyfrannu at ganlyniadau a arsylwir. Mae'n awgrymu bod canlyniadau yn cael eu dylanwadu gan becyn achosol, y byddai ymyrraeth yn rhan ohono, ond nid dyma'r unig ffactor sy'n cynhyrchu'r canlyniad. Mae'n ceisio nodi pa rôl sydd gan yr ymyrraeth o fewn y pecyn hwn wrth ddylanwadu ar y canlyniadau a arsylwir, gan roi lefel o hyder am ei gyfraniad. Mae hyn yn addas o ran deall y nifer o ffactorau allanol a nodwyd fel rhai sy'n dylanwadu ar rai o'r canlyniadau yn yr asesiad gwerthusadwyedd hwn.

Fodd bynnag, mae'r ymddygiadau craidd a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus a'r CPG wedi'u deddfu, felly nid yw gwneud 'hawliad cyfraniad' mor addas. Ar ben hynny, ni chynghorir ei ddefnyddio pan fo lefel fawr o amrywiaeth mewn dulliau gweithredu neu ddisgwyliad o wahanol ganlyniadau ar draws grwpiau. Er bod ymddygiadau craidd yn cael eu deddfu, bydd gan bob corff cyhoeddus brosesau gwahanol o ran sut mae hyn yn cael ei weithredu, felly eto efallai na fydd hyn yn addas.

*A yw'r dulliau a ddefnyddir fel rhan o'r dull yn addas i'r ffynonellau data sylfaenol ac eilaidd ar gyfer y Ddeddf?*
Mae'r dulliau'n addas. Disgrifir dadansoddiad o gyfraniadau fel dull a all ddefnyddio llawer o wahanol fathau o dystiolaeth. Yn nodweddiadol, mae'n dechrau gyda defnyddio dogfennau presennol ac yna'n defnyddio unrhyw ddull casglu sylfaenol ar gyfer y data sydd ei angen.

*A yw'r adnoddau ar gyfer y dull yn cyd-fynd â'r hyn sy'n hysbys am adnoddau ar gyfer gwerthusiad y Ddeddf?*
Nid yw'r gofynion adnoddau yn cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael. Mae dadansoddiad o gyfraniadau yn ddwys o ran adnoddau. Mae'n gofyn am ddyluniad gwerthuso iterus i brofi'r modelau rhesymeg ac esboniadau amgen. Mae hyn yn gofyn am amser ac adnoddau gan randdeiliaid nad yw’n addas o dan yr amgylchiadau hyn oherwydd y capasiti cyfyngedig a ragwelir.

*Casgliad*
Ni argymhellir dadansoddiad o gyfraniadau.

#### 6.2.1.2. Olrhain prosesau, diweddaru Bayesaidd, olrhain cyfraniadau

Mae olrhain prosesau a diweddaru Bayesaidd yn ddulliau casglu achlysurol penodol y gellir eu cyfuno â dadansoddiad o gyfraniadau. Maen nhw'n ddulliau a ddefnyddir fel rhan o ddeall yr 'hawliad o gyfraniadau'. Mae olrhain cyfraniadau hefyd yn ddull sy'n cymhwyso dull diweddaru Bayesaidd i sefydlu dilysrwydd 'hawliadau o gyfraniadau'. Felly, nid yw'r dulliau hyn yn cael eu hargymell.

#### 6.2.1.3. Cynaeafu canlyniadau

*A yw'r cwestiynau ymchwil y mae'r dull yn ceisio eu hateb a'i nodau craidd yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwerthusiad y Ddeddf?*
Ni argymhellir cynaeafu canlyniadau pan fydd yr ymyrraeth yn digwydd yn fuan ar ôl Theori Newid. Nid yw hyn yn cyd-fynd â'r Ddeddf.

Mae cynaeafu canlyniadau yn ceisio nodi'r newidiadau a achosir gan ymyrraeth (canlyniadau). Gallai'r rhain fod yn gadarnhaol, yn negyddol, yn fwriadol ac yn anfwriadol. Mae'r cysylltiad rhwng yr ymyrraeth a'r canlyniad i'w wirhau. Mae cynaeafu canlyniadau yn dechrau drwy gasglu tystiolaeth o newid a gweithio tuag yn ôl i asesu cyfraniadau. Mae'n arbennig o ddefnyddiol pan fo canlyniadau anfwriadol i'w cael yn bennaf; pan fo llai o sicrwydd ynghylch yr hyn fydd yn newid.

Awgrymir ei ddefnyddio pan fo'r ffocws yn bennaf ar ganlyniadau yn hytrach na gweithgareddau, er nad felly y mae hi ar gyfer gwerthusiad y Ddeddf. Fe'i defnyddir yn nodweddiadol hefyd ar gyfer monitro parhaus i gynhyrchu gwybodaeth amser real. Nid yw hyn yn gymwys wrth werthuso'r Ddeddf oherwydd amseriad bwriedig y gwerthusiad o 5 mlynedd ar ôl gweithredu.

*A yw'r dulliau a ddefnyddir fel rhan o'r dull yn addas i'r ffynonellau data sylfaenol ac eilaidd ar gyfer y Ddeddf?*
Disgrifir cynaeafu canlyniadau fel defnyddio dogfennau a chyfweliadau fel ffynonellau gwybodaeth, sy'n cyd-fynd â'r hyn sy'n addas ar gyfer gwerthusiad y Ddeddf.

*A yw'r adnoddau ar gyfer y dull yn cyd-fynd â'r hyn sy'n hysbys am adnoddau ar gyfer gwerthusiad y Ddeddf?*
Nid yw'r gofynion o ran adnoddau yn cyd-fynd. Mae cynaeafu canlyniadau yn ddwys o ran adnoddau, gyda chamau cylchol. Mae'n gofyn am ddull ailadroddus, cyfranogol gyda lefelau uchel o gyfranogiad gan ddefnyddwyr canfyddiadau'r gwerthusiad a'r rhai sy'n ymwneud â'r ymyrraeth ei hun. Mae hyn yn gofyn am amser ac adnoddau gan randdeiliaid nad yw'n addas ar gyfer gwerthusiad y Ddeddf oherwydd y gallu cyfyngedig a ragwelir, ac oherwydd pwy yw defnyddwyr y gwerthusiad.

*Casgliad*
Ni argymhellir cynaeafu canlyniadau.

#### 6.2.1.4. Newid mwyaf arwyddocaol (MSC)

*A yw'r cwestiynau ymchwil y mae'r dull yn ceisio eu hateb a'i nodau craidd yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwerthusiad y Ddeddf?*
Mae MSC yn cynnwys casglu 'straeon o newid' am newidiadau neu ganlyniadau penodol ac yna penderfynu pa rai sydd fwyaf arwyddocaol gyda phaneli o randdeiliaid. Gan fod MSC yn ymwneud yn bennaf â nodi'r hyn mae gwahanol randdeiliaid yn gweld gwerth ynddo, nid yw hyn yn cyd-fynd â'r anghenion ar gyfer gwerthusiad y Ddeddf sef deall y newid ymddygiad.

Fe'i defnyddir yn nodweddiadol hefyd mewn cylchoedd monitro rheolaidd nad ydynt yn berthnasol i werthusiad y Ddeddf oherwydd amseriad bwriedig y gwerthusiad o 5 mlynedd ar ôl gweithredu.

*A yw'r dulliau a ddefnyddir fel rhan o'r dull yn addas i'r ffynonellau data sylfaenol ac eilaidd ar gyfer y Ddeddf?*
Mae dull MSC yn defnyddio naratifau personol o newidiadau a welwyd, sy'n cael eu dewis yn bwrpasol i gynrychioli gwahanol grwpiau neu fathau o faterion. Mae hwn yn ddull pwrpasol ar gyfer y dull MSC.

*A yw'r adnoddau ar gyfer y dull yn cyd-fynd â'r hyn sy'n hysbys am adnoddau ar gyfer gwerthusiad y Ddeddf?*
Nid yw'r gofynion o ran adnoddau yn cyd-fynd. Disgrifir MSC fel rhywbeth sy'n cymryd llawer o amser ac yn llyncu adnoddau. Mae rhanddeiliaid yn ymwneud â nodi a dadansoddi straeon o newid. Mae gan y broses sawl cylch. Mae hyn yn gofyn am amser ac adnoddau gan randdeiliaid nad yw'n addas ar gyfer gwerthusiad y Ddeddf.

*Casgliad*
Ni argymhellir MSC.

#### 6.2.1.5. Realaidd

Adolygwyd canllaw gwerthuso realaidd Trysorlys EF hefyd.

*A yw'r cwestiynau ymchwil y mae'r dull yn ceisio eu hateb a'i nodau craidd yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwerthusiad y Ddeddf?*
Mae gwerthusiad realaidd yn ceisio deall beth sy'n gweithio, i bwy ac o dan ba amgylchiadau.

Mae'n dweud bod canlyniadau'n digwydd gan fod pobl yn gwneud penderfyniadau; ac yn dewis gweithredu mewn ymateb i adnoddau a chyfleoedd yr ymyrraeth. Dyma'r mecanwaith. Hefyd, y bydd yr ymateb yn wahanol o dan wahanol amgylchiadau. Dyma'r cyd-destun.

Cynhyrchir cyfres o ddatganiadau rhagdybiaeth 'cyd-destun + mecanwaith = canlyniad', gan ddefnyddio damcaniaeth y rhaglen a chadwyni achosol. Cesglir tystiolaeth ar gyfer pob datganiad. Mae damcaniaeth y rhaglen wedyn yn cael ei mireinio yn ôl y ffordd y mae'r cyd-destun yn effeithio ar ganlyniadau a beth yw'r mecanweithiau o bosibl. Mae hwn yn ddull cylchol.

Gallai gwerthusiad realaidd fod yn ddefnyddiol felly er mwyn deall pam mae yna amrywiaeth mewn canlyniadau ar draws cyrff cyhoeddus, neu pam mae'r SPC wedi cyflawni canlyniadau penodol. Gallai hyn ddarparu mewnwelediad i helpu i wella'r broses o ymwreiddio'r Ddeddf.

Fodd bynnag, pwrpas gwerthusiad realaidd yw mireinio damcaniaeth y rhaglen llawn cymaint â deall y canlyniadau. Nid yw hyn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a'r defnydd bwriedig o'r gwerthusiad. Ar ben hynny, mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer ymddygiadau yn dileu rhywfaint o'r elfen 'dewis i weithredu' o werthusiad realaidd.

*A yw'r dulliau a ddefnyddir fel rhan o'r dull yn addas i'r ffynonellau data sylfaenol ac eilaidd ar gyfer y Ddeddf?*
Disgrifir gwerthusiad realaidd fel 'dull niwtral' ar gyfer casglu a dadansoddi data. Fodd bynnag, nodir bod dull astudiaeth achos gyda samplu bwriadus yn cael ei ddefnyddio fel arfer fel y gellir profi damcaniaeth y rhaglen. Mae hyn yn cyd-fynd â'r data a'r wybodaeth a ddisgrifir ar gyfer gwerthusiad y Ddeddf.

Fodd bynnag, disgrifir hefyd bod data meintiol fel arfer yn cael ei ddefnyddio i asesu canlyniadau, nad yw ar gael i raddau helaeth ar gyfer y Ddeddf ac sy’n gymwys i ychydig o ganlyniadau yn unig.

*A yw'r adnoddau ar gyfer y dull yn cyd-fynd â'r hyn sy'n hysbys am adnoddau ar gyfer gwerthusiad y Ddeddf?*
Disgrifir gwerthusiad realaidd fel un sy'n cymryd llawer o amser ac yn llyncu adnoddau. Nid yw'n cael ei argymell lle nad yw'r adnoddau dynol ac ariannol sydd eu hangen i gynnal gwerthusiad realaidd ar gael. Roedd gallu rhanddeiliaid yn her a nodwyd ar gyfer gwerthusiad y Ddeddf. Hefyd, nid yw'r gyllideb yn hysbys.

*Casgliad*
Gallai gwerthusiad realaidd fod yn addas ond nid yw'n cael ei argymell.

### 6.2.2. Dewis dull gweithredu: Dadansoddiad Cymharol Ansoddol

Ystyriwyd mai defnyddio dull wedi'i ysbrydoli gan Ddadansoddiad Cymharol Ansoddol (QCA) oedd y dull mwyaf priodol ar gyfer gwerthusiad effaith yn y dyfodol ar gyfer y DPG, y CPG a gwaith teg.

Mae QCA yn cymharu sawl astudiaeth achos er mwyn deall ffactorau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau a ddymunir ac na ddymunir yn seiliedig ar ddata ansoddol. Mae hyn yn berthnasol i werthusiad effaith y Ddeddf oherwydd dylai'r gwerthusiad ddefnyddio data ansoddol o ddetholiad o astudiaethau achos cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y mae'r Ddeddf wedi cyfrannu at newidiadau ymddygiad sy'n ymwneud â phartneriaeth gymdeithasol a gwaith teg. Hefyd, detholiad o astudiaethau achos o feysydd cyngor y CPG a'i is-grwpiau.

Mae QCA yn ddull perthnasol hefyd oherwydd gall gyfrif am ffactorau achosol lluosog, gan gynnwys ffactorau cyd-destunol ac allanol a allai effeithio ar ganlyniadau. Mae hyn yn berthnasol gan fod cyfranogwyr yn ystod y gweithdai data ac ymarferoldeb wedi nodi bod nifer o ffactorau allanol a allai effeithio ar ganlyniadau ar gyfer elfennau CPG, DPG a gwaith teg y Ddeddf. Mae dull QCA yn addas hefyd gan ei fod yn debygol y bydd y mathau o ddata yn gyson ar draws astudiaethau achos sy'n golygu y bydd modd asesu sut mae gwahanol ffactorau yn effeithio ar ganlyniadau ac yn nodi pa ffactorau sy'n cyfrannu at ganlyniadau llwyddiannus.

Disgrifir QCA fel dull addas ar gyfer tua 10 i 50 o achosion. Fodd bynnag, bydd angen pennu'n ddiweddarach nifer yr astudiaethau achos i'w defnyddio mewn gwerthusiad yn seiliedig ar y dull QCA. Y rheswm am hyn, fel y nododd cyfranogwyr yn y gweithdy data, yw bod pob corff cyhoeddus yn dechrau o bwynt gwahanol o ran gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol. Mae hyn yn golygu mai dim ond pan fyddwn yn nes at gomisiynu'r gwerthusiad y bydd modd penderfynu ar nifer yr astudiaethau achos gan y bydd wedyn yn hysbys sut mae gwahanol gyrff cyhoeddus wedi symud ymlaen ac felly beth sy'n cyfrif fel sampl cynrychiadol. Yn yr un modd, bydd gwahanol is-grwpiau a phynciau cyngor y CPG wedi dod i'r amlwg. Trafodwyd ystyriaethau ar gyfer dewis astudiaethau achos ym Mhennod 5, 'Dewis astudiaethau achos ar gyfer cyrff cyhoeddus’.

Y rheswm pam mai'r argymhelliad yw defnyddio dull sydd wedi'i ysbrydoli gan QCA yw'r ffaith bod QCA yn draddodiadol yn defnyddio dull sgorio mewn ‘tabl gwirionedd’ i benderfynu a yw ffactorau sy'n cyfrannu at ganlyniadau yn bresennol neu ddim yn bresennol. Awgrymir na ddylid defnyddio'r elfen sgorio hon yn y gwerthusiad. Gall fod yn anodd penderfynu pa achosion sy'n cynrychioli mwy o lwyddiant neu fethiant nag eraill (Llyfr Magenta Trysorlys EF). Yn hytrach, awgrymir y dylid defnyddio dull o ymdrin ag achosion lluosog tebyg i ‘fatrics o gategorïau’ (Better Evaluation: Case study evaluations, US General Accounting Office). Yn yr un modd, byddai hyn yn golygu y gellir nodi ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau ac sy'n cyfrannu at ganlyniadau llwyddiannus ond heb leihau data ansoddol i ddata meintiol ac i nodi unrhyw awgrym yn llawn. Byddai hyn yn osgoi gor-symleiddio unrhyw faterion priodoli hefyd. Yn olaf, er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau a gyflwynir yn ddealladwy i gynulleidfa nad yw'n llawn ymchwilwyr, yn hytrach na chyfres o 'dablau

gwirionedd' a datganiadau ffurfwedd, sy'n bwysig oherwydd defnyddwyr bwriedig y gwerthusiad.

### 6.2.3. Casglu gwybodaeth am werthusiad effaith: y DPG, y CPG a gwaith teg

Byddai'r gwerthusiad effaith yn cynnwys casglu a choladu tystiolaeth eilaidd. Ni fyddai angen diweddaru'r Theori Newid ymhellach pe bai'n cael ei gwblhau yn y cam proses. Mae'r dogfennau a'r data a nodwyd i asesu canlyniadau wedi'u rhestru ym Mhennod 4, 'Crynodeb ar draws canlyniadau model rhesymeg’. Dylid ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad proses hefyd, ac unrhyw dystiolaeth eilaidd ychwanegol sy'n dod i'r amlwg.

Byddai'r gwerthusiad effaith hefyd yn cynnwys casglu data sylfaenol gan ddefnyddio dulliau fel yr ystyrir eu bod yn addas, megis cyfweliadau un-i-un, grwpiau ffocws ac arolygon. Mae'r rhai i'w cynnwys mewn gwaith maes wedi'u rhestru ym Mhennod 4, 'Crynodeb ar draws canlyniadau model rhesymeg’.

Gyda'i gilydd, byddai'r dystiolaeth sylfaenol ac eilaidd yn cael ei defnyddio i ffurfio astudiaethau achos, fel rhan o'r dull QCA.

## 6.3. Amseriad gwerthusiad

### 6.3.1. Asesiad gwerthusadwyedd caffael: diwedd 2026 neu ddechrau 2027

Disgwylir i ddarpariaethau caffael ddod i rym yn llawn ym mis Ebrill 2026. Gellid cynnal asesiad gwerthusadwyedd ar gyfer yr elfen gaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol tua diwedd 2026 i ddechrau 2027. Mae hyn fel y gall modelau rhesymeg adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol ac i sicrhau bod gallu mewnol i gymryd rhan mewn ymchwil.

Ynghyd â'r asesiad gwerthusadwyedd hwn o elfennau DPG, CPG a gwaith teg y Ddeddf, dylai canfyddiadau'r asesiad gwerthusadwyedd lywio'r fanyleb ar gyfer gwerthusiadau proses ac effaith y Ddeddf.

### 6.3.2. Cam gwerthuso 1, proses: 2029

Fel y trafodwyd yn adran 5.2.2, nododd cyfranogwyr mai'r amser cychwyn cynharaf ar gyfer gwerthusiad fyddai 2029. Byddai hyn yn golygu dechrau ym mlwyddyn ariannol Llywodraeth Cymru Ebrill 2028 i Fawrth 2029, ac Ebrill 2029 i Fawrth 2030.

Lle bo'n bosibl, mae'n bwysig bod pob elfen o'r Ddeddf yn cael ei gwerthuso ar yr un pryd oherwydd y cysylltiadau rhwng partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Dylai'r gwerthusiad ddechrau gyda gwerthusiad proses o bob elfen o'r Ddeddf.

Drwy ddechrau yn 2029, byddai'r elfennau partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg wedi bod ar waith am oddeutu 5 mlynedd, a'r elfennau caffael am oddeutu 3 blynedd. Felly, byddai hyn yn dal i ganiatáu digon o amser i sefydlu prosesau caffael at ddibenion gwerthusiad proses. Ar ben hynny, byddai digon o amser i ail aelodaeth y CPG fod wedi setlo i'w rolau gan y byddent yn y flwyddyn olaf o'u haelodaeth.

Yn nodweddiadol, caiff gwerthusiad proses ei weithredu'n gynharach fel y gellir cymhwyso dysgu. Fodd bynnag, derbynnir nad yw hyn yn ymarferol o dan yr amgylchiadau hyn oherwydd y gwahaniaeth rhwng amseriad gweithredu rhwng darpariaethau caffael a darpariaethau partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg, yr ansicrwydd presennol ynghylch y gyllideb, a'r ffaith y byddai'r gyllideb yn deillio o feysydd ar wahân ond wedi'u cyfuno. Byddai'r amserlen arfaethedig yn dal i ganiatáu i ddysgu gael ei gymhwyso o'r elfen broses ac yna ei werthuso fel rhan o werthusiadau effaith dilynol.

### 6.3.3. Cam gwerthuso 2a a 2b, effaith: o 2030

Argymhellir y dylai'r gwerthusiadau effaith ddefnyddio dull graddol.

Gallai cam 2a ddechrau ar ganol i ddiwedd 2030. Byddai hyn yn cynnwys gwerthusiad effaith QCA o elfennau DPG, CPG a gwaith teg y Ddeddf. Byddai dechrau'r gwerthusiad hwn ar yr adeg hon yn caniatáu digon o amser i'r mewnwelediadau o'r gwerthusiad proses cam 1 gael eu hymgorffori a'u hasesu. Byddai hefyd yn rhoi digon o amser i'r canlyniadau tymor hir ddod i'r amlwg a chael eu gwerthuso, gan fod disgwyl iddynt ddod i'r amlwg 5 mlynedd ar ôl dechrau'r gweithrediad.

Rhagwelir y bydd rhai canlyniadau sy'n ymwneud â chaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn weladwy yng ngham 2a, ond mae angen caniatáu digon o amser i'r newidiadau hyn ddatblygu a chael eu cofnodi yn yr adroddiadau caffael blynyddol. Felly, argymhellir y gallai elfen gaffael y gwerthusiad effaith ddechrau ar ddechrau neu ganol 2031, fel cam 2b.

Mae hyn oherwydd bod disgwyl i'r darpariaethau caffael ddod i rym yn llawn ym mis Ebrill 2026. Mae hyn yn golygu na fydd canlyniadau tymor hir ar gyfer yr elfen hon o'r Ddeddf yn dechrau dod i'r amlwg hyd nes 2031. Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys a fyddai QCA yn ddull addas o werthuso effeithiau caffael, ond mae trafodaethau cychwynnol yn awgrymu ei bod yn bosibl bod yna fwy o ddata meintiol ar gael ar gyfer caffael, sy'n golygu y gallai fod yn addas ar gyfer dull arall. Dylai'r dull gwerthuso gael ei lywio gan unrhyw asesiad gwerthusadwyedd o elfen gaffael y Ddeddf.

Efallai yr ymddengys bod hyn yn symud oddi wrth y rhagdybiaeth bod pob elfen o'r Ddeddf i'w gwerthuso ar yr un pryd oherwydd y cysylltiadau rhwng partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Fodd bynnag, gellir nodi'r pwyntiau lle mae canlyniadau caffael yn gorgyffwrdd â'r elfennau eraill, a gellir cyfuno'r canfyddiadau cam 2a â chanfyddiadau cam 2b i greu gwerthusiad crynodol. Er enghraifft, gydag amseriad arfaethedig cam 2a, dylai'r canlyniadau caffael tymor canolig fod yn weladwy, felly gellid casglu canlyniadau is-grŵp caffael y CPG o hyd. Efallai y bydd gwaith teg o fewn caffael o'r model rhesymeg gwaith teg yn cael ei fesur yn well yng ngham 2b, gan fod y rhain yn cyfeirio i raddau helaeth at adroddiadau ac amcanion caffael.

## 6.4. Opsiwn amgen

Byddai'r dull a argymhellir yn cynnwys proses aml-gam a gwerthusiad effaith fel y disgrifir hyd yma ym Mhennod 6. Byddai hyn yn darparu gwybodaeth gadarn am weithredu ac effaith fel rhan o becyn gwerthuso cydlynol.

Fodd bynnag, os nad yw'r gyllideb yn unol â hyn, gallai gwerthusiad proses neu effaith annibynnol ddarparu rhai mewnwelediadau.

Gallai gwerthusiad proses annibynnol ddarparu gwybodaeth y gellir ei gweithredu o ran a yw'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith fel y bwriadwyd, a galluogwyr, cyfyngiadau a ffactorau cyd-destunol sy’n effeithio ar ei chyflawni. Gallai'r wybodaeth hon helpu i wella'r broses o ymwreiddio'r Ddeddf. Ni fyddai'n gallu rhoi manylion yn systematig ynghylch pa newidiadau y mae'r Ddeddf wedi arwain atynt (ei heffaith).

Byddai gwerthusiad effaith annibynnol yn ceisio rhoi manylion yn systematig ar y newidiadau y mae'r Ddeddf wedi arwain atynt. Byddai dull sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth yn darparu gwybodaeth am y newidiadau sydd wedi digwydd a pham. Yn dibynnu ar amser a chyllideb, mae'n debygol y byddai dewis llai o ganlyniadau'n cael ei ystyried. Byddai angen cynnal sampl lai o astudiaethau achos a fyddai'n darparu set ddata ansoddol fwy cyfyng.

Gellid dewis naill ai proses neu effaith yn dibynnu ar flaenoriaeth. Neu gellid dewis y ddau ond byddai angen eu comisiynu'n unigol ar adegau pan fo'r gyllideb yn ei lle. Fodd bynnag, byddai'r dull tameidiog hwn yn gofyn am adnoddau mewnol ychwanegol ar gyfer dau ymarfer caffael. Byddai'n lleihau cydlyniad a her wrth greu adroddiad crynodol gan y gallai fod cyflenwr gwahanol ar gyfer y gwahanol werthusiadau, a bwlch amser hirach rhwng y gwerthusiadau. Gallai hyn gael ei gymhlethu ymhellach drwy'r gofyniad am wahanol ddulliau ar gyfer partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg o gymharu â chaffael ar gyfer gwerthusiad effaith.

## 6.5. Argymhellion i gefnogi gwerthusiad yn y dyfodol

### 6.5.1. Modelau rhesymeg

Argymhelliad 1: Ymgymryd ag asesiad gwerthusadwyedd o elfen gaffael. Mae hyn yn cynnwys diweddaru'r model rhesymeg o 2023 a nodi'r prif feysydd sy'n cysylltu â'r modelau rhesymeg DPG, CPG a gwaith teg.

Argymhelliad 2: Ar bwynt y gwerthusiad yn y dyfodol (cam proses), llunio unrhyw iteriad terfynol o’r modelau rhesymeg partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael a’r Theori Newid yn ôl yr angen.

### 6.5.2. Data

Argymhelliad 3: Mae'r adran ddata yn yr adroddiad hwn yn amlinellu gwahanol ddarnau o ddogfennaeth a fyddai'n cael eu cadw gan Lywodraeth Cymru. Mae'r dogfennau a grybwyllir drwy gydol yr adran wedi'u rhestru ym Mhennod 4, 'Crynodeb ar draws canlyniadau'r model rhesymeg'. Dylai swyddogion PGCGT ddechrau casglu’r wybodaeth hon (os nad yw hynny wedi digwydd eisoes). Dylid ei storio a'i holrhain dros amser, fel y gellir ei choladu a'i chyrchu'n hawdd ar y pwynt gwerthuso.

Argymhelliad 4: Mae'r adran ddata yn yr adroddiad hwn yn amlinellu gwahanol grwpiau i'w cynnwys wrth gasglu data sylfaenol. Mae'r grwpiau a grybwyllir drwy gydol yr adran wedi'u rhestru ym Mhennod 4, 'Crynodeb ar draws canlyniadau model rhesymeg'. Efallai y bydd angen i swyddogion PGCGT wneud rhywfaint o waith allgymorth ac ymgysylltu i ddeall pwy o fewn cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â'u strwythurau a'u prosesau partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a'u prosesau amcanion llesiant. Byddai unrhyw newidiadau mewn personél dros amser yn bwysig i'w deall a'u cofnodi, gan fod llawer o ganlyniadau'n ymwneud â'r hyn a gyflawnwyd ac esblygiad dros amser. Bydd angen y rhestr hon o gysylltiadau ar werthuswr yn y dyfodol i ganfod pwy i'w gwahodd i weithgareddau ymchwil.

Argymhelliad 5: Ar bwynt y gwerthusiad yn y dyfodol, byddai angen i'r gwerthuswr fesur pa mor ymarferol yw cael cyrff cyhoeddus i rannu data. Mae hyn yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd a dogfennau o gyfarfodydd partneriaeth gymdeithasol a metrigau megis llesiant staff, trosiant, streiciau a disgyblu.

### 6.5.3. Adnoddau

Argymhelliad 6: Archwilio dichonoldeb recriwtio dadansoddwr Llywodraeth Cymru i reoli'r contract ar gyfer y gwerthusiad.